# Adolygiad Lladdiad Domestig o farwolaeth Matthew ym mis Medi 2022.

# Adroddiad Trosolwg

Awdur: Chris Hogben

Comisiynwyd gan:

Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Sir Gaerfyrddin

Dyddiad. Gorffennaf 2024.

# Cynnwys


| Rhif | Adran | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 4 |
| 2. | Methodoleg | 10 |
| 3. | Adolygiadau cyfochrog | 11 |
| 4. | Proses adolygu | 11 |
| 5. | Cydraddoldeb ac amrywiaeth | 13 |
| 6. | Ymgysylltu â theuluoedd | 14 |
| 7. | Gwybodaeth gefndir | 17 |
| 8. | Cronoleg naratif | 18 |
| 9. | Canfyddiadau a dadansoddi | 55 |
| 10. | Casgliadau ac argymhellion | 72 |
| 11. | Atodiad 1. Tabl o argymhellion | 82 |
| 12. | Atodiad 2. Cylch gorchwyl | 85 |

## Teyrnged i Matthew.

Er nad oedd teulu Matthew wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn, mae'r Cadeirydd Annibynnol wedi paratoi'r deyrnged ganlynol yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd i'r adolygiad, gan gynnwys ei ddatganiad personol prifysgol a'i ddatganiad canolwr.

Roedd Matthew yn berson ifanc a oedd yn llwyddo i ganfod ei ffordd mewn bywyd er gwaethaf yr heriau wynebodd yn ei blentyndod. Cafodd ei ddisgrifio gan y rhai oedd yn ei adnabod fel dyn ifanc aeddfed, brwdfrydig, gonest a dibynadwy. Gweithiodd yn galed yn ei addysg; roedd ganddo agwedd dda at ei waith a pherthynas dda â'i gyfoedion.

Roedd Matthew yn ymddiddori yn y ffordd mae gwahanol awyrennau yn gweithio, ac efallai fyddai ei freuddwyd o yrfa mewn peirianneg awyrofod wedi'i gwireddu pe na bai ei fywyd wedi dod i ben mor drasig. Roedd yn amlwg bod Matthew yn credu y gallai gyflawni hyn. Cofnodwyd ar ei ddatganiad personol ei gariad at ffiseg a mathemateg, a sut oedd yn mwynhau datrys problemau mathemategol ac astudio deddfau mudiant Newton.

Roedd Matthew hefyd yn gyfathrebwr da a oedd yn mwynhau treulio amser gydag eraill. Roedd ei ddatganiad personol yn sôn am ei waith mewn ysgol gynradd leol am wythnos, gan helpu disgyblion â'u gwaith dosbarth a chefnogi'r staff. Roedd yn awyddus i ddatblygu sgiliau newydd, ac yn ogystal â gweithio yn yr ysgol, mynychodd gwrs preswyl gyda'r fyddin a wnaeth ei alluogi i weithio ar ei sgiliau datrys problemau a chyfathrebu.

Er na chwrddais â Matthew yn ystod ei fywyd byr, mae ei agwedd gadarnhaol a phopeth a gyflawnodd, er gwaethaf yr anfanteision a wynebodd, yn sicr wedi creu argraff arnaf. Pe bai wedi cael y cyfle, mae'n debygol y byddai Matthew wedi gallu dilyn ei freuddwydion a gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r gymuned.

Chris Hogben.

Cadeirydd Annibynnol.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adolygiad hwn o laddiad domestig wedi'i gomisiynu gan Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Sir Gaerfyrddin, yn dilyn llofruddiaeth Matthew ym mis Medi 2022.

1.12 Yr amgylchiadau a arweiniodd at gomisiynu'r adolygiad hwn yw; ar ddyddiad ar ddechrau mis Medi 2022, cafodd yr heddlu a staff brys meddygol eu galw i gyfeiriad yn Rhydaman, Sir Gaerfyrddin. Cafwyd hyd i'r dioddefwr, Matthew, yn farw yng ngardd flaen yr eiddo. Roedd brawd Matthew, Jacob, a'i fam hefyd yn bresennol. Penderfynwyd bod Matthew wedi dioddef nifer o anafiadau trywanu a chafodd cyllell ei darganfod yno.

1.13 Cafodd Jacob ei arestio a'i gyhuddo wedyn o lofruddiaeth; cafodd ei gadw yn y ddalfa i aros prawf.

1.14 Ar ôl pledio'n euog i lofruddiaeth Matthew mewn gwrandawiad cynharach, ymddangosodd Jacob yn Llys y Goron Abertawe ym mis Mehefin 2023 a'i ddedfrydu i garchar am oes gydag isafswm cyfnod o 18 mlynedd.

1.15 Mae'r panel adolygu am gydymdeimlo â theulu a ffrindiau Matthew yn eu colled.

## 1.2 Cwmpas

1.21 Archwiliodd yr Adolygiad Lladdiad Domestig hwn y cyswllt roedd sefydliadau wedi'i gael â Matthew rhwng 1 Ionawr 2017 a'i farwolaeth ym Medi 2022.

1.22 Er mwyn cyflawni ei bwrpas, archwiliodd yr adolygiad hefyd y cyswllt roedd sefydliadau wedi'i gael â brawd Matthew, Jacob, sef cyflawnwr y gamdriniaeth yn yr achos hwn, yn ystod yr un cyfnod.

1.23 Y rheswm y penderfynodd y panel archwilio'r cyfnod o 1 Ionawr 2017 hyd at farwolaeth drasig Matthew ym Medi 2022, oedd er mwyn galluogi'r adolygiad i ganolbwyntio ar y cyswllt gafodd y gwasanaethau â Matthew a Jacob wrth iddynt dyfu'n oedolion fel plant sy'n derbyn gofal. Cafodd Jacob hefyd gysylltiad â'r gwasanaethau yn 2017 wrth i'w ymddygiad ddechrau dirywio.

## 1.3 Diben yr Adolygiad

1.31 Ystyriodd yr adolygiad y materion a nodwyd yn y canllawiau statudol ar gyfer cynnal Adolygiadau Lladdiad Domestig, a gyflwynwyd dan adran 9(3) o'r Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr (2004), a'i nod yw:

i. cadarnhau'r ffeithiau a llunio dadansoddiad cynhwysfawr a chytbwys o'r wybodaeth i lywio dysgu sefydliadol a dylanwadu ar newid.

ii. gweld pa wersi sydd i'w dysgu o'r lladdiad domestig yn achos Matthew, o ran sut mae gweithwyr proffesiynol a sefydliadau lleol yn gweithio'n unigol a gyda'i gilydd i ddiogelu dioddefwyr;

iii. nodi'n glir beth yw'r gwersi hynny, o fewn asiantaethau a rhyngddynt, sut ac o fewn pa amserlenni y byddant yn cael eu gweithredu, a beth y mae disgwyl iddo newid o ganlyniad;

iv. defnyddio'r gwersi hyn mewn ymatebion gwasanaethau gan gynnwys newidiadau i lywio polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol fel y bo'n briodol;

v. atal lladdiadau a thrais domestig, a gwella ymatebion gwasanaethau i bob dioddefwr cam-drin domestig a'u plant drwy ddatblygu dull amlasiantaeth cydlynol er mwyn sicrhau bod cam-drin domestig yn cael ei adnabod ac yr ymatebir iddo yn effeithiol cyn gynted â phosibl;

vi. nodi bylchau posibl yn y ddarpariaeth gwasanaethau a/neu rwystrau posibl i ddefnyddio gwasanaethau;

vii. cyfrannu at well dealltwriaeth o natur trais a cham-drin domestig;

viii. tynnu sylw at arferion da.

## 1.4 Amserlenni

1.41 Yn unol ag adran 9 o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004, cynhaliwyd cyfarfod o gynrychiolwyr o Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys y Cadeirydd, ar 10 Hydref 2022. Cadarnhawyd bod y meini prawf ar gyfer Adolygiad Lladdiad Domestig wedi'u bodloni a chomisiynwyd yr adolygiad hwn wedyn.

1.42 Hysbyswyd y Swyddfa Gartref o'r bwriad i gomisiynu'r Adolygiad Lladdiad Domestig ar 11 Hydref 2022.

1.43 Penodwyd y Cadeirydd Annibynnol ym mis Rhagfyr 2022 yn dilyn proses recriwtio ffurfiol. Rhannwyd y deunydd cwmpasu cychwynnol gyda'r Cadeirydd Annibynnol a'r cyfarfod panel cychwynnol a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2023.

1.44 Cyfarfu'r panel adolygu ar:

- 27 Ionawr 2023, i drafod y cylch gorchwyl, y dogfennau cwmpasu cynnar ac i gytuno ar ofynion yr Adroddiadau Rheoli Unigol.
- 21 Ebrill 2023, i ystyried yr Adroddiadau Rheoli Unigol ac i drafod yr ymgysylltu â'r teulu.
- 3 Gorffennaf 2023, i alluogi'r panel i ystyried Adroddiadau Rheoli Unigol pellach a dysgu cynnar yn deillio o'r Adroddiadau Rheoli Unigol.
- 26 Medi 2023, i ystyried y themâu allweddol a'r dysgu posibl yn deillio o'r adolygiad.
- 2 Tachwedd 2023, i ystyried yr adroddiad drafft, ac, yn benodol, y casgliadau a'r argymhellion.

1.45 Yn dilyn cyfarfod y panel ym mis Tachwedd 2023, cafodd y cynllun gweithredu ei gwblhau a'i gytuno drwy gyfarfodydd ar wahân gyda'r Cadeirydd Annibynnol neu drwy gyswllt e-bost. Ar ôl cael ei gymeradwyo gan yr asiantaethau unigol, cyflwynwyd yr adroddiad i Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Sir Gaerfyrddin i'w gymeradwyo'n ffurfiol ar 11 Gorffennaf 2024 cyn ei gyflwyno i banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref.

## 1.5 Cyfrinachedd

1.51 Mae cynnwys a chanfyddiadau'r adolygiad hwn yn gyfrinachol a dylent fod ar gael i'r gweithwyr proffesiynol sy'n rhan o'r broses adolygu yn unig, a lle bo'n briodol, eu rheolwyr sefydliadol. Bydd yn para'n gyfrinachol nes ei fod wedi cael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi gan banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref.

1.52 Testun yr adolygiad hwn yw'r dioddefwr, Matthew, a'i frawd Jacob, cyflawnwr y drosedd yn yr achos hwn. Ffugenwau yw enwau'r dioddefwr a'r cyflawnwr. Cafodd teulu'r brodyr gyfle i ddewis y ffugenwau yn yr adroddiad ond ni wnaethpwyd sylw

gan y teulu ar y mater. Lluniwyd y ffugenwau gan y Cadeirydd Annibynnol a'u cymeradwyo gan y panel.

1.53 Roedd Matthew yn 22 oed adeg ei farwolaeth, a'i frawd, Jacob, yn 19 oed. Prydeinig gwyn oedd ethnigrwydd y ddau oedd yn destun yr adolygiad hwn.

1.54 Cyfeiriwyd at unrhyw gyfeiriadau perthnasol yn gyffredinol fel na ellir adnabod y rhai dan sylw.

## 1.6 Cylch Gorchwyl

1.61 Materion penodol y bydd pob asiantaeth yn rhoi ystyriaeth iddynt, ac, os yw'n berthnasol, yn mynd i'r afael â nhw yn ei Hadroddiad Rheoli Unigol yw:

- A oedd ymarferwyr yn sensitif i anghenion Matthew a Jacob? A oeddent yn gwybod am ddangosyddion posibl cam-drin domestig ac yn ymwybodol o beth i'w wneud os oedd ganddynt bryderon am ddioddefwr neu gyflawnwr camdriniaeth? A oedd hi'n rhesymol disgwyl iddynt, o ystyried lefel eu hyfforddiant a'u gwybodaeth, gyflawni yn unol â'r disgwyliadau hynny?
- A oedd gan ymarferwyr y wybodaeth a'r hyder i ddefnyddio'r asesiad risg DASH (Cam-drin Domestig, Stelcian ac Aflonyddu),[1] ar gyfer dioddefwyr a chyflawnwyr cam-drin domestig? Os felly, a ddefnyddiwyd yr asesiadau hynny'n gywir yn achos Matthew a Jacob?
- A oedd Matthew neu Jacob yn destun MARAC [2](Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg), neu fforwm amlasiantaeth arall?
- A gydymffurfiodd yr asiantaeth â phrotocolau trais a cham-drin domestig y cytunwyd arnynt ag asiantaethau eraill, gan gynnwys unrhyw brotocolau rhannu gwybodaeth?

[1] Pwrpas Rhestr Wirio Asesu Risg DASH yw rhoi offeryn asesu risg cyson i ymarferwyr sy'n gweithio gydag oedolion sy'n dioddef cam-drin domestig. Fe'i defnyddir i helpu ymarferwyr i nodi'r rhai sy'n wynebu risg uchel o ran cael niwed a dylid cyfeirio eu hachosion at gyfarfod MARAC (Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg), er mwyn rheoli eu risg.

[2] Mae MARAC yn gyfarfod lle caiff gwybodaeth am yr achosion o gam-drin domestig sydd â'r risg uchaf ei rhannu rhwng cynrychiolwyr yr heddlu lleol, iechyd, amddiffyn plant, ymarferwyr tai, Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs), y gwasanaeth prawf ac arbenigwyr eraill o'r sectorau statudol a gwirfoddol.

- A gollwyd cyfleoedd i ymyrryd? A yw'n ymddangos bod asesiadau a phenderfyniadau wedi'u gwneud mewn ffordd wybodus a phroffesiynol?
- A oedd camau gweithredu neu gynlluniau rheoli risg yn cyd-fynd â'r asesiad a'r penderfyniadau a wnaed? A gafodd gwasanaethau priodol eu cynnig neu eu darparu, neu a gafodd ymholiadau perthnasol eu gwneud yng ngoleuni'r asesiadau, o ystyried yr hyn a oedd yn hysbys neu'r hyn a ddylai fod wedi bod yn hysbys bryd hynny?
- Pryd, ac ym mha ffordd, y cafodd dymuniadau a theimladau'r dioddefwr eu canfod a'u hystyried? A yw'n rhesymol tybio y dylai dymuniadau'r dioddefwr fod wedi bod yn hysbys? A gafodd y dioddefwr wybod am opsiynau/dewisiadau i wneud penderfyniadau gwybodus? A chawsant eu cyfeirio at asiantaethau eraill?
- A oedd unrhyw beth yn hysbys am y cyflawnwr? Er enghraifft, a oedd yn destun MAPPA[3](Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd), MATAC[4](Tasgau a Chydlynu Amlasiantaeth), neu unrhyw raglen ymyrraeth arall ar gyfer cyflawnwyr? A oedd unrhyw waharddiadau neu orchmynion amddiffyn a oedd ar waith, neu a oedd wedi bod ar waith o'r blaen?
- A oedd gweithdrefnau'n sensitif i hunaniaeth ethnig, diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol y dioddefwr, y cyflawnwr a'u teulu? A oedd angen ystyried bod yn agored i niwed neu anabledd? A oedd unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig eraill yn berthnasol yn yr achos hwn?
- A oedd Matthew neu Jacob wedi gwneud datgeliad i unrhyw ymarferwyr neu weithwyr proffesiynol ac os felly, a oedd yr ymateb yn briodol?
- A gafodd y wybodaeth hon ei chofnodi a'i rhannu, lle bo hynny'n briodol?
- A oedd uwch-reolwyr neu asiantaethau/gweithwyr proffesiynol eraill yn rhan o'r mater hwn ar yr adegau priodol?

[3] MAPPA yw'r broses lle mae gwahanol asiantaethau fel yr heddlu, y gwasanaeth carchardai, a'r gwasanaeth prawf yn gweithio gyda'i gilydd i ddiogelu'r cyhoedd trwy reoli'r risgiau a berir gan droseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw sy'n byw yn y gymuned.
[4]Mae gweithio mewn partneriaeth yn rhan o MATAC, i leihau aildroseddu gan y cyflawnwyr cam-drin domestig mwyaf niweidiol a chyfresol ac i ddiogelu dioddefwyr a'u teuluoedd.

- A oedd gan y staff cysylltiedig y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol?
- A oes gwersi i'w dysgu o'r achos hwn o ran y ffordd y gweithiodd asiantaeth, neu asiantaethau, i ddiogelu Matthew neu Jacob, ac i hyrwyddo eu lles? A oes goblygiadau o ran ffyrdd o weithio, hyfforddiant, rheoli a goruchwylio, gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill neu ddarparu adnoddau?
- Pa mor hygyrch oedd y gwasanaethau i Matthew a Jacob?
- A fu unrhyw waith ailstrwythuro yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu ac os felly, a yw'n debygol o fod wedi cael effaith ar ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd?
- A effeithiodd pandemig covid ar y gwasanaethau a ddarparwyd i Matthew neu Jacob, neu ar eu gallu i gyrchu'r gwasanaethau hynny?

1.62 Gellir gweld y cylch gorchwyl llawn yn atodiad 2 i'r adroddiad hwn.

## 1.7 Dosbarthu

1.71 Bydd yr unigolion/sefydliadau canlynol yn derbyn copïau o'r adroddiad hwn:

- Bwrdd Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Sir Gaerfyrddin.
- Bwrdd Partneriaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru.
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
- Comisiynydd Cam-drin Domestig Cymru a Lloegr.

1.72 Bydd yr adroddiad a'r crynodeb gweithredol yn cael eu cyhoeddi ar wefan Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Sir Gaerfyrddin ar ôl i banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref eu cymeradwyo.

1.73 Mae teulu Matthew wedi gwrthod y cynnig i gael copi o'r adolygiad.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adroddiad trosolwg hwn yn drosolwg o'r wybodaeth a dynnwyd o adroddiadau rheoli annibynnol, a baratowyd gan gynrychiolwyr o'r sefydliadau gafodd gysylltiad â Matthew neu Jacob rhwng 1 Ionawr 2017 a marwolaeth Matthew ym mis Medi 2022.

2.2 Anfonwyd llythyr at uwch-reolwyr ym mhob asiantaeth neu gorff a nodwyd o fewn cwmpas yr adolygiad, yn gofyn am gomisiynu Adroddiadau Rheoli Unigol. Nod yr Adroddiad Rheoli Unigol yw:

- Caniatáu i asiantaethau edrych yn agored ac yn feirniadol ar arferion unigol a sefydliadol a'r cyd-destun roedd ymarferwyr yn gweithio ynddo (diwylliant, arweinyddiaeth, goruchwyliaeth, hyfforddiant ac ati), i weld a yw'r lladdiad yn dangos bod angen newid neu wella'r arferion hynny, er mwyn cefnogi darparu gwasanaethau o'r safon uchaf.
- Nodi sut a phryd mae angen cyflawni'r newidiadau neu'r gwelliannau hynny.
- Nodi arfer da o fewn asiantaethau.
- Darparu asesiad annibynnol o'r arferion a'r gwasanaethau drwy sicrhau nad yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am yr Adroddiad Rheoli Unigol wedi ymwneud ag unrhyw un sy'n destun yr adolygiad. Cafodd yr Adroddiad Rheoli Unigol ei lofnodi gan uwch-reolwr o'r sefydliad hwnnw cyn cael ei gyflwyno i banel yr Adolygiad Lladdiad Domestig.

Cwblhaodd pob un o'r sefydliadau canlynol Adroddiad Rheoli Unigol neu adroddiad gwybodaeth byr (os nad oedd angen Adroddiad Rheoli Unigol), ar gyfer yr Adolygiad Lladdiad Domestig hwn:

a. Heddlu Dyfed-Powys.
b. Heddlu De Cymru.
c. Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.
d. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.
e. Gwasanaethau Plant ac Oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.
f. Cyfarwyddiaeth Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.
g. Y Gwasanaeth Prawf.

h. Gwasanaeth Dewisiadau Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.
i. Llamau.
j. Coleg Castell-nedd Port Talbot.

Ym mhob un o'r Adroddiadau Rheoli Unigol, cofnodwyd rhyngweithio â Matthew neu Jacob. Yn bennaf, roedd hyn yn ymwneud â chysylltiad Matthew â gofal cymdeithasol plant, gwasanaethau iechyd ac addysg. Ac yn achos Jacob, ei gysylltiad â gofal cymdeithasol plant, addysg, yr heddlu, gwasanaethau iechyd a'r gwasanaeth prawf.

## 3. Adolygiadau Cyfochrog

3.1 Mae'r gwasanaeth prawf wedi cwblhau adolygiad trosedd ddifrifol bellach mewn perthynas â'i oruchwyliaeth ar Jacob. Bu arweinydd yr adolygiad a'r Cadeirydd Annibynnol yn cydweithio ar y broses hon, a chyfrannu at yr Adolygiad Lladdiad Domestig drwy rannu eu canfyddiadau.

## 4. Y Broses Adolygu

### 4.1 Cyfranwyr i'r Adolygiad

4.11 Roedd y panel adolygu yn cynnwys Cadeirydd Annibynnol ac uwch-gynrychiolwyr o'r sefydliadau gafodd gysylltiad perthnasol â Matthew neu Jacob. Nid yw awduron yr Adroddiadau Rheoli Unigol nac aelodau panel yr Adolygiad Lladdiad Domestig wedi bod yn rheolwyr llinell uniongyrchol ar unrhyw staff sy'n gysylltiedig â nhw.

4.12 Aelodau'r panel oedd:

| | |
|---|---|
| Kate Harrop | Cyngor Sir Caerfyrddin. |
| Gill Adams | Cyngor Sir Caerfyrddin. |
| Rebecca Robertshaw | Cyngor Sir Caerfyrddin. |
| Richard Felton | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. |
| Rachel Munkley | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. |
| Natalie Hancock | Ymgynghorydd VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru. |

| | |
|---|---|
| Mandy Mellor | Coleg Castell-nedd Port Talbot. |
| Chris Frey-Davies | Cyngor Castell-nedd Port Talbot. |
| Sam Jones | Cyngor Castell-nedd Port Talbot. |
| Christine Harley | Gwasanaeth Prawf. |
| Bryan Heard | Heddlu De Cymru. |
| Steve Thomas | Heddlu Dyfed-Powys. |
| Katharine Thomas | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. |
| Rachel Hayes | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. |
| Yvonne Connolly | Llamau[5]. |

4.13 Mae Cadeirydd Annibynnol y panel adolygu yn uwch-swyddog heddlu wedi ymddeol. Fel yr arweinydd strategol ar gyfer ymchwilio i droseddau, cyfiawnder troseddol, a diogelu oedolion a phlant yn Heddlu Caint, mae ganddo brofiad a gwybodaeth sylweddol o ran materion a deddfwriaeth cam-drin domestig, yn ogystal â materion diogelu ehangach. Ar ôl gweithio'n agos gydag asiantaethau partner yn y maes diogelu amlasiantaeth, mae ganddo ddealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau'r sefydliadau hynny. Mae ganddo gefndir mewn ymchwilio i droseddau difrifol, gan gynnwys arwain ymchwiliadau llofruddiaeth, adolygiadau a chadeirio cyfarfodydd amlasiantaeth. Yn ogystal â gweithio fel Cadeirydd Annibynnol ar gyfer Adolygiadau Lladdiadau Domestig, mae hefyd yn cadeirio Adolygiadau Diogelu Oedolion ac yn gweithio ar Adolygiadau Lladdiadau Iechyd Meddwl a gomisiynir gan NHS England. Mae'r Cadeirydd Annibynnol wedi cwblhau cwrs hyfforddiant gorfodol newydd gan y Swyddfa Gartref ar gyfer Adolygiadau Lladdiad Domestig.

[5]Mae Llamau yn elusen ddigartrefedd flaenllaw yng Nghymru, sy'n cefnogi pobl ifanc agored i niwed a allai fod yn gadael gofal, yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol, wedi profi cam-drin domestig neu'n byw bywyd caotig o dan anfantais.

4.14 Nid oes gan y Cadeirydd Annibynnol unrhyw gysylltiad ag unrhyw awdurdod yng Nghymru ac mae'n gwbl annibynnol ar yr holl asiantaethau sy'n ymwneud â'r adolygiad hwn.

## 5. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

5.1 Rhoddodd yr adroddiad ystyriaeth hefyd i naw nodwedd warchodedig (oedran, anabledd, gan gynnwys anabledd dysgu, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaethau sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, ethnigrwydd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) fel y'u rhagnodwyd o fewn dyletswyddau Deddf Cydraddoldeb y sector cyhoeddus, [6] i asesu a oeddent yn berthnasol i unrhyw agwedd ar yr adolygiad hwn. Ystyriodd yr adolygiad a oedd materion o'r fath wedi effeithio ar fynediad at wasanaethau neu ddarparu gwasanaethau.

a, Oedran-Ar adeg ei farwolaeth, roedd Matthew yn 22 oed, roedd Jacob yn 19 oed, nid oes unrhyw ystyriaethau oedran hysbys yn yr achos hwn.

b, Anabledd-Nid oedd gan Matthew na Jacob unrhyw anableddau er bod Jacob wedi datgelu problemau iechyd meddwl ac wedi cael cymorth ar gyfer hyn yn ystod y cyfnod adolygu. Archwilir ymgysylltiad Jacob â'r gwasanaethau iechyd meddwl yn yr adroddiad hwn.

c, Ailbennu Rhywedd-Nid oedd hyn yn ystyriaeth yn yr achos hwn.

d, Priodas a phartneriaeth sifil-Roedd Matthew a Jacob yn frodyr ac nid oeddent yn byw gyda'i gilydd. Felly, nid oedd priodas a phartneriaeth sifil yn berthnasol yn yr adolygiad hwn.

e, Hil-Nid oedd hyn yn ystyriaeth yn yr achos hwn.

f, Crefydd a chredoau-Nid oedd hyn yn ystyriaeth yn yr achos hwn.

g, Rhyw - Mae rhyw bob amser yn ystyriaeth sylweddol mewn Adolygiadau Lladdiad Domestig. Mae dadansoddiad o arolwg

[6] Mae'n ofynnol yn ôl y ddyletswydd gyffredinol i awdurdodau lleol, wrth gyflawni eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, a fictimeiddio anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad anghyfreithlon arall mae'r ddeddf wedi'i wahardd.

troseddau Prydain[7] yn awgrymu mai menywod oedd 74.1% o'r dioddefwyr cam-drin domestig a nodwyd gan heddluoedd yn y flwyddyn ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022. Yn yr achos hwn, dyn oedd y dioddefwr, Matthew, a dyn hefyd oedd cyflawnwr y gamdriniaeth, Jacob. Nododd y panel y gallai rhyw Matthew fod wedi cyfrannu at y ffaith nad oedd yn uniaethu fel dioddefwr cam-drin domestig, ond nid oedd tystiolaeth uniongyrchol i gefnogi hyn.

h, Cyfeiriadedd rhywiol-Nid oedd hyn yn ystyriaeth yn yr achos hwn.

i, Beichiogrwydd a mamolaeth-Nid oedd hyn yn ystyriaeth yn yr achos hwn.

5.2 Er bod rhai o'r nodweddion hyn yn berthnasol i'r adolygiad ac yn cael eu hystyried gan y panel, nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu eu bod wedi cael effaith ar allu'r sawl sy'n destun yr adolygiad i gael mynediad at wasanaethau. Nid oedd y nodweddion hyn wedi effeithio ar y gwasanaeth roddwyd gan unrhyw un o'r asiantaethau dan sylw.

## 6. Ymgysylltu â Theuluoedd

6.1 Rhoddodd y panel adolygu ystyriaeth i ba aelodau o deulu Matthew a Jacob y dylid ymgynghori â nhw a'u cynnwys yn y broses adolygu.

6.2 Roedd y Cadeirydd Annibynnol yn awyddus i gynnwys barn aelodau agos o deulu Matthew a Jacob. Ysgrifennodd y Cadeirydd Annibynnol at fam y brodyr, ac ar wahân at eu tad, i gyflwyno ei hun i esbonio proses yr Adolygiad Lladdiad Domestig ac i'w hannog i gyfrannu. Rhoddodd hefyd daflenni gwybodaeth y Swyddfa Gartref ac AAFDA[8] iddynt. Dosbarthwyd y llythyrau hyn gan swyddogion cyswllt â theuluoedd yr Heddlu.

6.3 Yn anffodus, nid oedd mam na thad y brodyr yn fodlon cymryd rhan yn yr adolygiad na rhoi unrhyw wybodaeth am eraill a allai

[7] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/articles/domesticabusevictimcharacteristicsenglandandwales/yearendingmarch2022#sex

[8] AAFDA---Gwasanaeth Eiriolaeth ar ôl Cam-drin Domestig Angheuol. Sefydliad elusennol sy'n darparu cymorth arbenigol i deuluoedd yr effeithir arnynt gan laddiad domestig. Mae hefyd yn darparu cefnogaeth, hyfforddiant ac adnoddau i weithwyr proffesiynol yn y maes hwn.

ddarparu gwybodaeth am y brodyr. Ar gais y Cadeirydd Annibynnol, cododd Uwch-swyddog Ymchwilio Heddlu Dyfed-Powys y mater gyda'r teulu, i geisio eu hannog i ymwneud â'r adolygiad, ond cadarnhaodd y fam a'r tad nad oedd yn fwriad ganddynt i gyfrannu na chwrdd â'r Cadeirydd Annibynnol. Dywedodd y teulu wrth yr Uwch-swyddog Ymchwilio nad oedd gwahaniaeth ganddynt beth oedd y ffugenwau, a'u bod yn hapus i'r adolygiad ddefnyddio unrhyw enwau.

6.4 Cysylltodd yr adolygiad â Phrifysgol Abertawe i geisio canfod myfyrwyr neu staff a allai ddarparu gwybodaeth am Matthew a helpu i roi llais iddo yn yr adolygiad. Yn anffodus, ni allai'r adolygiad gael hyd i unrhyw un a allai gynorthwyo'r adolygiad yn y modd hwn. Fodd bynnag, roedd y brifysgol yn gallu darparu copi o'i ddatganiad personol a'i ddatganiad canolwr o'i gais prifysgol. Bwriodd y ddwy ddogfen hyn rywfaint o oleuni ar agwedd Matthew at fywyd. Geiriau Matthew yw'r paragraffau canlynol:

6.5 *'Mae dysgu ac ymchwilio i wahanol egwyddorion sut mae gwahanol awyrennau'n gweithio yn rhywbeth sydd o wir ddiddordeb i mi. Mae defnyddio cysyniadau mathemateg a ffiseg sylfaenol a chymhleth i ddylunio a chreu ffyrdd newydd o helpu awyrennu yn rhywbeth sydd i'w weld yn gyffrous iawn. Dwi wastad wedi ymddiddori yn y bydysawd, ac os yw gyrfa mewn peirianneg awyrofod yn golygu bod gyda fi'r potensial i weithio a datblygu gwahanol longau gofod, yna mae astudio gradd mewn peirianneg awyrofod a chael gwell dealltwriaeth o sut mae lloerennau ac awyrennau yn gweithio yn rhywbeth fydden i wrth fy modd bod yn rhan ohono. Mae cyfathrebu a gweithio gydag eraill i gwblhau tasgau yn rhywbeth rwy'n ei fwynhau, yn enwedig gweithio gyda phwysau dyddiadau cau. Ar hyn o bryd rwy'n astudio mathemateg, ffiseg, peirianneg a Bagloriaeth Cymru ar gyfer Lefel A, ac rwy'n mwynhau'n fawr. Mae datrys problemau yn rhan allweddol o fathemateg. Mae datrys problemau mathemategol yn rhywbeth rwy'n cael boddhad mawr ohono. Mae ffiseg yn golygu defnyddio llawer o'r sgiliau mathemategol hyn, ac, yn benodol, rwy'n mwynhau astudio deddfau mudiant a mudiant cylchol Newton.*

6.6 *Mae gen i ddiddordeb mewn sut mae peirianneg yn cyfuno mathemateg a ffiseg wrth greu llawer o'r pethau sy'n bodoli o'n cwmpas ni. Yn fy ysgol gyfun, roeddwn i'n swyddog ac yn mwynhau'r cyfrifoldeb o helpu staff a disgyblion i wneud yr ysgol yn lle gwell a mwy diogel. Ym Mlwyddyn 11, enillais y wobr ymdrech am wneud fy ngorau yn y dosbarth ac am gwblhau fy arholiadau yn llwyddiannus. Cefais hefyd dystysgrif addysg a bywyd ysgol gan Wasanaethau Plant Cyngor Castell-nedd Port Talbot am wneud yn dda yn fy TGAU. Eleni enillais dystysgrif gan Wasanaethau Plant Cyngor Castell-nedd Port Talbot i gydnabod pa mor dda roeddwn wedi'i wneud yn fy astudiaethau yn y coleg.*

6.7 *Am bum diwrnod gweithiais yn fy ysgol gynradd leol fel cynorthwyydd athro pan oeddwn ym mlwyddyn 10. Yno bues i o gymorth i athrawon trwy helpu disgyblion gyda'u gwaith dosbarth, a thacluso ar ôl i'r disgyblion adael ar ddiwedd y dydd. Helpodd y gwaith i ddatblygu fy sgiliau cyfathrebu, gan fod cyfathrebu â'r athrawon a'r disgyblion yn allweddol i wneud y rhan fwyaf o dasgau. Hefyd, am bum diwrnod, es i ar gwrs preswyl y Fyddin ym mis Mawrth 2016 lle dysgais lawer o sgiliau newydd. Fe wnes i lawer o wahanol weithgareddau a alluogodd fi i weithio ar fy sgiliau datrys problemau a chyfathrebu. Roedd y rhan fwyaf o weithgareddau'n cynnwys elfen o waith tîm ac fe wnes i fwynhau'r her o ddringo Mynydd Dinas y Bwlch yn fawr; roedd angen gwaith caled a bod yn benderfynol. Rwy'n edrych ymlaen at fynd i'r brifysgol. Mae agweddau gofod peirianneg awyrofod yn rhywbeth rwy'n edrych ymlaen yn benodol at eu hastudio. Mae defnyddio'r sgiliau mathemateg a ffiseg rwy' wedi'u dysgu, a'u rhoi ar waith yn y byd go iawn, yn rhywbeth cyffrous rwy'n siŵr fydda i'n ei fwynhau'n fawr'.* (CYFIEITHIAD)

6.8 Mae ei ddatganiad canolwr yn cynnwys y disgrifiad canlynol o Matthew fel oedolyn ifanc gan rywun oedd yn ei adnabod yn dda. '*Mae Matthew yn fyfyriwr o'r radd flaenaf sydd ag agwedd aeddfed a chadarnhaol at waith coleg. Mae'n fyfyriwr hapus iawn sydd bob amser wedi bod yn ddibynadwy, cwrdd â dyddiadau cau, ac ymddwyn yn ddiwyd a chydwybodol iawn. Mae Matthew yn dangos parch, ac mae wedi bod yn ddisgybledig iawn, sylwgar a phrydlon trwy gydol ei gyfnod gyda'r coleg. Mae Matthew yn ddyn ifanc aeddfed a brwdfrydig, ac yn unigolyn*

*gonest a dibynadwy sy'n cyd-dynnu'n dda â'i gyfoedion.* (CYFIEITHIAD)

6.9 Mae geiriau Matthew ei hun, a'i ganolwr, yn llunio darlun o ddyn ifanc sydd, er gwaethaf yr heriau ar ddechrau ei fywyd, wedi cael cyfle i gyflawni ei ddyheadau ac i arwain bywyd llwyddiannus.

6.10 Er nad oedd unrhyw aelod o'r teulu yn dymuno cymryd rhan yn y broses adolygu, cysylltodd y panel â thîm ymchwilio'r heddlu, a llwyddo i gael mynediad at rai o'r datganiadau ysgrifenedig a roddwyd gan aelodau'r teulu gyda'u caniatâd. Gwnaeth mam-gu Matthew sylwadau ar yr hyn roedd hi'n ei weld fel y rheswm dros y lladdiad, sef bod Jacob yn genfigennus o'r ffaith bod Matthew yn gweithio'n galed i wella ei hun trwy ei waith prifysgol. Dywedodd hi fod Jacob yn aml yn galw Matthew yn '*golden boy'* ac yn dal ei lwyddiant yn ei erbyn. Disgrifiodd ewythr Matthew ef fel rhywun hynod hoffus. Dywedodd fod gan Matthew 'galon aur'. Soniodd hefyd fod Matthew yn gweithio'n galed yn y brifysgol. Nid oedd unrhyw sôn yn y datganiadau am unrhyw awgrym nad oedd Matthew yn gallu cael mynediad at wasanaethau fel iechyd, gofal cymdeithasol neu addysg.

## 7. Gwybodaeth Gefndir

7.1 Ganwyd y dioddefwr, Matthew, yng Nghymru yn 2000 ac roedd yn 22 oed pan fu farw. Ganwyd y cyflawnwr, Jacob, brawd Matthew, yn 2002, hefyd yng Nghymru. Roeddent yn ddau o bump o blant.

7.2 Daeth Gofal Cymdeithasol Plant i wybod am Jacob a Matthew oherwydd pryderon eu bod yn cael eu hesgeuluso. Erbyn Chwefror 2007, roedd enwau'r ddau blentyn ar y gofrestr amddiffyn plant o dan y categori cam-drin emosiynol.

7.3 Yn ddiweddarach, cafodd Jacob a Matthew eu lletya'n wirfoddol o dan adran 20 Deddf Plant 1989 (bellach adran 76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014), oherwydd esgeulustod a phryderon am eu mam yn camddefnyddio sylweddau, ffordd o fyw'r fam, a'i pherthnasoedd amhriodol. Y gred gan weithwyr proffesiynol oedd bod cam-drin domestig sylweddol, y bu i'r plant dystio iddo, yn nodwedd o berthynas rhieni'r brodyr. Roedd pryderon hefyd fod y plant yn dod i gysylltiad, trwy'r fam, ag oedolion amhriodol oedd yn cam-

ddefnyddio sylweddau anghyfreithlon. Felly roedd pryderon fod y plant yn wynebu risg o niwed emosiynol a chorfforol. Nid oedd y tîm gwaith cymdeithasol ar y pryd yn credu bod anghenion Matthew na Jacob yn cael eu diwallu'n gyson, gan deimlo bod hyn yn effeithio ar eu datblygiad. Dengys y ffeiliau Gofal Cymdeithasol Plant fod tad y bachgen heb ddilyn y cyngor roddwyd gan y teulu, ffrindiau, a gweithwyr proffesiynol, sef ceisio cyngor cyfreithiol i ddiogelu'r plant. Nid oedd y tad bellach yn byw gyda mam y bachgen ac roedd yn cael ei ystyried yn ofalwr diogel posibl. Mae'r ffeiliau yn nodi bod eu tad yn defnyddio canabis, bod ei ffordd o fyw yn gaotig, a'i fod yn cyflawni troseddau.

7.4 Er i'r ddau blentyn gael eu dychwelyd i ofal y fam ym mis Ebrill 2007, am gyfnod byr yn unig barodd hynny, gan i Matthew a Jacob gael eu dychwelyd i lety gwirfoddol ym mis Gorffennaf y flwyddyn honno. Ar ôl dod yn destun gorchymyn gofal dros dro ym mis Chwefror 2008, cafodd Matthew a Jacob eu gwneud yn destun gorchmynion gofal llawn ym mis Tachwedd 2008. Wedyn bu'r brodyr yng ngofal teulu maeth hirdymor tan 2018, gan roi iddynt ddilyniant sylweddol o ran eu trefniadau gofal.

7.5 Roedd Matthew wedi gadael yr ysgol cyn cyfnod yr adolygiad hwn. Mae ei gofnodion ysgol yn dangos ei fod yn ddisgybl gweithgar a galluog a enillodd raddau TGAU[9] da. Nid oes cyfeiriad yng nghofnodion yr ysgol at ymddygiad gwael. Mae cofnodion yr ysgol yn awgrymu bod Jacob hefyd, cyn Medi 2017, yn ddisgybl galluog iawn, a dim ond mân achosion o gamymddygiad oedd wedi'u cofnodi.

## 8. Cronoleg Naratif

### 2017

8.1 Ar 10 Ionawr, cofnododd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot fod adolygiadau plentyn sy'n derbyn gofal[10] wedi'u cynnal mewn perthynas â Matthew a Jacob. Dilynwyd hyn gan adolygiad goruchwylio.

[9] Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (TGAU).
[10] Plentyn sy'n derbyn gofal yw plentyn neu berson ifanc y mae ei awdurdod lleol yn gofalu amdano/amdani.

8.2 Roedd cofnodion Heddlu De Cymru yn dangos bod Jacob, ynghyd â dau berson ifanc arall, wedi cael ei rybuddio ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol ar 31 Ionawr, ac wedi hynny, ar 18 Chwefror, wedi cael llythyr o rybudd i'r perwyl hwnnw.

8.3 Ar 15 Chwefror, roedd Jacob unwaith eto ynghlwm wrth achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Ar yr achlysur hwn, cyfaddefodd iddo daflu wyau at dŷ, ymddiheurodd am hynny, ac eto, cafodd ei rybuddio am ei ymddygiad yn y dyfodol.

8.4 Ar 20 Chwefror, cynhaliodd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ymweliad cartref â Jacob a'i ofalwyr maeth gan fod ymddygiad Jacob yn gwaethygu, a oedd yn cynnwys defnyddio alcohol. Roedd y gofalwyr maeth yn poeni am ei ddylanwad ar berson iau yn yr un cyfeiriad, ac yn poeni a allent barhau i ddarparu gofal a chefnogaeth i Jacob ai peidio. Penderfynwyd cynnal cyfarfod tarfu a rhoi cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r materion a godwyd.

8.5 Cofnododd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ar 7 Mawrth fod y gofalwyr maeth wedi mynegi pryderon am Jacob yn camddefnyddio alcohol, eisiau mwy o ryddid, ac nad oeddent yn gallu cadw Jacob yn ddiogel. Parhaodd hyn i fis Ebrill 2017, gyda'r gofalwyr maeth yn poeni mwyfwy am ymddygiad Jacob a diffyg parch at ymddiriedaeth a ffiniau. Er gwaethaf cefnogaeth barhaus, gofynnodd y gofalwyr maeth am i leoliad Jacob gael ei newid. Ar 4 Ebrill, gwnaed atgyfeiriad ar gyfer newid lleoliad. Nodwyd fodd bynnag fod adroddiad ysgol y mis hwnnw yn dangos presenoldeb da iawn gan Jacob, a bod yr ysgol yn credu bod Jacob ar y trywydd iawn i ennill graddau da ar lefel TGAU.

8.6 Ar 6 Ebrill y flwyddyn honno, cofnododd Cyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot atgyfeiriad atal gan Gofal Cymdeithasol Plant ar gyfer Jacob. Roedd yr atgyfeiriad hwn yn tynnu sylw at ymddygiad oedd yn gwaethygu, defnyddio alcohol, a thystiolaeth o fwlio a roddwyd ar y cyfryngau cymdeithasol. Dyrannwyd gweithiwr achos i Jacob a fyddai'n cymryd cyfrifoldeb am sgrinio a chynllunio camau gweithredu.

8.7 Ar 5 Mai, aeth Jacob ar benwythnos seibiant i leddfu'r pwysau ar ei ofalwyr maeth.

8.8 Ar 6 Mehefin, cynhaliodd gweithiwr achos Cyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot a gweithiwr cymdeithasol ymweliad cartref i gwrdd â Jacob a'r teulu. Cynhaliwyd ail gyfarfod yn ddiweddarach y mis hwnnw ar 13 Mehefin. Cwblhawyd sgriniad byr, trafodwyd cynllun ymyrraeth a chytunwyd arno gan Jacob a'i ofalwyr. Nodir bod y sgrinio'n gyfyngedig iawn ac nad oedd y cynllun ymyrraeth yn glir, o bosibl oherwydd taw staff anghymwys oedd wedi eu cwblhau.

8.9 Parhaodd yr ymgysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot trwy gydol mis Mehefin. Roedd hyn yn cynnwys seibiannau byr pellach a chyfarfod cyswllt dan oruchwyliaeth rhwng Jacob, Matthew a'u mam. Penderfynwyd bod y lleoliad yn fwy sefydlog a chafodd yr atgyfeiriad i newid lleoliad Jacob ei dynnu'n ôl gan y gofalwyr maeth.

8.10 Parhaodd yr ymgysylltu â Jacob ym mis Gorffennaf. Roedd Jacob yn ymgysylltu â gwasanaethau, roedd ei broblemau dicter yn gwella, ac roedd ei adroddiad ysgol diwedd blwyddyn yn awgrymu ei fod ar y trywydd iawn i gael graddau da, gydag athrawon yn ei ddisgrifio fel un cadarnhaol ac ymroddedig. Caeodd Cyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot ei ffeil ar gyfer Jacob ar 13 Gorffennaf. Ar 20 Gorffennaf, cofnododd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot fod y gofalwyr maeth yn gweld ymddygiad Jacob yn heriol ond bod Matthew yn gwneud cynnydd da. Gwrthododd Jacob fynd ar wyliau i Florida gyda'r gofalwyr maeth.

8.11 Cofnodwyd mewn ymweliad gan Wasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ar 29 Awst fod ymddygiad Jacob yn parhau i roi pwysau ar y lleoliad.

8.12 Ym mis Medi cafwyd adroddiad ysgol am Jacob yn brolio ynghylch cymryd sylweddau anghyfreithlon, ac yna adroddiad gan y gofalwyr maeth a oedd yn poeni bod Jacob yn dod adref o dan ddylanwad sylweddau yn ôl pob golwg. Rhannwyd y wybodaeth hon â gweithwyr proffesiynol priodol. Hefyd trefnwyd seibiant byr arall gyda gofalwr arall i leddfu'r pwysau ar y lleoliad.

8.13 Parhaodd y pryderon am ymddygiad Jacob i fis Hydref, gan gynnwys pryderon am y defnydd o sylweddau anghyfreithlon. Penderfynodd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port

Talbot y byddai'r cyswllt dan oruchwyliaeth â'i fam yn parhau, o fewn y gymuned. Nodwyd hefyd fod yr ysgol wedi dweud bod Jacob yn perfformio'n dda.

8.14 Cofnododd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal ar gyfer Matthew, a oedd yn datgan bwriad i archwilio'r posibilrwydd o gyswllt heb oruchwyliaeth â'i fam. Cyfeiriai hefyd at y gofalwyr maeth yn helpu Matthew i wneud cais am gyfleoedd yn y diwydiant awyrofod. Nododd yr adolygiad ar gyfer Jacob ymddygiad gwell a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi iddo gael cyswllt heb oruchwyliaeth â'i fam, er byddai ei frawd Matthew yn bresennol hefyd.

8.15 Ar 21 Rhagfyr, cofnododd yr ysgol fod Jacob, yn rhan o grŵp o bobl ifanc eraill, wedi gorfodi drws tân ar agor ac achosi difrod i fat diogelwch yn y gampfa.

**2018**

8.16 Ddiwedd mis Ionawr, mynegwyd rhagor o bryderon gan y gofalwyr maeth fod ymddygiad Jacob yn gwaethygu, a bod hynny'n achosi anawsterau o ran ei berthynas â'r gofalwyr maeth eu hunain. O ganlyniad, daeth lleoliad Jacob i ben ar 31 Ionawr ac fe'i rhoddwyd mewn gofal seibiant.

8.17 Ar 2 Chwefror, gwnaeth Jacob honiadau bod ei fam faeth wedi rhoi slap yn ei wyneb iddo'r diwrnod cynt. Dechreuwyd ymchwiliad adran 47[11] yn unol â'r gweithdrefnau diogelu presennol. Cynhaliwyd cyfarfod strategaeth cam-drin proffesiynol (PASM),[12] ymweliad ar y cyd â Jacob, a chyfweliad â'r fam faeth dan rybuddiad. Penderfynodd y PASM wedyn na ellid cadarnhau'r honiad ac nad oedd angen cymryd camau pellach.

8.18 Siaradodd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot â Matthew, a ddywedodd ei fod yn colli ei frawd ond nad oedd am newid ei leoliad. Cafodd Matthew gefnogaeth hefyd i gyfarfod â'i dad, nad oedd wedi ei weld ers tua 11 mlynedd.

---

[11] Cychwynnir Ymchwiliad Adran 47 (Deddf Plant 1989) i benderfynu a oes angen camau gweithredu, a pha fath o gamau, i ddiogelu a hyrwyddo lles plentyn yr amheuir ei fod, neu'n debygol o fod, yn dioddef niwed sylweddol.

[12] Cyfarfod strategaeth proffesiynol i ystyried pryderon diogelu yn erbyn ymarferydd/person mewn swydd o ymddiriedaeth.

8.19 Ar 1 Mawrth, dechreuodd Jacob ei leoliad newydd. Roedd cofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer mis Mawrth yn cofnodi bod tad Jacob wedi gofyn am gael cyswllt ag ef, a bod y gweithiwr cymdeithasol wedi annog Jacob i gael cyswllt â'i frawd, Matthew.

8.20 Ar 17 Ebrill, cofnododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe asesiad iechyd statudol ar gyfer Jacob. Roedd yr asesiad yn nodi bod ei anghenion iechyd yn cael eu diwallu, ei fod yn hapus gyda'i leoliad newydd, a'i fod yn cael rhywfaint o gyswllt â'i frawd, Matthew. Nid oedd unrhyw bryderon am ei iechyd emosiynol.

8.21 Ar 8 Mai, gwnaed lleoliad gofal seibiant Jacob yn barhaol, a oedd yn cynnig rhywfaint o sefydlogrwydd i Jacob.

8.22 Yn yr adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal ar gyfer Jacob ym Mehefin, cofnodwyd bod Jacob wedi setlo'n dda yn ei leoliad newydd ac nad oedd problemau o ran ei ymddygiad. Trwy gydol y mis, gwnaed ymdrechion gan weithwyr cymdeithasol i helpu Jacob i gael cyswllt ag aelodau o'i deulu. Er bod hyn wedi gweithio'n dda gyda Matthew, roedd yn fwy heriol gydag aelodau eraill o'r teulu, yn enwedig ei dad.

8.23 Ar 29 Mehefin, nodwyd yng nghofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot fod newid wedi bod yn statws cyfreithiol Matthew. Gan ei fod yn 18 oed erbyn hynny, nid oedd bellach yn blentyn sy'n derbyn gofal, a newidiwyd y lleoliad i 'pan fydda i'n barod'.

8.24 Cwblhaodd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot eu sesiwn hanes bywyd[13] gyntaf gyda Jacob ar 5 Gorffennaf. Roedd hwn yn argymhelliad o'r adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal ym Mehefin, gyda'r bwriad o helpu Jacob i ddeall pam ei fod mewn gofal.

8.25 Ar 11 Gorffennaf, cafodd Jacob ei wahardd o'r ysgol am 3 diwrnod am ddwyn diodydd o oergell y staff. Roedd ei adroddiad diwedd blwyddyn, a gyflwynwyd ar 16 Gorffennaf, yn cofnodi bod presenoldeb Jacob yn yr ysgol yn dal i fod yn dda ond bod newid negyddol wedi bod yn ei agwedd, ei gyrhaeddiad a'i ymdrech.

[13] Mae gwaith hanes bywyd yn adrodd hanes bywyd plentyn i alluogi'r plentyn i ddeall ei orffennol. Esbonnir hyn yn fanylach yn adran 9.2 o'r adroddiad hwn.

8.26 Roedd cofnod Castell-nedd Port Talbot dyddiedig 24 Gorffennaf yn crybwyll gwaharddiad diweddar o'r ysgol oherwydd ymddygiad trafferthus yn y dosbarth, ond nid oedd yn rhoi unrhyw fanylion pellach. Tynnodd sylw hefyd at y ffaith bod ei dad heb fynychu cyfarfodydd cyswllt a drefnwyd gyda Jacob.

8.27 Mae cofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 29 Awst yn dweud wrthym fod Matthew bellach yn cynorthwyo Jacob o ran cyfarfod â'i fam. Roedd tad Matthew wedi bod mewn cysylltiad ag ef ond roedd hynny'n iawn oherwydd oedran Matthew. Parhaodd y gweithiwr cymdeithasol i sicrhau bod anghenion Matthew yn cael eu diwallu.

8.28 Roedd rhagor o broblemau ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr gydag ymddygiad Jacob. Cafodd ei wahardd o'r ysgol am ddiwrnod ym mis Tachwedd am regi ar athro, a rhoddwyd ystyriaeth i'w wahardd ar 5 Rhagfyr am achosi difrod i ddrws. Oherwydd bod angen i Jacob sefyll arholiadau ni wnaeth yr ysgol ei wahardd, ond cafodd ei gadw dan oruchwyliaeth glos fel ei fod yn gallu cwblhau ei arholiadau. Ar 10 Rhagfyr, galwyd y gofalwyr maeth i gasglu Jacob o'r ysgol gan ei fod o dan ddylanwad sylweddau, a'r gred oedd mai canabis ydoedd. Cafodd Jacob ei wahardd wedyn am naw diwrnod yn ôl cofnodion yr ysgol.

8.29 Ar 19 Rhagfyr, cododd problem pan aeth Jacob i mewn i ystafell wely'r gofalwr i hôl ffôn symudol yr aethpwyd ag ef oddi wrtho, i negeseua gyda ffrindiau. Er bod Jacob wedi ymddiheuro, nid oedd y gofalwyr yn hapus ond fe wnaeth y gweithiwr cymdeithasol gyfryngu rhwng y ddau barti ac unioni'r mater.

### 2019

8.30 Ym mis Ionawr, cafodd Jacob gyswllt dan oruchwyliaeth gyda'i dad.

8.31 Ym mis Chwefror, cafodd Jacob ei wahardd o'r ysgol ar ddau achlysur; y tro cyntaf am ddefnyddio canabis ac ymddangos i fod dan ddylanwad sylweddau, a'r ail am fepio yn yr ysgol. Darparwyd cymorth gan Wasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ar y ddau achlysur.

8.32 Ar 13 Mawrth, cofnododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe asesiad iechyd plentyn sy'n derbyn gofal gyda Jacob. Roedd ei anghenion iechyd yn cael eu diwallu, roedd yn teimlo'n dda yn emosiynol, a disgrifiodd ei berthynas â'i ofalwyr fel un dda. Gwrthododd unrhyw gefnogaeth arbenigol ynglŷn â'i ddefnydd o ganabis, gan ddweud wrth ymarferwyr ei fod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r cyffur.

8.33 Ar 19 Mawrth, derbyniodd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot alwad gan ofalwr maeth Matthew yn mynegi pryder fod Matthew yn defnyddio canabis a bod ei raddau ar gyfer ei waith coleg yn dirywio.

8.34 Yn dilyn gwybodaeth gan aelod o staff yn ysgol Jacob, daeth swyddogion Heddlu De Cymru a chanfod bag o bowdr gwyn ym mag Jacob a'i arestio am feddu ar gyffuriau; trosedd cyfaddefodd Jacob iddi. Ni chyflwynwyd hysbysiad diogelu'r cyhoedd (PPN), oherwydd bod ffurflen adferol ieuenctid wedi'i rhannu â'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (rhan o Wasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot), ac roeddid wedi gofyn i Heddlu De Cymru beidio â chyflwyno hysbysiadau diogelu'r cyhoedd lle roedd yn glir bod yr asiantaeth berthnasol eisoes yn gysylltiedig.

8.35 Dim ond i gwblhau arholiadau y caniatawyd i Jacob fynychu'r ysgol ond cafodd ei wahardd o'r ysgol eto ar 30 Ebrill am gamddefnyddio canabis. Y tro hwn, cafodd Jacob waharddiad sefydlog 18 diwrnod, hyd at ddechrau ei arholiadau TGAU gan atal y posibilrwydd o waharddiad parhaol cyn i'w arholiadau ddechrau. Roedd gofalwyr maeth Jacob yn bryderus iawn am feddiant a defnydd Jacob o gyffuriau a reolir gan fod ganddynt blant ifanc yn yr eiddo. Darparwyd cymorth ychwanegol gan Wasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot i'r gofalwyr, ac, ar ffurf tiwtor, i Jacob.

8.36 Ym mis Mehefin, dyrannodd tîm Ieuenctid a Chyfiawnder Castell-nedd Port Talbot achos camddefnyddio cyffuriau Jacob i weithiwr cymdeithasol, er mwyn llunio'r adroddiad perthnasol, a threfnwyd ymweliad cartref yn unol ag arferion gwaith. Gwnaed hyn ar 3 Gorffennaf, ac roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar faterion gan gynnwys camddefnyddio cyffuriau a chysylltiadau â chyfoedion. Roedd yn asesu mai isel oedd y risg o drais, meddu

ar arfau neu achosi niwed difrifol. Roedd yn asesu mai canolig oedd y risg o ail-droseddu a diogelwch a llesiant.

8.37 Ar 11 Gorffennaf, ymddangosodd Jacob gerbron Biwro Ieuenctid Castell-nedd, a benderfynodd y byddai canlyniad di-droseddol yn briodol mewn perthynas â throseddau cyffuriau Jacob. Roedd hyn yn cynnwys sesiwn ymwybyddiaeth o gyffuriau a roddwyd yn syth ar ôl iddo ymddangos gerbron y biwro. Mae'r cofnodion yn dangos bod Jacob yn ymwybodol iawn o ganlyniadau defnyddio cyffuriau a throseddu yn barhaus, yn enwedig ar ôl iddo droi'n 18 oed. Ymddengys i'r mater hwn gael ei drin mewn modd priodol a chymesur. Cafodd Jacob ei gefnogi trwy gydol y cyfan gan weithiwr cymdeithasol.

8.38 Nododd cofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot fod Matthew wedi cyflawni graddau digon da ar gyfer cwrs sylfaen 4 blynedd mewn peirianneg awyrofod pan gafodd ei ganlyniadau ym mis Awst. Ar 4 Medi, sicrhaodd le ym Mhrifysgol Abertawe ar gyfer y cwrs hwn.

8.39 Ar 10 Medi, cofrestrodd Jacob yn y coleg i astudio cwrs cerbydau modur, ond ychydig ddyddiau'n ddiweddarach trosglwyddodd i gwrs peirianneg yng Ngholeg Castell-nedd. Fel person ifanc mewn gofal, cafodd Jacob gefnogaeth am yr wythnos gyntaf gan swyddog llesiant yn y coleg, ond gwrthododd unrhyw gefnogaeth wedi hynny.

8.40 Ym mis Hydref, cododd gofalwyr Jacob bryderon ei fod yn isel ei ysbryd. Aethpwyd â Jacob at y meddyg, a roddodd feddyginiaeth i'w helpu i gysgu, argymell ei fod yn mynychu 'Mind Neath'[14] am gymorth, a'i gyfeirio at rai gwefannau hunangymorth.

8.41 Trafodwyd hyn yn yr adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal ar gyfer Jacob y diwrnod canlynol, a gwiriodd y gweithiwr cymdeithasol fod atgyfeiriad CAMHS[15] wedi'i wneud a gwneud atgyfeiriad at y cwnselydd yn y coleg. Cadarnhaodd cofnodion Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer 14 Hydref fod atgyfeiriad CAMHS wedi'i wneud, a dylai'r gofalwr fynd gyda Jacob i apwyntiadau yn y dyfodol gan y gallai fod yn rhy bryderus i gofio'r wybodaeth oedd yn cael ei rhoi iddo. Os oedd y gofalwr

[14]Mae Mind Neath yn darparu cyngor a chymorth i bobl â salwch meddwl.
[15] Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed.

yn deall beth oedd yn cael ei ddweud, gallai gefnogi dealltwriaeth Jacob.

8.42 Ar 16 Hydref, siaradodd y meddyg teulu â Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot, gan gadarnhau ei phryderon am iechyd meddwl Jacob a'i bod wedi ei atgyfeirio at CAMHS. Roedd ei phryderon yn cynnwys y ffaith bod Jacob wedi cyfaddef meddwl am hunan-niweidio.

8.43 Ar 18 Hydref, cafodd Jacob ei dderbyn i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Treforys, ar ôl hunan-niweidio trwy ddefnyddio rasel i dorri ei frest a'i fotwm bol. Cofnododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fod Jacob wedi ceisio hunan-niweidio sawl gwaith yn ddiweddar. Roedd yn teimlo'n isel, nid oedd llawer o chwant bwyd arno, nid oedd yn cysgu'n dda, ac roedd yn anhapus â'i ffrindiau. Y farn oedd fod Jacob o bosibl am wneud niwed i'w ffrindiau. Cafodd Jacob ei gyfeirio at Ward F[16] am asesiad seiciatrig, ac ar ôl hynny, cafodd ei ryddhau yn ôl i'w leoliad. Arhosodd gweithiwr cymdeithasol Jacob gydag ef tra oedd yn derbyn gofal yn yr ysbyty. Roedd cofnod Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot yn nodi y cytunwyd ar gynllun diogelwch, a bod cyngor a chymorth wedi'u cynnig i'r gofalwyr. Nid oedd unrhyw sôn am hyn yng nghofnodion Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

8.44 Roedd cofnodion Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar gyfer 25 Hydref yn dweud bod asesiad wyneb yn wyneb gan CAMHS, asesiad rhan 1 ac asesiadau Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru (WARRN)[17], wedi'u cwblhau. Roedd y meddyg teulu wedi gwneud atgyfeiriad yn dilyn ymgais gan Jacob i gymryd ei fywyd ei hun. Roedd ei ofalwr a gweithiwr cymdeithasol gyda Jacob yn ei apwyntiad CAMHS.

8.45 Ar 8 Tachwedd, mynychodd Jacob apwyntiad CAMHS lle cafodd ei gofnodi nad oedd mor isel ei ysbryd ac nad oedd bellach yn meddwl am hunan-niweidio na dod â'i fywyd i ben. Cafodd ei atgyfeirio at seiciatrydd.

[16]Cyfleuster iechyd meddwl cleifion mewnol yn Ysbyty Treforys yw Ward F.
[17] Mae Rhwydwaith Ymchwil Risg Gymhwysol Cymru (WARRN) yn dechneg seiliedig ar fformiwleiddio ar gyfer asesu a rheoli risg ddifrifol (e.e. trais tuag at eraill, hunanladdiad, ac ati) i ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl.

8.46 Ar 20 Tachwedd, gwelwyd Jacob gan seiciatrydd (Powys); roedd ei hwyliau llawer yn well ac roedd yn fwy gobeithiol, gan siarad yn bositif am y dyfodol a dweud nad oedd yn meddwl am hunan-niweidio o gwbwl. Penderfynodd yr ymgynghorydd nad oedd angen apwyntiadau pellach gyda'r seiciatrydd, ond byddai Jacob yn cael ei gyfeirio at CAMHS er mwyn gallu monitro ei hwyliau, a gellid cynnig gwasanaeth seicoaddysg[18] i reoli iselder ysbryd a meddwl am hunan-niweidio.

8.47 Ar 22 Tachwedd, nododd adroddiad plentyn sy'n derbyn gofal Coleg Castell-nedd Port Talbot fod Jacob yn gwneud cynnydd da. Nid oedd unrhyw sôn am broblemau o ran iselder neu hunan-niweidio.

8.48 Ar ddechrau Rhagfyr, mynegodd gofalwyr Jacob bryderon gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot mewn perthynas â chymorth ychwanegol i reoli meddyliau Jacob am hunan-niweidio neu hunanladdiad. Trefnwyd ymweliad cartref gyda Jacob a'i ofalwyr. Siaradodd Jacob am ei dad yn mynd yn ôl i'r carchar a'i berthynas â'i gariad yn dod i ben. Gwnaeth hefyd honiadau yn erbyn ei ofalwyr blaenorol.

8.49 Ar 6 Rhagfyr, roedd aelod o'r cyhoedd wedi rhoi gwybod am ddigwyddiad i Heddlu De Cymru lle gofynnwyd iddo am arian ac yna ymosodwyd arno gan berson ifanc o'r enw Jacob. Roedd dioddefwr yr ymosodiad hwn yn adnabod Jacob ac nid oedd am i unrhyw gamau ffurfiol gael eu cymryd ynghylch y peth. Cafodd Jacob ei gyfweld a dweud mai'r dyn arall oedd wedi ymosod arno ef, ond nid oedd am wneud unrhyw honiadau yn ei erbyn. Ni chymerwyd unrhyw gamau ffurfiol ond diweddarwyd gweithiwr cymdeithasol Jacob. Ni chyflwynodd y swyddog hysbysiad diogelu'r cyhoedd, oherwydd y teimlad oedd bod hynny'n ddiangen gan fod gweithiwr cymdeithasol Jacob eisoes wedi cael gwybod. Nodwyd hefyd bod ymgyrch wedi bod i leihau nifer yr hysbysiadau diogelu'r cyhoedd a gyflwynwyd gan swyddogion heddlu rheng flaen lle roedd yn glir bod yr asiantaeth arall eisoes yn gysylltiedig neu wedi cael gwybod am y materion dan sylw.

8.50 Cynhaliodd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ymweliad statudol i weld Jacob ar 9 Rhagfyr. Dywedodd

[18]Mae seicoaddysg yn cynnwys dysgu am iechyd meddwl a llesiant a deall hynny.

Jacob wrthynt fod y cwrs yn mynd yn dda, bod ei bresenoldeb wedi gwella, a'i fod yn bwyta ac yn cysgu'n well. Cyfaddefodd ei fod yn dal i ddefnyddio canabis a'i fod wedi bod yn ymladd gyda dyn hŷn yn ddiweddar. Dywedodd hefyd ei fod yn gweld bod apwyntiadau CAMHS o gymorth.

### 2020

8.51 Rhoddodd gofalwyr Jacob wybod i Wasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ym mis Ionawr eu bod yn poeni mwyfwy am ei agwedd. Roeddent hefyd yn poeni am ei effaith ar eraill oedd yn y lleoliad gyda nhw, ac yn teimlo na allent gynnig lleoliad 'pan fydda i'n barod'[19] iddo pan oedd yn troi'n 18 oed. Trafododd y gweithiwr cymdeithasol hyn gyda Jacob, a oedd yn deall y rheswm dros y penderfyniad.

8.52 Ar 27 Ionawr, mae cofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot yn dangos bod Jacob wedi dod i gysylltiad â'r heddlu yr wythnos flaenorol, er nad yw'n dweud pam. Roedd yn nodi ei fod yn anhapus ac eisiau symud lleoliad. Roedd y cofnodion yn nodi bod y wybodaeth hon wedi'i rhannu â gweithwyr proffesiynol perthnasol.

8.53 Ar 28 Ionawr, roedd cofnodion Heddlu De Cymru yn adrodd bod Jacob wedi cael ei weld mewn grŵp o bobl ifanc dan amheuaeth o ysmygu canabis. Roedd chwiliadau wedi'u cynnal, ond ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw gyffuriau. Cwblhawyd yr holl ddogfennaeth berthnasol a gwnaed y chwiliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth a pholisi'r Heddlu lleol. Y diwrnod canlynol, siaradodd Heddlu De Cymru â Jacob ynglŷn ag ymladd â dyn arall. Ar 30 Ionawr, aeth ei ofalwr gyda Jacob i un o orsafoedd Heddlu De Cymru i gael ei gyfweld am ymosodiad a ddigwyddodd ar 6 Rhagfyr 2019. Gan nad oedd yr achwynydd yn dymuno rhoi datganiad tyst a chan nad oedd unrhyw dystiolaeth arall i gefnogi erlyniad, ni chymerwyd unrhyw gamau ffurfiol gan yr heddlu.

8.54 Ar 4 Chwefror, dychwelodd Jacob adref o'r coleg gyda llygad ddu ar ôl bod yn ymladd gyda myfyriwr arall. Y diwrnod canlynol,

[19]Mae 'pan fydda i'n barod' yn galluogi pobl ifanc mewn gofal maeth i barhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth pan fyddant yn troi'n 18 oed. Mae'n caniatáu iddynt aros mewn amgylchedd teuluol sefydlog a meithringar hyd at 21 oed.

cyfarfu ei weithiwr cymdeithasol ag ef i gynnal cyfarfod tarfu. Cofnododd y gweithiwr cymdeithasol fod Jacob yn parhau i gamddefnyddio canabis, nad oedd ganddo'r cymhelliant i fynychu'r coleg, ei fod yn ymladd gyda'i gyfoedion, a'i fod yn meddwl am hunan-niweidio a hunanladdiad. Roedd y cofnodion yn nodi bod opsiynau o ran cic-focsio a'r Llynges wedi'u trafod, ynghyd ag atgyfeiriad at CAMHS.

8.55 Roedd cofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot yn dangos bod Jacob wedi bod yn cael mwy o gyswllt â'i fam, a bod angen asesu'r cyswllt hwn ar gyfer cyswllt heb oruchwyliaeth oherwydd oedran Jacob (17 oed). Nodwyd bod oedi wedi bod o ran hyn oherwydd covid, ond roedd Jacob a'i fam eisiau bwrw ymlaen â chyswllt dros nos yng nghyfeiriad y fam.

8.56 Ar 13 Chwefror, cafodd Jacob ei wahardd o'r coleg am ymladd a rhoddodd ei ofalwyr wybod eu bod am i'w leoliad ddod i ben.

8.57 Ar 17 a 20 Chwefror, roedd Cynghorydd Person Ifanc[20] Jacob wedi cefnogi ei ymwneud â phrosiectau Bulldogs[21] a Down to Earth[22].

8.58 Ar 24 Chwefror, roedd Jacob mewn ffrwgwd gyda myfyriwr arall, ac roedd aelod o staff wedi gweld hynny. Cafodd waharddiad am bythefnos.

8.59 Ar 25 Chwefror, cyfarfu Jacob â CAHMS ar gyfer cyfarfod adolygu misol. Roedd mewn hwyliau da ac nid oedd yn meddwl am hunan-niweidio. Byddai'n cael ei adolygu ymhen 4 wythnos.

8.60 Ar 27 Chwefror, adroddwyd gan y gofalwyr fod Jacob yn ysmygu canabis ac yn cymryd cyffuriau eraill. Dau ddiwrnod yn ddiweddarach, adroddwyd ganddynt eu bod wedi dod o hyd i feddyginiaeth arall yn ystafell Jacob. Mynnont bod Jacob yn cael ei symud i leoliad arall ar unwaith.

---

[20]Mae'r Cynghorydd Person Ifanc yn gweithio'n agos gyda pherson ifanc, ei ofalwyr, ac amryw asiantaethau i gefnogi'r person ifanc wrth droi'n oedolyn.
[21]Bulldogs-Prosiect llesiant sy'n cefnogi pobl ifanc 7-18 oed yng Nghastell-nedd Port Talbot.
[22]Down to Earth-Prosiect cymdeithasol sy'n helpu pobl i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau trwy weithgareddau awyr agored ystyrlon.

8.61 Ar 2 Mawrth symudodd Jacob i leoliad arall. Roedd yn amlwg yn anhapus iawn bod ei ofalwyr blaenorol wedi rhoi gwybod ei fod yn defnyddio cyffuriau, a dywedodd wrth ei weithiwr cymdeithasol nad oedd ei ddefnydd o ganabis yn broblem. Roedd wedi'i gofnodi hefyd ei fod wedi dechrau ei seicotherapi.

8.62 Ar 23 Mawrth, dechreuodd y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf oherwydd pandemig covid. Er bod gofalwr newydd Jacob wedi adrodd bod Jacob yn hapusach, nodir bod ei seicotherapydd yn sâl. Roedd Jacob wedi dychwelyd i'r coleg ac yn mynychu holl sesiynau prosiect Down to Earth. Cynhaliwyd asesiad iechyd statudol Jacob dros y ffôn. Cofnododd y nyrs plentyn sy'n derbyn gofal fod Jacob yn well ei hwyliau ac nad oedd yn meddwl am hunan-niweidio, er ei fod yn dal i golli ei dymer trwy rwystredigaeth. Roedd yn gwadu defnyddio sylweddau ers dechrau yn y lleoliad newydd. Dywedodd wrth y nyrs plentyn sy'n derbyn gofal ei fod wedi derbyn cefnogaeth gan yr asiantaeth cyffuriau ac alcohol o'r blaen, ond ni roddodd wybod pa un. (Nid yw'r adolygiad wedi gallu canfod pa un, gan nad oes cofnod o gyswllt â Jacob gan Ganolfan Gweithredu ar Ddibyniaeth a Chaethiwed Cymru (WCADA) na Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (DDAS).) Roedd y nyrs hefyd wedi siarad â CAMHS y tu allan i'r ardal, a oedd wedi dweud wrth y nyrs fod gweithiwr CAMHS arall wedi'i neilltuo i Jacob ond bod oedi o ran yr apwyntiadau oherwydd y pandemig. Roedd y nyrs wedi siarad â gofalwr Jacob, a oedd yn hunanynysu oherwydd ei fod yn y categori risg uchel o ran covid.

8.63 Yn ystod Ebrill, cadwyd y cysylltiad rhwng Jacob a'i ofalwr dros y ffôn. Roedd Jacob fel pe bai'n ymdopi'n dda â chyfyngiadau'r pandemig. Roedd cofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot yn dangos bod y cynnig i Jacob allu aros gyda'i fam dros nos wedi'i gymeradwyo. Roedd gwiriad PNC[23] wedi cael ei gynnal, ac nid oedd unrhyw bryderon gan fod ei fam wedi 'trawsnewid ei bywyd' ac nid oedd yn camddefnyddio cyffuriau mwyach.

8.64 Ar 1 Mai, cadarnhaodd Jacob fod ei liniadur wedi cyrraedd, i'w alluogi i wneud ei waith coleg gartref.

[23]PNC - Cyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu.

8.65 Ar 5 Mai, siaradodd CAMHS â Jacob dros y ffôn. Dywedodd ei fod yn teimlo'n dda yn feddyliol a chafodd ei ryddhau o'r gwasanaeth, er iddo gael gwybod y gallai hunan-gyfeirio nôl i CAMHS os oedd angen.

8.66 Drwy gydol mis Mai, cafwyd adroddiadau gwahanol am Jacob a'i waith coleg, gydag adroddiadau o'r coleg yn dweud yn gyntaf nad oedd Jacob yn cymryd rhan yn y dosbarthiadau ar-lein, ac yna, ar 20 Mai, fod Jacob wedi penderfynu tynnu'n ôl o'r cwrs coleg. Roedd Jacob wedi cysylltu â'i weithiwr cymdeithasol ac ymgynghorydd gyrfaoedd gyda'r bwriad o ymuno â'r fyddin.

8.67 Rhoddwyd gwybod hefyd i Wasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ym mis Mai nad oedd Matthew yn ymdopi'n dda â 'chyfnod clo' covid, ac er ei fod wedi bod yn aros yng nghyfeiriad ei fam, roedd bellach nôl yn neuadd breswyl y brifysgol.

8.68 Ym Mehefin, newidiwyd cyfyngiadau'r pandemig o 'aros gartref' i 'aros yn lleol'. Symudodd Matthew nôl at ei ddarparwyr 'pan fydda i'n barod'; roedd ei fam yn gweld pethau'n anodd o ran ei hiechyd meddwl. Parhaodd â'i gwrs prifysgol ac roedd ei Gynghorydd Person Ifanc yn ei gefnogi.

8.69 Ar 22 Mehefin, rhoddodd gofalwr Jacob wybod i Wasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot 'ei fod yn bleser cael Jacob yn y tŷ', ond yn hwyrach yr un diwrnod, cysylltodd y gofalwr â Heddlu Dyfed-Powys i ddweud bod Jacob ac eraill wedi bygwth niweidio trydydd parti drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys ymosod ar y person a'i roi '6 troedfedd dan ddaear'. Gan nad oedd y dioddefwr posibl yn y mater hwn eisiau i Heddlu Dyfed-Powys gymryd unrhyw gamau ffurfiol, rhoddwyd gair o gyngor i Jacob gan yr heddlu.

8.70 Ar 6 Gorffennaf, codwyd cyfyngiadau covid ledled Cymru.

8.71 Ar 8 Gorffennaf, symudodd Jacob i lety â chymorth. Dywedodd ei fod yn teimlo'n dda yn emosiynol, a thrwy gydol mis Gorffennaf cafodd ei gefnogi gan ei weithiwr cymorth Llamau a'i weithiwr cymdeithasol. Roedd i weld yn ymdopi'n dda, gan ddarparu adborth cadarnhaol i'w weithiwr cymdeithasol.

8.72 Daeth cofnod yr adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal ar gyfer y cyfarfod ar 3 Awst i'r casgliad bod iechyd meddwl Jacob yn well nag oedd wedi bod, a byddai CAMHS yn cadw mewn cysylltiad â Jacob am 6 wythnos arall. Mynychodd mam Jacob y cyfarfod adolygu, a dywedwyd bod y cyswllt dros nos wedi mynd yn dda.

8.73 Ar 19 Awst, roedd disgwyl i Jacob fod mewn cyfarfod adolygu 6 wythnos ond nid oedd yno. Trefnwyd cyfarfod newydd trwy negeseuon testun ar gyfer 25 Awst, ac aeth hwnnw yn ei flaen yn ôl y bwriad. Yn anffodus, nid oedd Jacob a'i weithiwr cymorth wedi gallu cwblhau ei gynllun cymorth gan fod Jacob yn brysur gyda rhywbeth arall yn y coleg. Cytunwyd y byddai Jacob a'i weithiwr cymorth yn siarad y diwrnod canlynol dros y ffôn, ond pan geisiodd y gweithiwr cymorth ei ffonio, ni atebodd Jacob. Nododd y gweithiwr cymorth y byddai'n ceisio cysylltu â Jacob eto yr wythnos ganlynol.

8.74 Siaradodd y gweithiwr cymorth â Jacob dros y ffôn ar 3 Medi ac yna cwrdd ag ef ar 9 Medi. Roedd yn ymddangos bod Jacob mewn hwyliau da. Dywedodd wrth y gweithiwr cymorth ei fod yn edrych ymlaen at ddechrau'r cwrs coleg newydd roedd wedi cofrestru arno. Siaradodd hefyd am gael swydd ran-amser, arbed arian a chael gwersi gyrru.

8.75 Ar 17 Medi, rhoddodd y darparwr llety â chymorth wybod i Wasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot fod y coleg wedi ei ffonio i ddweud nad oedd Jacob wedi bod yn mynychu ei gwrs yn rheolaidd, a'i fod dan ddylanwad sylweddau pan oedd yno. Aeth y darparwr llety â chymorth ati i drafod atgyfeiriad at WCADA.

8.76 Anfonodd y gweithiwr cymorth neges at Jacob ar 21 Medi i gadarnhau bod ei lwfans wedi cael ei dalu iddo. Fe wnaeth hefyd ddweud wrth Jacob ei fod wedi gofyn i'w weithiwr cymdeithasol holi am gymorth ariannol i brynu dillad newydd ar gyfer coleg. Nid oes cofnod o ateb.

8.77 Ar 28 Medi, gosodwyd y cyfyngiadau covid lleol eto, gan gyfyngu ar symudiadau.

8.78 Ar 30 Medi, gwnaed nifer o ymdrechion i gysylltu â Jacob gan y gweithiwr cymorth ond yn aflwyddiannus. Cysylltodd y gweithiwr cymorth â Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot

ar 2 Hydref i fynegi pryderon bod Jacob yn defnyddio cyffuriau, ei fod yn isel ei ysbryd, a'i fod wedi bygwth achosi difrod i eiddo gofalwr blaenorol.

8.79 Ar 7 Hydref, cafodd Jacob sgwrs ffôn gyda'i weithiwr cymorth gan ddweud ei fod yn setlo'n dda yn ei lety ac yn mwynhau'r coleg. Hefyd cawsant sgwrs am ei fudd-daliadau.

8.80 Roedd presenoldeb cryf yn y cyfarfod adolygu 6 wythnos, a gynhaliwyd drwy MS Teams ar 14 Hydref, a rhoddwyd adborth cadarnhaol ynglŷn â chynnydd Jacob. Nodwyd bod Jacob wedi cyfaddef defnyddio canabis yn rheolaidd ac wedi gwrthod cymorth gan WCADA.

8.81 Cafodd cyfarfod yr adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal ei gynnal ar 28 Hydref; roedd presenoldeb da yno, a rhoddwyd sylw i'r un wybodaeth â'r cyfarfod adolygu ar 14 Hydref. Nid oedd pryderon am iechyd meddwl Jacob, ac roedd Jacob yn mynychu ei gwrs. Roedd yr adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal nesaf i'w gynnal ar 23 Ebrill 2021. Rhannwyd gwybodaeth gyda'r asiantaethau priodol.

8.82 Ar 2 Tachwedd, rhoddodd y gweithiwr cymorth wybod i Wasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot a'r Cynghorydd Person Ifanc nad oedd Jacob wedi dychwelyd adref nos Sadwrn. Roedd wedi gwrthod gwneud pan siaradwyd ag ef ar y ffôn, ac yn swnio dan ddylanwad sylweddau. Nodwyd mai hwn oedd y tro cyntaf i hyn ddigwydd. Yn hwyrach yr un diwrnod, cysylltodd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot â mam Jacob, a gadarnhaodd fod Jacob yn aros yno ac mai ei ddymuniad oedd bod hynny'n parhau.

8.83 Cyfarfu'r gweithiwr cymorth â Jacob ar 4 Tachwedd ar gyfer sesiwn gymorth. Dywedodd Jacob ei fod eisiau lleihau ei ddefnydd o ganabis, ac fe'i cyfeiriwyd at y cwnselydd yn y coleg.

8.84 Ar 5 Tachwedd, trodd Jacob yn 18 oed. Cafodd ymweliad gan ei weithiwr cymdeithasol a ddywedodd ei fod mewn hwyliau da. Gwrthododd ymgysylltu â WCADA. Gan nad oedd Jacob bellach yn cymhwyso fel plentyn sy'n derbyn gofal, caeodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ei ffeil plentyn sy'n derbyn gofal ar 9 Tachwedd.

8.85 Ar 19 Tachwedd, siaradodd y gweithiwr cymorth â Jacob dros y ffôn. Cyfaddefodd Jacob ei fod wedi defnyddio gwahanol gyffuriau ychydig ddyddiau ynghynt, ond nid oedd wedi defnyddio sylweddau anghyfreithlon ers hynny. Soniodd am symptomau tebyg i baranoia. Cyfaddefodd hefyd hunan-niweidio drwy doriadau arwynebol i'w freichiau. Dywedodd wrth y gweithiwr cymorth ei fod yn bwriadu mynd at ei fam am y penwythnos. Dywedodd y gweithiwr cymorth wrth y Cynghorydd Person Ifanc a'r darparwr llety â chymorth. Cytunodd y Cynghorydd Person Ifanc i gefnogi Jacob o ran mynd i'w feddygfa. Wedi hynny, atgyfeiriodd y meddyg teulu Jacob i'r gwasanaethau iechyd meddwl.

8.86 Ar 24 Tachwedd, cyfarfu Jacob â'i weithiwr cymorth yn y lleoliad llety â chymorth. Esboniodd Jacob ei fod yn teimlo bod ymweld â'i fam dros y penwythnos wedi ei helpu. Roedd Jacob yn teimlo ei fod yn dioddef o salwch meddwl a byddai'n siarad â'r cwnselydd yn y coleg ar ôl gweld rhywun o'r tîm iechyd meddwl.

8.87 Aeth Jacob i'r adran achosion brys yn Ysbyty Treforys ar 28 Tachwedd, a dweud nad oedd yn teimlo'n dda. Cofnodwyd yng nghofnodion yr ysbyty fod Jacob wedi bod yn defnyddio cyffuriau, ei fod ar bigau'r drain ac yn brin ei anadl, a'i fod eisiau help. Er ei fod wedi meddwl am hunan-niweidio o'r blaen, dywedodd nad oedd ganddo feddyliau o'r fath ar y pryd. Cafodd ei ryddhau gyda thaflen gyngor a manylion cyswllt ar gyfer y tîm alcohol a chyffuriau.

8.88 Ar 30 Tachwedd, roedd Jacob wedi dychwelyd i'r llety â chymorth o dan ddylanwad sylweddau yn ôl pob golwg. Wedyn aeth i deimlo'n sâl iawn, gan ddweud ei fod wedi cymryd tua 4g o amffetamin a rhywfaint o ketamine gan ei fod eisiau gorddosio. Cafodd Jacob ei gludo i'r ysbyty mewn ambiwlans. Pan gafodd ei ryddhau, cafodd Jacob ei godi gan ei dad ac ni ddychwelodd i gyfeiriad y llety â chymorth. Bu ymdrechion gan y gweithiwr cymorth i gysylltu â Jacob dros y ffôn yn aflwyddiannus. Dim ond pan ddywedodd y gweithiwr cymorth y byddai'n rhaid iddi adrodd bod Jacob yn berson oedd ar goll y cysylltodd Jacob â hi trwy ffôn ei fam. Dywedodd Jacob ei fod wedi gadael ei ffôn yn nhŷ ffrind, a dyna pham nad oedd y gweithiwr cymorth wedi gallu

cysylltu ag ef. Dywedodd mai ei fwriad oedd aros yng nghyfeiriad ei fam am y tro.

8.89 Cysylltodd y gweithiwr cymorth â Jacob ar ffôn ei fam eto ar 2 Rhagfyr. Dywedodd Jacob mai ei fwriad oedd dychwelyd i'w leoliad llety y noson honno. Cysylltodd y gweithiwr cymorth â'r feddygfa i ddilyn hynt ei asesiad iechyd meddwl, a chysylltodd y Cynghorydd Person Ifanc â'r coleg i esbonio pam roedd Jacob yn absennol. Nodwyd mai'r cyngor gan ddirprwy reolwr tîm Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot oedd rhoi cynllun diogelwch ar waith, ond nid oedd yn ymddangos bod hyn wedi digwydd. Roedd hefyd yn werth nodi bod y tîm dyletswydd brys (EDT)[24] wedi'i friffio ar broblemau Jacob.

8.90 Ar 7 Rhagfyr, siaradodd y gweithiwr cymorth â Jacob. Roedd agwedd Jacob yn ymddangos yn gadarnhaol, a thrafodwyd pobl i gysylltu â nhw os oedd angen. Oherwydd y cyfyngiadau covid a hunan-ynysu yn y llety, cytunodd Jacob a'r gweithiwr cymorth i gadw mewn cysylltiad dros y ffôn a thrwy negeseuon testun. Roedd Jacob yn dal i aros am ei asesiad iechyd meddwl.

8.91 Cynhaliwyd y cyfarfod adolygu 6 wythnos ar 9 Rhagfyr. Y prif bryderon oedd yr oedi o ran yr asesiad iechyd meddwl, a'r angen i gefnogi Jacob i leihau ei gamddefnydd o sylweddau.

8.92 Cyfarfu'r gweithiwr cymorth â Jacob ar 15 Tachwedd. Roedd y nodiadau yn cofnodi bod Jacob yn gadarnhaol, yn ymarfer corff yn rheolaidd, ac yn chwantu bwyd eto. Trafodwyd ei gynlluniau ar gyfer y Nadolig, sef aros gyda'i fam yn bennaf.  Y diwrnod canlynol, gosodwyd cyfyngiadau covid ar lefel uwch ledled Cymru.

8.93 Ar 17 Rhagfyr, cofnododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fod atgyfeiriad i'r gwasanaeth seicosis ymyrraeth gynnar (EIP)[25] wedi cael ei gynnig i Jacob, ond nad oedd am ymwneud â'r tîm.

8.94 Cafodd y gweithiwr cymorth sgwrs â Jacob dros y ffôn ar 21 Rhagfyr, ac roedd yn bositif iawn bryd hynny. Ceisiodd gysylltu ag ef eto ar 31 Rhagfyr ond ni chafodd ateb.

---

[24] EDT---Gwasanaeth gofal cymdeithasol y tu allan i'r oriau arferol.

[25] Gwasanaeth iechyd meddwl cymunedol amlddisgyblaethol yw EIP, sy'ndarparu triniaeth a chefnogaeth i bobl sydd â seicosis neu y mae risg uchel byddant yn ei gael.

## 2021

8.95 Cysylltodd y gweithiwr cymorth â Jacob dros y ffôn ar 6 Ionawr a threfnu cwrdd ag ef ar 11 Ionawr. Yn anffodus, roedd y gweithiwr cymorth yn hunan-ynysu ar yr adeg honno felly aildrefnodd y cyfarfod ar gyfer 18 Ionawr. Yn ystod yr alwad, dywedodd Jacob wrth y gweithiwr cymorth ei fod wedi derbyn llythyr gan y tîm iechyd meddwl cymunedol (CMHT). Roedd y tîm wedi ceisio ei ffonio ond roedd heb ateb ei ffôn. Dywedodd y byddai'n cysylltu â nhw i drefnu apwyntiad.

8.96 Ar 8 Chwefror, cafodd Jacob sgwrs dros y ffôn gyda'r gweithiwr cymorth. Roedd fel pe bai mewn hwyliau da. Dywedodd ei fod yn cael cyswllt rheolaidd â'i deulu a'i fod yn defnyddio llai o ganabis. Trefnodd y gweithiwr cymorth gwrdd â Jacob y diwrnod canlynol i'w helpu gyda materion bancio ac i ddilyn hynt llythyr CMHT.

8.97 Ar 11 Chwefror, cysylltodd darparwr llety â chymorth Jacob â'r gweithiwr cymorth drwy e-bost, i fynegi pryderon am iechyd meddwl Jacob a'i gamddefnydd o gyffuriau. Rhannwyd y wybodaeth gyda'r gweithiwr cymdeithasol a'r Cynghorydd Person Ifanc.

8.98 Ar 18 Chwefror, cafodd Jacob gefnogaeth y gweithiwr cymorth i fynychu apwyntiad gyda'r tîm iechyd meddwl oedolion. Roedd Jacob yn bositif iawn am y cyfarfod. Roedd cofnodion Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn nodi i Jacob gael ei dderbyn ar gyfer cyfnod o asesu gan y gwasanaeth EIP.

8.99 Ar 23 Chwefror, cofnododd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot gyfarfod goruchwylio gyda'r gofalwyr maeth cyntaf. Fe ddywedon nhw fod Matthew wedi bod yn eu ffonio bob wythnos ac wedi bod yn aros yng nghyfeiriad ei fam.

8.100 Ar 24 Chwefror, ceisiodd y gweithiwr cymorth wneud cyswllt â Jacob dros y ffôn ond ni chafodd ateb.

8.101 Ar 27 Chwefror, cafodd Heddlu De Cymru adroddiad am ymosodiad gan bedwar o bobl ifanc, a Jacob oedd un ohonynt. Cafodd ei arestio, ond gwrthododd y sawl a anafwyd wneud cwyn ffurfiol neu gynorthwyo'r ymchwiliad felly ni chymerwyd unrhyw gamau pellach yn erbyn Jacob na'r rhai eraill.

8.102 Ar 2 Mawrth, cynhaliwyd y cyfarfod adolygu 6 wythnosol ar MS Teams, ond ni fynychodd Jacob gan ei fod allan gyda ffrindiau. Bu'r cyfarfod yn trafod cynnydd Jacob a'r ffaith ei fod yn bwriadu cymryd y sesiynau therapi oedd yn cael eu cynnig gan y tîm iechyd meddwl. Roedd pryderon o hyd am ei ddefnydd o gyffuriau. Nodwyd bod Jacob yn aros yn rheolaidd yng nghyfeiriad ei fam ar y penwythnosau. Cyfarfu'r gweithiwr cymorth â Jacob y diwrnod canlynol i drafod ei gynllun cymorth. Ni adroddwyd unrhyw broblemau ac aeth y cyfarfod yn dda.

8.103 Dywedodd Heddlu De Cymru fod gwybodaeth wedi'i chyflwyno iddynt ar 10 Mawrth, a enwai Jacob yn un o dri gwryw oedd yn cario arfau ymosodol. Crëwyd marcwyr rhybuddio ar y system Niche[26] yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r Heddlu. Rhannwyd y wybodaeth yn briodol â Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot.

8.104 Ar 12 Mawrth, newidiodd polisi cenedlaethol Cymru ar gyfyngiadau covid i 'aros yn lleol'.

8.105 Cofnododd goruchwyliaeth achos Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ar 16 Mawrth nad oedd cymaint o bryder ynghylch iechyd meddwl Jacob, ond nad oedd yn ymgysylltu â'r Cynghorydd Person Ifanc, a bod pryder o hyd ei fod yn dal i gamddefnyddio sylweddau. Nodwyd bod yr adolygiad llety â chymorth wedi mynd yn dda.

8.106 Ar 17 Mawrth, cyfarfu'r gweithiwr cymorth â Jacob, a soniodd fod ei fam yn mynd i gael tŷ ond nad oedd ganddo unrhyw fwriad i symud i mewn gyda hi. Roedd hefyd yn gadarnhaol am ei gyfarfod tîm iechyd meddwl nesaf.

8.107 Cafodd cyfarfod yr adolygiad llwybr ei gynnal ar 23 Mawrth, ac roedd presenoldeb da yno, gan gynnwys Jacob. Dywedodd Jacob ei fod eisiau gwneud cwyn ffurfiol am ofalwyr maeth blaenorol, a bod y Cynghorydd Person Ifanc wedi cytuno i'w helpu i ddelio â'r gwaith papur. Soniodd Jacob am gymryd rhan mewn sesiynau therapi ar gyfer trawma drwy'r tîm iechyd meddwl; roedd yn credu byddent yn helpu. Adroddodd Jacob hefyd ei fod yn meddwl am hunanladdiad o bryd i'w gilydd a'i fod wedi bod yn defnyddio canabis, ond roedd yn honni ei fod yn

---

[26]System rheoli cofnodion yr heddlu yw Niche.

defnyddio llai erbyn hyn. Aeth Jacob ymlaen i ddweud bod ganddo berthynas dda â'i fam erbyn hyn a'i fod yn ymweld â hi a'i frodyr a'i chwiorydd yn rheolaidd. Crybwyllodd ei berthynas dda â'i frawd oedd yn byw yn Abertawe (Matthew).

8.108 Trafododd y gweithiwr cymorth y cynllun diogelwch â Jacob dros y ffôn ar 25 Mawrth. Gan fod Jacob fel pe bai wedi cynhyrfu ac yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'i feddyliau, y cyngor roddwyd iddo oedd i gysylltu â'i feddyg teulu. Yr un diwrnod, cofnododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe nad oedd Jacob wedi mynychu ei apwyntiad iechyd meddwl oedolion, ond bod apwyntiad dilynol wedi'i wneud.

8.109 Ar 7 Ebrill, cynhaliwyd cyfarfod strategaeth rhwng Heddlu De Cymru a Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ynglŷn â honiadau Jacob ynghylch ei ofalwyr maeth blaenorol. Yn unol â pholisi ac arfer gorau, trefnwyd cyfarfod strategaeth honiadau proffesiynol (PASM).

8.110 Ar 14 Ebrill, cyfarfu'r gweithiwr cymorth â Jacob a siaradodd yn gadarnhaol am ei berthynas â'i fam a'i frodyr a'i chwiorydd. Dywedodd hefyd ei fod yn teimlo bod y sesiynau therapi yn ei helpu.

8.111 Rhwng 14 ac 16 Ebrill, cynhaliwyd PASM a chymerwyd camau i wneud cynnydd o ran yr honiadau wnaed gan Jacob ynghylch ei ofalwyr maeth blaenorol. Trefnwyd adolygiad PASM ar gyfer 16 Mehefin.

8.112 Ar 19 Ebrill, llaciwyd cyfyngiadau covid felly roedd rhagor o bobl yn gallu cwrdd tu allan.

8.113 Ar 20 Ebrill, aeth Jacob i adran damweiniau ac achosion brys ysbyty Treforys ar ôl cymryd yr hyn a ddisgrifiwyd gan gofnodion Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, fel gorddos bwriadol. Cafodd ei dderbyn i'r ysbyty lle arhosodd tan 22 Ebrill pan gafodd ei ryddhau. Cafodd ei gyfeirio yn ôl at y gwasanaeth EIP. Cefnogwyd Jacob gan ei weithiwr cymorth a Chynghorydd Person Ifanc (roedd ei Gynghorydd Person Ifanc arferol ar wyliau). Dywedodd Jacob wrth y gwasanaethau nad ei fwriad oedd dod â'i fywyd i ben, ond yn hytrach rhoi stop ar y meddyliau drwg roedd yn eu cael.

8.114 Ar 26 Ebrill, siaradodd y gweithiwr cymorth â Jacob dros y ffôn. Roedd Jacob yn aros yng nghyfeiriad ei fam a dywedodd ei fod yn teimlo'n iawn. Fe wnaethant siarad eto dros y ffôn ar 28 Ebrill, gan gytuno i gwrdd wyneb yn wyneb ar 5 Mai.

8.115 Ar 29 Ebrill, cynhaliwyd cyfarfod adolygu llwybr lle ystyriodd Matthew ymuno â'i frawd o ran gwneud honiadau yn erbyn y gofalwyr maeth blaenorol. Cafodd Matthew gefnogaeth Cynghorydd Person Ifanc i wneud ei gŵyn i Heddlu De Cymru.

8.116 Ar 4 Mai cafodd y cyfarfod adolygu 6 wythnosol ei gynnal drwy MS Teams. Nid oedd problemau â sgiliau annibyniaeth Jacob ac roedd yn hoffi ei leoliad. Roedd Jacob wedi bod yn aros yng nghyfeiriad ei fam am wythnos ar y tro ac yn mwynhau treulio amser gyda'i fam a'i frawd. Dywedodd Jacob ei fod hefyd yn gweld bod y sesiynau therapi o gymorth.

8.117 Cyfarfu'r gweithiwr cymorth â Jacob ar 5 Mai i drafod ei gynllun cymorth a'r camau oedd wedi deillio o'r cyfarfod adolygu 6 wythnos. Dywedodd Jacob wrth y gweithiwr cymorth nad oedd yn siŵr a oedd y sesiynau therapi yn ei helpu mewn gwirionedd, gan mai ef oedd yn gwneud y rhan fwyaf o'r siarad, ond byddai'n dal ati.

8.118 Ar 12 Mai, aeth y gweithiwr cymorth i gyfarfod oedd wedi'i drefnu gyda Jacob yn y llety â chymorth, ond nid oedd Jacob i mewn ac ni atebodd ei ffôn. Cadarnhaodd y darparwr llety â chymorth fod Jacob yn dal i brynu canabis.

8.119 Ar 14 Mai, nid oedd Jacob yn ei apwyntiad iechyd meddwl oedolion.

8.120 Ar 17 Mai, roedd Jacob i fod i fynd i'r prosiect Bulldog gyda'i Gynghorydd Person Ifanc. Ni aeth Jacob, ac ni ymatebodd i alwadau ffôn a negeseuon testun ei weithiwr cymorth. Fe wnaeth Jacob gysylltu â'r gweithiwr cymorth y diwrnod canlynol i gadarnhau ei fod yn iawn. Yna fe wnaethant gyfarfod ar 26 Mai ar gyfer yr hyn a ddisgrifiodd y gweithiwr cymorth fel sesiwn gymorth gadarnhaol iawn. Cadarnhaodd Jacob ei fod yn dal i ymgysylltu â'r tîm iechyd meddwl a bod perthnasoedd teuluol yn dda.

8.121 Ar 2 Mehefin, nid oedd Jacob yno pan aeth ei weithiwr cymorth i'w lety â chymorth. Cadarnhaodd y darparwr llety â chymorth fod Jacob yn aros yng nghyfeiriad ei fam, ac nad oedd wedi ymateb i alwadau ffôn na negeseuon testun. Llwyddodd y gweithiwr cymorth i siarad â Jacob y diwrnod canlynol a threfnodd i gwrdd ag ef ar 9 Mehefin.

8.122 Ar 15 Mehefin, anfonodd Jacob ymddiheuriadau am beidio â gallu mynychu'r cyfarfod adolygu 6 wythnos. Ni chafodd y cyfarfod ei gynnal gan nad oedd y Cynghorydd Person Ifanc a'r darparwr llety â chymorth yn bresennol.

8.123 Siaradodd y gweithiwr cymorth â Jacob dros y ffôn ar 17 Mehefin. Roedd Jacob yn gadarnhaol iawn am sesiwn gerddoriaeth roedd wedi bod iddi y diwrnod cynt, ac am y ffaith ei fod yn bwriadu aros gyda'i fam am ychydig ddyddiau.

8.124 Ar 23 Mehefin, mae cofnodion Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn dangos bod Jacob unwaith eto heb fynychu ei apwyntiad iechyd meddwl.

8.125 Ar 1 Gorffennaf, hysbyswyd Jacob na fyddai Heddlu De Cymru yn mynd ymlaen â'r gŵyn yn erbyn y gofalwyr maeth blaenorol. Roedd y penderfyniad i beidio â chymryd camau pellach yn seiliedig ar y ffaith ei fod yn gyfystyr â honiad o ymosodiad cyffredin a'r tu allan i'r terfynau amser statudol ar gyfer erlyn, felly roedd y penderfyniad yn cyd-fynd â deddfwriaeth a pholisi. Roedd y mater hefyd wedi bod yn destun PASM ym mis Ebrill 2021.

8.126 Ar 2 Gorffennaf, adroddodd Cynghorydd Person Ifanc Matthew honiadau Matthew ynghylch niwed corfforol ac emosiynol gan ofalwyr maeth blaenorol i Heddlu De Cymru.

8.127 Ar 8 Gorffennaf, yn dilyn ymweliad cartref, cafodd Jacob ei ryddhau gan y tîm iechyd meddwl oedolion. Nid yw'r rheswm am hyn wedi'i gofnodi ar y dogfennau a ddarparwyd i'r adolygiad.

8.128 Ar 19 Gorffennaf, siaradodd y Cynghorydd Person Ifanc â Jacob dros y ffôn. Dywedodd Jacob ei fod yn dal i gyfarfod â CAMHS a'i fod wedi gwrthod meddyginiaeth pan gafodd ei chynnig iddo. Nodwyd bod Jacob yn dweud ei fod yn mynychu cyfarfodydd iechyd meddwl, eto i gyd roedd cofnodion Bwrdd Iechyd

Prifysgol Bae Abertawe yn awgrymu nad oedd yn eu mynychu ar y cyfan.

8.129 Ar 20 Gorffennaf, yn yr adolygiad llwybr, dywedodd Jacob ei fod wedi bod yn aros gyda'i fam ac yn ymladd gyda'i frawd Matthew, gan roi llygad ddu i Matthew. Ychwanegodd Jacob fod popeth yn iawn nawr.

8.130 Ar 22 Gorffennaf, cynhaliwyd PASM i drafod yr honiadau pellach a wnaed gan Jacob a Matthew am y gofalwyr maeth blaenorol. Penderfynwyd na fyddai ymchwiliad gan Heddlu De Cymru, ond dylid cyflwyno'r honiadau i'r gofalwyr maeth i roi cyfle iddynt ymateb. Roedd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar y ffaith mai honiad o ymosodiad cyffredin ydoedd. O'r herwydd roedd yn destun cyfnod cyfyngol statudol, a oedd eisoes wedi dod i ben. Cytunwyd ar PASM pellach ar gyfer 23 Medi.

8.131 Siaradodd rheolwr tîm Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot â Jacob dros y ffôn ar 9 Awst i gadarnhau na fyddai Heddlu De Cymru yn bwrw ymlaen â'r honiadau yn erbyn y gofalwyr maeth blaenorol, ond bod y gwasanaethau cymdeithasol yn dal i ymchwilio i'r mater. Cadarnhaodd Jacob ei fod dal yn aros yng nghyfeiriad ei fam a bod ei frawd, Matthew, hefyd yn aros yno.

8.132 Ar 24 Awst, gwnaed cofnod gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fod Jacob wedi ei ryddhau o EIP gan fod cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol yn teimlo nad oedd yn dioddef o salwch seicotig parhaus. Rhoddwyd llythyr rhyddhau i Jacob a nodai ei hawl i ailatgyfeirio o dan ran 3 o'r Mesur Iechyd Meddwl (MIM Cymru 2010). Atgyfeiriwyd Jacob i'r gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol (LPMHSS). Yn anffodus, ni ymatebodd Jacob i sawl ymgais gan LPMHSS i gysylltu ag ef.

8.133 Ar 9 Medi, cyfarfu'r gweithiwr cymorth â Jacob. Roedd y nodiadau'n cofnodi bod Jacob yn teimlo'n iawn ac wedi cytuno i ymateb i negeseuon. Gofynnodd i'r gweithiwr cymorth siarad â'r Cynghorydd Person Ifanc i weld a allai helpu i ariannu prynu beic iddo.

8.134 Ar 13 Medi, anfonodd y gweithiwr cymorth neges destun at Jacob yn dweud byddai'r gweithiwr cymorth i ffwrdd o'r gwaith achos covid.

8.135 Ar 18 Medi, cafodd Jacob ei adnabod gan y gofalwr maeth blaenorol fel un oedd yn gyfrifol am achosi difrod yn eu cartref. Adroddwyd hyn i Heddlu De Cymru a wnaeth gyfweld Jacob wedyn dan rybuddiad. Cyfaddefodd Jacob y drosedd, ac i ddechrau ceisiwyd datrysiad y tu allan i'r llys. Ni chydymffurfiodd Jacob â hyn felly cafodd ei alw gerbron Llys Ynadon Abertawe lle llediodd yn euog i drosedd o ddifrod troseddol.

8.136 Ar 27 Medi, cysylltwyd â Heddlu De Cymru ynghylch honiadau Matthew a Jacob yn erbyn y gofalwyr maeth blaenorol. Cymerwyd datganiad wedyn gan Matthew ar 15 Rhagfyr, ond oherwydd bod apwyntiadau wedi'u canslo, ni chafwyd datganiad gan Jacob tan fis Mawrth 2022. Barnwyd bod yr honiad o ymosodiad y tu hwnt i'r terfyn amser statudol ar gyfer gwneud erlyniad, a phenderfynwyd mai disgyblaeth lem oedd yr honiadau eraill ac mai gwell fyddai i'r gwasanaethau cymdeithasol ymdrin â nhw. Gan fod y terfyn amser statudol ar gyfer ymosodiad wedi mynd heibio, a chan nad oedd unrhyw dystiolaeth arall i gefnogi erlyniad am drosedd arall, ni chymerwyd unrhyw gamau ffurfiol eraill gan yr heddlu.

8.137 Ym mis Hydref a dechrau mis Tachwedd, darparwyd cymorth i Jacob, Matthew, a'r gofalwyr maeth blaenorol y gwnaed yr honiadau yn eu herbyn.

8.138 Cofnodwyd gan Wasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ar 19 Tachwedd fod Matthew yn parhau â'i gyswllt â'i fam a'i fod wedi gofyn am gymorth mewn perthynas â'i ddefnydd o ganabis a chyllidebu.

8.139 Ar 9 Rhagfyr, siaradodd y gweithiwr cymorth â Jacob dros y ffôn i drefnu cyfarfod drannoeth. Roedd Jacob yng nghartref ei fam ac ni fyddai'n gallu cwrdd â'r gweithiwr cymorth.

8.140 Ar 16 Rhagfyr, roedd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot wedi trefnu mynd â Jacob i un o orsafoedd Heddlu De Cymru i wneud ei ddatganiad ynglŷn â'r honiadau yn erbyn ei ofalwyr maeth blaenorol, ond ni atebodd Jacob y drws.

8.141 Llwyddodd gweithiwr cymorth Jacob i siarad â Jacob dros y ffôn ar 20 Rhagfyr. Dywedodd wrth y gweithiwr cymorth ei fod yn aros yng nghyfeiriad ei fam, ei fod wedi bod yn gwneud rhywfaint o waith gyda'i dad, a'i fod yn mwynhau'r gwaith. Dywedodd fod ei

iechyd meddwl yn dda, ac nad oedd bellach yn ymwneud â gwasanaethau cymorth gan ei fod yn teimlo y gallai gael gwell trefn ar bethau ei hun. Cyfaddefodd ei fod yn ysmygu canabis pan oedd yng nghyfeiriad ei fam.

### 2022

8.142 Ar 11 Ionawr, siaradodd y gweithiwr cymorth a'r darparwr llety â chymorth dros y ffôn am y ffaith fod Jacob heb ddychwelyd i'r lleoliad oherwydd covid, a'i fod yn aros yng nghyfeiriad ei fam. Roedd trafodaeth hefyd am Jacob yn gwneud sylwadau amhriodol i un o staff benywaidd y llety â chymorth (am siâp ei chorff), a sut dylid ymdrin â hynny.

8.143 Ar 24 Ionawr, siaradodd y gweithiwr cymorth â Jacob dros y ffôn. Roedd Jacob yn hapus bod y materion ynglŷn â'r siarad amhriodol a phryderon am fwyd wedi'u hunioni.

8.144 Nododd y cyfarfod adolygu 6 wythnos ar 2 Chwefror nad oedd unrhyw broblemau o bwys gyda'r lleoliad. Roedd Jacob wedi parhau i ymweld â'i fam a'i deulu yn rheolaidd, ond roedd cweryla'n digwydd ac nid oedd yn mwynhau'r ymweliadau fel yr arferai. Dywedodd Jacob y byddai'n cyfyngu ar yr ymweliadau nes bod pethau'n gwella. Nid oedd Jacob yn ymgysylltu â'r gwasanaethau iechyd meddwl.

8.145 Ar 8 Chwefror, dywedwyd wrth Jacob fod yn rhaid iddo adael y lleoliad oherwydd ei ymddygiad anwadal, treisgar a sarhaus. Roedd y gweithiwr cymorth a'r Cynghorydd Person Ifanc wedi mynd i'r llety â chymorth a siarad â Jacob, a fuodd yn anghyson yn yr hyn roedd yn ei ddweud. Nid oedd rhywfaint o'r hyn roedd yn ei ddweud yn gwneud synnwyr, roedd yn siarad am rith-weledigaethau, a phroblemau gyda'i deulu a'u 'hymddygiad ffiaidd’. Mynnodd Jacob nad oedd angen help arno gyda'i iechyd meddwl. Ar ei gais ef, aed â Jacob i gyfeiriad ei fam cyn mynd i leoliad newydd yr wythnos ganlynol. Nodir bod y lleoliad arfaethedig newydd wedi gwrthod cymryd Jacob oherwydd ei ymddygiad di-ddal yn ystod y cyfarfod rhagarweiniol. Nodwyd hefyd bod cynllun diogelwch wedi'i roi ar waith gyda'i fam tra oedd yn aros yno.

8.146 Ar 9 Chwefror, roedd cofnodion y cyfarfod adolygu llwybr yn cydnabod bod Matthew yn dal i ddefnyddio canabis a bod ei

iechyd meddwl yn amrywio oherwydd y sefyllfa barhaus ynglŷn â'r honiadau yn erbyn y gofalwr maeth blaenorol. Roedd cymorth yn cael ei ddarparu.

8.147 Ar 10 Chwefror, ceisiodd y gweithiwr cymorth a'r Cynghorydd Person Ifanc gysylltu â Jacob dros y ffôn ond heb lwyddiant. Nodwyd yng nghofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot fod Jacob wedi penderfynu byw gyda'i fam tan 7 Ebrill 2022. Ar 14 Chwefror, nododd y cofnodion fod Jacob, Matthew a'u mam, i gyd yn camddefnyddio canabis.

8.148 Ar 24 Chwefror, cysylltodd y gweithiwr cymorth â Jacob dros y ffôn, yn dilyn cais ganddo drwy neges destun am gyngor ynghylch hawlio budd-dal tra oedd yn byw gyda'i fam.

8.149 Ar 28 Chwefror, dyrannwyd Cynghorydd Person Ifanc newydd i Jacob gan fod yr un blaenorol wedi symud i swydd newydd.

8.150 Ar 15 Mawrth, hysbyswyd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot gan Heddlu De Cymru fod Jacob heb fynychu'r llys mewn perthynas â chyhuddiad o ddifrod troseddol a bod gwarant i'w arestio.

8.151 Ar 23 Mawrth, cysylltodd Jacob â'i Gynghorydd Person Ifanc drwy neges destun i ofyn a allai gael cwnsela eto. Edrychodd y Cynghorydd Person Ifanc ar yr opsiynau gyda MIND[27] a chyda thîm iechyd meddwl yr ysbyty.

8.152 Siaradodd y gweithiwr cymorth â Jacob dros y ffôn ar 30 Mawrth. Dywedodd Jacob ei fod yn iawn ond hoffai gael ei ystyried ar gyfer llety â chymorth yng Nghastell-nedd Port Talbot gyda Llamau. Dywedodd hefyd wrth y gweithiwr cymorth ei fod yn ystyried ail-ymgysylltu â'r gwasanaethau iechyd meddwl, a chwnselydd yn benodol. Y diwrnod canlynol, anfonodd y Cynghorydd Person Ifanc neges destun at Jacob i egluro y byddai ei feddyg teulu yn cysylltu â Jacob ynglŷn â'i iechyd meddwl.

8.153 Cysylltodd y meddyg teulu â Jacob ar 1 Ebrill. Nodai'r cofnodion meddyg teulu nad oedd seicosis amlwg, bod Jacob wedi gwadu unrhyw feddyliau am hunanladdiad neu hunan-niweidio, ond ei

[27]MIND-----sefydliad elusennol sy'n darparu cyngor a chymorth i bobl â phroblemau iechyd meddwl.

fod wedi dangos llawer mwy o densiwn a throi'n ddig ar lafar wrth ddisgrifio deinameg gamweithredol ei deulu. Rhoddodd Jacob ganiatâd i'r meddyg teulu gysylltu â'i weithiwr cymdeithasol, a chytunodd y meddyg teulu i gael cyfarfod dilynol ymhen pythefnos.

8.154 Ar 5 Ebrill, cafodd Jacob argyfwng iechyd meddwl. Cysylltodd ei feddyg teulu ag ef dros y ffôn fel yr oedd wedi gofyn, ond dywedwyd wrtho yn gyntaf gan Jacob am ei ffonio nôl gan nad oedd yn gallu siarad ar y pryd. Pan ddywedodd y meddyg teulu na allai wneud hynny, fe wnaeth Jacob gynhyrfu'n llwyr a dweud *'F*** it-sign me into a mental institute'.* Yna aeth ymlaen i fygwth lladd ei hun. Wedyn siaradodd y meddyg teulu â'r Cynghorydd Person Ifanc oedd gyda Jacob. Roedd cweryl wedi bod gydag aelodau'r teulu ac ni allai Jacob aros gyda nhw mwyach. Yn wir, nid oedd un aelod o'r teulu yn fodlon ei dderbyn. Roedd y Cynghorydd Person Ifanc yn gwneud trefniadau ar gyfer opsiynau tai brys. Cyngor y meddyg teulu i'r Cynghorydd Person Ifanc oedd mynd â Jacob i'r ysbyty.

8.155 Aseswyd Jacob gan y tîm argyfwng iechyd meddwl yn Ysbyty'r Tywysog Philip yn hwyrach y diwrnod hwnnw. Nododd cofnodion iechyd meddwl Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda fod Jacob yn disgrifio cael meddyliau gor-rywiol am ei fam, a oedd wedi arwain at gweryla ag aelodau o'r teulu. Siaradodd am iselder ysbryd a dychmygu rhoi rhaff o amgylch ei wddf. Cofnododd y tîm asesu fod ei iechyd meddwl wedi dirywio ers iddo ddychwelyd i fyw gyda'i fam. Rhagnodwyd zopiclone[28] 7.5mg a diazepam[29] 2mg i Jacob, ac fe'i rhyddhawyd o'r ysbyty gyda chynllun i'w atgyfeirio am gymorth therapi a chymorth gan Dîm Triniaeth yn y Cartref i Ddatrys Argyfwng Iechyd Meddwl Castell-nedd (CRHTT). Trefnwyd llety brys iddo yn Beaufort House[30], sydd yn ardal Castell-nedd. Rhoddwyd cynllun diogelwch ar waith ar ei gyfer a chysylltodd CRHTT â Jacob y diwrnod canlynol.

[28]Meddyginiaeth lonyddol yw zopiclone a ddefnyddir i drin pobl sy'n cael trafferth cysgu.
[29]Mae diazepam yn feddyginiaeth a ddefnyddir i drin anhwylderau gorbryder a symptomau rhoi'r gorau i alcohol. Cyfeirir at diazepam yn aml yn ôl yr enw brand, Valium.
[30]Mae Beaufort House, Castell-nedd, yn darparu tai brys i'r digartref a chefnogaeth i'r rhai sydd â salwch meddwl.

8.156 Ar 6 Ebrill, ymwelodd y tîm asesu Iechyd Meddwl â Jacob ond, gan ei fod newydd ddeffro, gadawsant lythyr iddo yn dweud byddent yn dychwelyd yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Aeth y Cynghorydd Person Ifanc â Jacob i ysbyty Castell-nedd Port Talbot ar gyfer ei asesiad.

8.157 Nid oes cofnod o ganlyniad yr asesiad hwn, er bod nodyn bod yr achos wedi'i gyfeirio at CRHTT Castell-nedd Port Talbot oherwydd bod Jacob wedi newid ei gyfeiriad.

8.158 Ar yr un diwrnod, cofnodwyd gan Heddlu De Cymru bod y penderfyniad i beidio â bwrw ymlaen â'r honiadau a wnaed gan Matthew a Jacob wedi'i rannu â'r partïon perthnasol. Cofnodwyd bod Matthew yn siomedig gyda'r canlyniad tra bo Jacob yn teimlo'n well oherwydd bod yr honiad wedi'i gofnodi'n ffurfiol. Nodwyd bod cofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 7 Ebrill yn nodi bod y gofalwyr maeth wedi ymddiswyddo ar ôl cael gwybod am yr honiadau.

8.159 Yn ystod gweddill mis Ebrill, gwnaethpwyd llawer iawn o waith gan weithiwr cymorth Jacob, y Cynghorydd Person Ifanc a Thai Castell-nedd Port Talbot ar lety Jacob. Gwnaethpwyd atgyfeiriad llety â chymorth ffurfiol ac aeth y Cynghorydd Person Ifanc gyda Jacob i gyfeiriad ei fam i gasglu dillad.

8.160 Ar 20 Ebrill, cymeradwyodd y cyfarfod strategaeth cam-drin proffesiynol y penderfyniad i gofnodi'r honiadau a wnaed gan Matthew a Jacob fel rhai oedd heb sail, gan nad oedd tystiolaeth annibynnol ar gael. Byddai'r tîm maethu yn cynnal ei asesiad risg ei hun.

8.161 Ar 26 Ebrill, hysbyswyd Jacob a'i Gynghorydd Person Ifanc fod Jacob wedi'i dderbyn ar y rhestr ar gyfer llety â chymorth. Cadarnhaodd y Cynghorydd Person Ifanc hefyd gyda Thîm Iechyd Meddwl Ysbyty Tonna fod Jacob am gael apwyntiad gyda nhw.

8.162 Ar 28 Ebrill, cafodd Jacob asesiad ar gyfer llety â chymorth gyda Chymdeithas Tai Caredig, sy'n darparu ar gyfer cleientiaid ag anghenion canolig i uchel, yn enwedig anghenion iechyd meddwl.

8.163 Ar 4 Mai, ymatebodd staff yn Beaufort House i Jacob yn gweiddi, bwrw a chicio'r drws. Dywedodd ei fod yn teimlo fel lladd pobl a'i fod wedi cael digon ar ei deulu. Llwyddodd y staff i dawelu'r sefyllfa drwy gynorthwyo Jacob, ond ymddengys na fu i'r ffaith iddo fynegi awydd i niweidio eraill gael ei huwch-gyfeirio fel y dylai.

8.164 Ar 20 Mai, aeth y Cynghorydd Person Ifanc â Jacob i Orsaf Heddlu Castell-nedd oherwydd y warant gan ei fod heb fynychu'r llys ym mis Chwefror. Cafodd Jacob ei arestio a'i gymryd gerbron y llys nesaf oedd ar gael.

8.165 Ar 5 Mehefin, cafodd Jacob ei 'stopio a'i chwilio' gan Heddlu De Cymru, a daethpwyd o hyd i ganabis yn ei feddiant. Penderfynwyd delio â hyn trwy'r broses cyfiawnder adferol.

8.166 Cafodd Jacob gyfarfod gyda'r gwasanaeth prawf ar 6 Mehefin, gyda chefnogaeth ei Gynghorydd Person Ifanc. Nodwyd ei fod yn agored iawn am ei ddefnydd o gyffuriau a'i broblemau iechyd meddwl. Er nad yw'r cofnodion yn nodi'r rheswm dros y cyfarfod, tybir ei fod yn ymwneud ag opsiynau dedfrydu ar gyfer y Llys Ynadon.

8.167 Ar 14 Mehefin, siaradwyd â Jacob gan y cynorthwyydd cymorth tai ac ailsefydlu gan ei fod yn curo ar ddrysau eraill yn gofyn am ganabis. Nid oes cofnod a roddwyd rhybudd ond dywedodd Jacob na fyddai'n gwneud hyn eto.

8.168 Ar 17 Mehefin, cafodd Jacob ei arestio am fethu ag ymddangos yn y llys am droseddau difrod troseddol ac fe'i rhoddwyd gerbron y llys. Fe wnaeth ymddwyn yn ymosodol ac yn sarhaus tuag at y swyddogion. Cafodd ei ddedfrydu i orchymyn cymunedol[31] 18 mis.

8.169 Ar 19 Mehefin, cysylltodd Jacob â'i Gynghorydd Person Ifanc pan oedd mewn trallod, ac roedd yn amlwg ei fod yn cael argyfwng iechyd meddwl. Roedd yn bygwth lladd ei hun ac eraill yn Beaufort House. Roedd cofnodion Heddlu De Cymru yn nodi bod Jacob wedi dweud wrth swyddogion pan aethant yno ei fod

[31]Mae gorchymyn cymunedol yn ddedfryd lle nad oes rhaid mynd i'r carchar ond sy'n galluogi'r llys i orchymyn i'r diffynnydd gymryd rhan mewn gweithgareddau penodol sydd â'r bwriad o'i addysgu ac i leihau'r risg o droseddu pellach. Mae'r rhai sy'n cael eu dedfrydu i orchmynion cymunedol yn destun goruchwyliaeth gan y gwasanaeth prawf am oes y gorchymyn cymunedol.

wedi bod yn clywed lleisiau yn dweud wrtho am fynd ati i ladd llawer o bobl. Gwnaed trefniadau i fynd â Jacob i Ward F yn ysbyty Castell-nedd Port Talbot er mwyn i'r tîm argyfwng ei asesu. Aeth y swyddogion â Jacob i'r ysbyty, a chyflwynodd y swyddogion ffurflen hysbysiad diogelu'r cyhoedd wedyn. Nid yw'r cofnodion yn nodi pa asiantaethau y rhannwyd hyn gyda nhw.

8.170 Dengys cofnodion Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i Jacob gael ei asesu gan CRHTT ond ni chofnodwyd unrhyw ganlyniadau. Nodwyd yn y cofnodion bod Jacob yn meddwl am hunan-niweidio ond nad oedd yn bwriadu gwneud hynny. Trafododd ei feddyliau am wneud niwed i eraill, ond roedd hyn oherwydd rhwystredigaeth gyda phobl oedd yn byw yn y llety a rennir.

8.171 Ar 20 Mehefin, aeth Jacob i Ysbyty'r Tywysog Philip gyda chwt ar ei fraich ond nid oedd am weld clinigydd. Yn hwyrach y diwrnod hwnnw, cysylltodd Jacob â'i Gynghorydd Person Ifanc i'w hysbysu ei fod bellach yn aros gyda'i dad gan nad oedd am ddychwelyd i Beaufort House.

8.172 Ar 21 Mehefin, cysylltodd Jacob â Thai Castell-nedd Port Talbot a gadael neges yn dweud na fyddai'n aros yn Beaufort House bellach ac nad oedd eisiau'r eiddo oedd wedi'i gynnig iddo yn Caredig. Nodwyd hefyd bod achos Jacob wedi ei neilltuo i ymarferydd prawf yn nhîm Prawf Abertawe.

8.173 Am 22:55 ar 21 Mehefin, cysylltodd tad Jacob â Heddlu Dyfed-Powys i roi gwybod bod ei fab, Jacob, wedi ei ryddhau o'r ysbyty ac yn bygwth lladd ei frawd, ei deulu, a llosgi eu tŷ. Cafodd Jacob ei arestio a'i gyfweld dan rybuddiad. Cwblhawyd asesiad risg Cam-drin Domestig, Stelcian a Thrais Seiliedig ar Anrhydedd (DASH). Nid oedd Matthew na'i fam yn cefnogi erlyniad felly ni chymerwyd unrhyw gamau pellach gan yr heddlu. Cysylltodd Heddlu Dyfed-Powys hefyd â thîm Argyfwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda pan oedd Jacob yn y ddalfa. Cafodd swyddogion eu cyfeirio i wasanaethau yng Nghastell-nedd Port Talbot gan fod Jacob yn byw yn Beaufort House ar y pryd.

8.174 Ar 22 Mehefin, ailddyrannodd y gwasanaeth prawf achos Jacob i ymarferydd prawf yn Sir Gaerfyrddin ac anfonwyd llythyr at Jacob yn ei wahodd i apwyntiad yn swyddfa Llanelli ar 24

Mehefin. Nodwyd mai un o'r pethau i'w gwneud oedd penderfynu a oedd unrhyw risgiau uniongyrchol.

8.175 Ar 23 Mehefin, nodwyd yng nghofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot fod Jacob wedi symud yn ôl i Beaufort House.

8.176 Ar 24 Mehefin, mynychodd Jacob gyfarfod â'r gwasanaeth prawf a chytuno ei fod yn deall gofyniad y gorchymyn. Yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, mae cofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot yn nodi bod Jacob wedi dweud wrthynt ei fod wedi bod yn ymladd gyda'i dad, a'i fod am ymladd gyda'i frawd a'i ladd. Cafodd Heddlu Dyfed-Powys eu galw ond nid oedd cofnod o ymwneud yr heddlu yn y mater. Pan gafodd ei holi gan y Cynghorydd Person Ifanc ynghylch dweud ei fod am ladd ei frawd, dywedodd Jacob nad oedd o ddifri.

8.177 Ar 28 Mehefin, ni fynychodd Jacob apwyntiad ar gyfer gofal iechyd meddwl. Roedd 4 ymgais i gysylltu ag ef yn aflwyddiannus. Rhoddwyd gwybod i'w Gynghorydd Person Ifanc.

8.178 Ddiwedd mis Mehefin, cafodd asiantaethau negeseuon gwrthgyferbyniol gan Jacob ynglŷn â'i ofynion llety. Weithiau roedd yn hapus i dderbyn cynnig gan ddarparwyr tai Caredig, bryd arall doedd e ddim. Bu i hyn barhau i fis Gorffennaf.

8.179 Ar 1 Gorffennaf, methodd Jacob â mynychu apwyntiad prawf ar gyfer gwaith di-dâl a rhoddwyd llythyr rhybudd cyntaf iddo.

6.180 Mae cofnodion Heddlu De Cymru ar gyfer 2 Gorffennaf yn cyfeirio at Heddlu Dyfed-Powys yn rhoi gwybod iddynt am y bygythiadau a wnaed gan Jacob ar 21 Mehefin. Cwblhaodd Heddlu Dyfed-Powys asesiad risg DASH, a aseswyd fel safonol ganddynt, a'i rannu gyda Heddlu De Cymru, ynghyd â manylion y bygythiadau a wnaed. Siaradodd Heddlu De Cymru â Matthew a rhoi marcwyr gwybodaeth hanfodol ar gyfeiriad Matthew ar y pryd.

8.181 Ar 7 Gorffennaf, rhoddodd Tai Castell-nedd Port Talbot lythyr ôl-ddyledion i Jacob. Ar ymweliad â'i ystafell, gwelwyd rhagor o ddifrod, y tro hwn i deilsen nenfwd a pheth plastig. Cyfaddefodd Jacob ei fod wedi'i 'cholli hi' y noson gynt ac wedi achosi'r difrod yn ei rwystredigaeth. Drannoeth, aethpwyd â Jacob i weld rhai

opsiynau tai. Er ei fod yn bositif i ddechrau, newidiodd hyn a gofynnodd iddynt fynd ag ef nôl i Beaufort House.

8.182 Ar 11 Gorffennaf, methodd Jacob â mynychu ei apwyntiad prawf ar gyfer gwaith di-dâl. Yn hytrach na llythyr torri amodau, anfonwyd llythyr rhybudd pellach at Jacob ar 14 Gorffennaf.

8.183 Ar 18 Gorffennaf, aeth ymarferydd prawf i weld Jacob. Dywedodd Jacob wrth y swyddog prawf fod ganddo berthynas dda â'i fam a'i chwaer ond nid ei dad. Dywedodd ei fod yn dioddef gyda'i iechyd meddwl a hoffai gael cwnsela. Dywedodd hefyd ei fod yn cael cyswllt rheolaidd â phlant ei chwaer, ond nid oedd unrhyw ymholiadau diogelu wedi'u gwneud.

8.184 Ar 19 Gorffennaf, cysylltodd Jacob â'r gwasanaeth ambiwlans, gan ddweud bod ei iechyd meddwl yn wael a'i fod yn meddwl am losgi Beaufort House. Pwyllodd wedyn a thynnu ei sylwadau'n ôl, gan gydnabod na fyddai hynny'n syniad da. Nid oedd eisiau asesiad iechyd meddwl.

8.185 Roedd y cofnodion prawf am yr un diwrnod yn nodi bod Jacob unwaith eto wedi methu â mynychu ei apwyntiad ar gyfer gwaith di-dâl. Derbyniwyd y rheswm dros beidio â mynychu, gan fod Jacob yn byw yn ardal Abertawe a bod yr apwyntiad yn Nyfed-Powys.

8.186 Ar 20 Gorffennaf, nododd y cofnodion tai yr hyn oedd Jacob wedi'i ddweud wrth staff, a oedd yn dangos bod ei iechyd meddwl yn gwaethygu, wrth iddo siarad yn negyddol iawn am aelodau o'i deulu gan gynnwys ei frawd. Fe wnaethant ddiweddaru'r swyddog cymorth a chysylltu â'r tîm argyfwng iechyd meddwl. Asesodd CRHTT Jacob yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw ac mae eu cofnodion yn awgrymu ei fod yn '*capacious*' ac yn deall canlyniadau'r hyn oedd wedi cael ei ddweud. Fe wnaethant hefyd wneud sylwadau ar ddealltwriaeth wael a defnydd parhaus o ganabis. Cafodd Jacob ei ryddhau i gael triniaeth barhaus gartref. Barnwyd gan Wasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot fod Jacob yn gallu cadw ei hun yn ddiogel. Nodwyd bod y gwasanaethau cymdeithasol wedi cefnogi Jacob tra oedd yn yr ysbyty.

8.187 Ar 22 Gorffennaf, mae cofnodion Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn nodi cyfarfod tîm amlddisgyblaethol yn trafod achos

Jacob. Gwnaed penderfyniad i'r therapydd galwedigaethol gysylltu ag ef. Cafodd Jacob ei weld gan yr uned adfer argyfwng (CRU) y diwrnod hwnnw, a nodwyd bod y feddyginiaeth yn helpu Jacob. Cafodd ei gyfeirio hefyd at yr LPMHSS am therapi a chytunodd bod CRHTT yn cysylltu ag ef dros y penwythnos.

8.188 Ni atebodd Jacob ei ffôn dros y penwythnos ond aeth i'w apwyntiad gyda'r seiciatrydd ar 25 Gorffennaf. Roedd Jacob yn bositif ac nid oedd gan y seiciatrydd unrhyw bryderon.

8.189 Ar 26 Gorffennaf, cafodd achos Jacob ei symud i swyddog prawf arall. Cyflwynwyd llythyr mewn perthynas ag apwyntiad gwaith di-dâl ar gyfer 4 Awst.

8.190 Ceisiodd CRHTT gysylltu â Jacob dros y ffôn yr un diwrnod ond yn aflwyddiannus.

8.191 Mynychodd Jacob ei apwyntiadau CRHTT ar 28 a 29 Gorffennaf. Aeth y ddau apwyntiad yn dda. Ar 31 Gorffennaf, ceisiodd CRHTT gysylltu â Jacob dros y ffôn ond ni atebodd yr alwad.

8.192 Y noson honno, stopiodd Heddlu Dyfed-Powys Matthew tra oedd yn gyrru ei gar. Roedd Jacob yn deithiwr yn y sedd gefn. Cafodd Matthew ei arestio ar amheuaeth o yrru dan ddylanwad cyffuriau. Cymerwyd sampl gwaed ac fe'i rhyddhawyd dan ymchwiliad. Canfuwyd ychydig o ganabis ym meddiant Jacob, ac ni chymerwyd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â hyn. Ni chafodd yr ymchwiliad mewn perthynas â Matthew ei gwblhau oherwydd ei farwolaeth ym mis Medi.

8.193 Ar 1 Awst, adroddodd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot asesiad llwybr, lle nodwyd y ffaith nad oedd Matthew a Jacob yn cyd-dynnu'n dda. Nododd y cofnod fod Matthew wedi hysbysu'r Cynghorydd Person Ifanc fod 'dadleuon ar lafar a bygythiadau o drais wedi bod rhyngddynt' a chydnabuwyd hefyd fod Jacob wedi bygwth lladd Matthew o'r blaen. Rhoddwyd cyngor i'r ddau frawd roi llonydd i'w gilydd am y tro. Roedd y cofnodion yn nodi'r ffaith nad oedd mewnbwn gan Heddlu De Cymru i'r asesiad, ac nid oedd gwahoddiad wedi'i anfon ychwaith i Heddlu De Cymru gyfrannu ato.

8.194 Yr un diwrnod, aeth staff prawf i gyfeiriad Jacob i'w gludo i'w apwyntiad prawf, ond yn anffodus nid oedd Jacob yno. Ffoniodd

y staff prawf Jacob.  Roedd yn aros yng nghyfeiriad ei fam ac ni allai fynychu'r apwyntiad. Aildrefnwyd yr apwyntiad ar gyfer 5 Awst.

8.195 Yn hwyrach yr un diwrnod, cofnododd Heddlu Dyfed-Powys ddigwyddiad domestig lle roedd Matthew a Jacob wedi bod yn dadlau, a lle roedd bygythiadau o drais wedi cael eu gwneud gan Jacob. Symudwyd Jacob i gyfeiriad arall gan swyddogion. Nid oedd unrhyw drosedd wedi'i chyflawni mewn gwirionedd, a chwblhawyd asesiad risg DASH.

8.196 Yr un diwrnod, disgrifiodd cofnodion Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe alwad ffôn i Jacob gan CRHTT pryd gwnaeth Jacob sylwadau rhyfedd, yn cynnwys bod Matthew yn cysgu gyda'i fam. Pwyllodd Jacob yn y pen draw ac ymddiheuro.  Roedd yn gwadu defnyddio sylweddau heblaw am ganabis. Cafodd apwyntiad ei wneud gyda'r uned adfer argyfwng ar gyfer 3 Awst, a chafodd ei gynghori hefyd i osgoi cyswllt â'i deulu.

8.197 Yn hwyr y nos ar yr un diwrnod, 1 Awst, hysbyswyd Heddlu De Cymru gan y gwasanaeth ambiwlans fod Jacob wedi ffonio'r gwasanaeth gan ei fod yn dioddef argyfwng iechyd meddwl ac wedi hunan-niweidio. Nid oedd unrhyw sôn amdano'n niweidio eraill. Wedi hynny, aeth swyddogion Heddlu De Cymru â Jacob i ysbyty Treforys lle, yn ôl cofnodion Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, cafodd Jacob ei drin am anafiadau hunan-niweidio a'i ryddhau. Nid oedd cofnod o gynllunio rhyddhau nac o unrhyw gynllun diogelwch ar waith. Cyflwynodd swyddogion Heddlu De Cymru hysbysiad diogelu'r cyhoedd i rannu gwybodaeth â'r gwasanaethau iechyd meddwl.

8.198 Ar 3 Awst, cynigiwyd cymorth i Jacob gan y staff yn ei lety ond gwrthododd, gan ddweud bod ganddo apwyntiadau ond nad oedd yn gallu cofio'r manylion. Methodd Jacob â mynychu ei apwyntiad y diwrnod hwnnw gyda'r uned adfer argyfwng. Cyfeiriai nodiadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe at wneud galwad ffôn i ddiweddaru'r gwasanaethau cymdeithasol.

8.199 Ar 4 Awst, methodd Jacob â mynychu ei apwyntiad gwaith di-dâl gyda'r gwasanaeth prawf ond mynychodd ei apwyntiad gyda nhw ar 5 Awst. Dywedwyd ei fod yn ymgysylltu'n dda.

Penderfynwyd trosglwyddo ei achos prawf i Abertawe a bod y swyddfa brawf honno'n cytuno ar yr ymrwymiadau gwaith di-dâl.

8.200 Cofnododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fod Therapydd Galwedigaethol wedi ymweld â Jacob ar 5 Awst, ac, yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw, gwnaeth gweithiwr cymorth alwad arall i drafod atgyfeiriadau a'r apwyntiad gyda'r uned adfer argyfwng.

8.201 Ar 8 Awst, roedd ei Gynghorydd Person Ifanc yn bresennol gyda Jacob yn ei apwyntiad tîm argyfwng i'w gefnogi. Yn ôl cofnodion meddygol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, roedd Jacob mewn hwyliau da ond fel petai dan ddylanwad sylweddau, er i Jacob wadu hynny. Fe wnaethant drafod ffyrdd y gallai Jacob wella ei iechyd meddwl. Derbyniodd Jacob hyn a dweud ei fod am gael therapi seicolegol[32]. Cafodd Jacob ei gyfeirio nôl i LPMHSS i gael therapi seicolegol a'i ryddhau.

8.202 Ar 9 Awst, cafodd Jacob gymorth gan staff tai i fynd i weld llety eraill, ond ar ôl peth amser roedd Jacob wedi colli diddordeb ac nid oedd yn gwrando ar yr hyn oedd yn cael ei ddweud. Helpodd Cynghorydd Person Ifanc Jacob i gael bwyd o fanc bwyd ac yna casglu meddyginiaeth o fferyllfa. Yr un diwrnod, anfonodd y gwasanaeth prawf lythyr at Jacob i'w hysbysu am apwyntiad gwaith di-dâl ar 16 Awst. Nodwyd bod staff prawf a gweithwyr proffesiynol eraill wedi dechrau rhoi gwybod i Gynghorydd Person Ifanc Jacob pryd oedd ei apwyntiadau, er mwyn gwella ei bresenoldeb.

8.203 Ar 11 Awst, hysbyswyd Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot drwy e-bost gan tai, fod Jacob yn anhapus â'r fflat a ddyrannwyd iddo.

8.204 Ar 16 Awst, rhoddwyd Jacob ar y rhestr aros ar gyfer LPMHSS yn dilyn yr atgyfeiriad gan CRHTT. Yr un diwrnod, cafodd Jacob ei atal rhag cael rhagor o apwyntiadau gwaith di-dâl gan y gwasanaeth prawf. Ni roddwyd rheswm dros y penderfyniad hwn.

8.205 Ar 17 Awst, dywedodd Jacob wrth staff yn Beaufort House fod lletya yno yn effeithio ar ei iechyd meddwl a'i fod eisiau gadael.

[32] Defnyddir therapïau seicolegol, y cyfeirir atynt weithiau fel therapïau siarad, i geisio gwella iechyd meddwl a llesiant y defnyddiwr, neu i newid ymddygiadau.

Gofynnodd hefyd am gyswllt â'r tîm argyfwng. Roedd y staff eisoes wedi cysylltu â'r tîm ar ei ran ond rhoddwyd y rhif ffôn iddo ef hefyd.

8.206 Ar 22 Awst, methodd Jacob â mynychu apwyntiad gwasanaeth prawf ond cysylltodd gweithiwr cymorth Jacob â'r swyddfa brawf i esbonio'r amgylchiadau, a derbyniwyd hynny. Gwnaed apwyntiad arall, ymweliad cartref, ar gyfer 24 Awst.

8.207 Ar 24 Awst, aeth yr ymarferydd prawf i lety Jacob i'w gyfarfod. Disgrifiwyd bod Jacob yn ymgysylltu a chwblhawyd asesiad gwaith di-dâl arall oherwydd trosglwyddo'r achos i ymarferydd newydd. Roedd cyfarfod pellach wedi'i drefnu ar gyfer 13 Medi.

8.208 Ar 25 Awst, ailddyrannwyd achos prawf Jacob i ymarferydd yn Abertawe.

8.209 Ar 30 Awst, ymatebodd Heddlu Dyfed-Powys i adroddiadau am rywun yn cerdded ar yr M4 tuag at y traffig. Siaradwyd â Jacob gan swyddogion Heddlu Dyfed-Powys ac aethpwyd ag ef i'r hyn a roddodd fel ei gyfeiriad cartref yn Rhydaman. Drannoeth cysylltodd Jacob â staff yn Beaufort House i ddweud ei fod yn aros yng nghyfeiriad ei fam.

8.210 Roedd cofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2 Medi yn cofnodi bod ei Gynghorydd Person Ifanc wedi ymweld â Jacob. Roedd Jacob wedi bod yn dadlau gyda Matthew, a oedd eisiau ei ddychwelyd i Beaufort House. Cynigiodd y Cynghorydd Person Ifanc gefnogi cyswllt â'r tîm argyfwng os oedd Jacob eisiau hyn. Hefyd cynigiodd y Cynghorydd Person Ifanc gofrestru Jacob gyda meddyg teulu lleol fel ei fod yn haws iddo gael mynediad at wasanaethau meddygol.

8.211 Roedd cofnodion y gwasanaethau cymdeithasol hefyd yn nodi y siaradwyd â Matthew dros y ffôn yr un diwrnod. Dywedodd ei fod yn iawn a'i fod yn edrych ymlaen at ddychwelyd i'r brifysgol.

8.212 Ar 3 Medi, nodwyd yng nghofnodion Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i Jacob gael ei adolygu gan y tîm seiciatreg cyswllt yn Ysbyty Treforys. Roedd tacsi wedi dod ag ef i'r adran achosion brys ar ôl iddo geisio crogi ei hun gyda dillad gwely. Adroddodd ei fod wedi rhoi'r gorau i gymryd ei feddyginiaeth yr wythnos

flaenorol. Barnwyd bod ganddo ddealltwriaeth wael o'i ddefnydd o gyffuriau ac effaith hynny ar ei iechyd meddwl. Nid oedd tystiolaeth o seicosis ac nid oedd meddyliau am niweidio eraill. Cafodd ei ryddhau gydag apwyntiad arall wedi'i drefnu ar gyfer 9 Medi. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gynllunio rhyddhau/diogelwch yn y cofnodion a roddwyd i'r adolygiad, nac o rannu unrhyw wybodaeth ag asiantaethau partner.

8.213 Un diwrnod ar ddechrau mis Medi, adroddodd y darparwr tai fod Jacob wedi cael noson gythryblus. Roedd wedi dweud wrth staff ei fod yn iawn nawr, ond ei fod wedi bod yn clywed lleisiau a'i fod angen mynd o Beaufort House. Roedd yn mynd i aros gyda'i fam am ychydig ddyddiau. Ni chafodd y wybodaeth ei rhannu ag asiantaethau partner.

8.214 Roedd Matthew i fod i gwrdd â'i Gynghorydd Person Ifanc y diwrnod hwnnw ond roedd wedi canslo gan ei fod yn brysur.

8.214 Yn hwyrach y diwrnod hwnnw, mynychodd swyddogion Heddlu Dyfed-Powys gyfeiriad mam Jacob a Matthew, lle cafwyd hyd i Matthew yn farw. Arestiwyd Jacob am y lladdiad.

# 9. Canfyddiadau a Dadansoddi

Roedd nifer o themâu wedi'u nodi gan yr adolygiad trwy gydol y cyswllt helaeth a gafodd Jacob, ac i raddau llai, Matthew, â'r gwasanaethau. Mae'r panel yn cydnabod bod yr adroddiad yn canolbwyntio'n sylweddol ar Jacob fel cyflawnwr y gamdriniaeth yn yr achos hwn yn hytrach na'r dioddefwr, Matthew. Nodwyd bod Matthew wedi gwneud cynnydd da yn ystod ei arddegau a'i fywyd fel oedolyn ifanc, gan gynnwys cael lle yn y brifysgol. O'r wybodaeth oedd ar gael i'r adolygiad, nid oedd angen cefnogaeth ychwanegol arno, ac nid oedd fel pe bai eisiau cefnogaeth o'r fath, gan ei fod yn datblygu'n dda heb gymorth. O'r herwydd, dim ond hyn a hyn o wybodaeth berthnasol oedd ar gael i'r adolygiad.

## 9.1 Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Roedd y ddau frawd wedi cael eu lletya am y rhan fwyaf o'u plentyndod. Ar ôl dod yn destun gorchymyn gofal dros dro ym mis Chwefror 2008, cawsant eu gwneud yn destun gorchymyn gofal llawn ym mis Tachwedd y flwyddyn honno. Roedd y

pryderon a arweiniodd at hyn yn ymwneud ag esgeulustod a chamddefnyddio sylweddau, ffordd o fyw gaotig, a pherthnasoedd amhriodol eu mam. Roedd gweithwyr proffesiynol yn credu bod cam-drin yn digwydd ym mherthynas rhieni'r brodyr, a bod y plant yn gweld y cam-drin domestig ac yn gweld oedolion yn defnyddio sylweddau anghyfreithlon yn eu presenoldeb.

Mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod[33] wedi'u disgrifio fel digwyddiadau trawmatig posibl ym mywyd plentyn a all gael effaith negyddol a pharhaol ar ei iechyd a'i lesiant yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae hyn yn cynnwys camdriniaeth a byw mewn amgylchedd sy'n niweidiol i'w ddatblygiad. Gall profiadau niweidiol yn ystod plentyndod effeithio ar yr ymennydd wrth iddo ddatblygu a'r systemau imiwnedd ac endocrin. Oherwydd lefel uchel y straen yn eu hamgylchedd, mae plant sy'n cael profiadau niweidiol yn fwy tebygol o ddatblygu ymddygiadau sy'n niweidiol i iechyd fel ysmygu, defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, alcohol neu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gall hyn wedyn roi'r unigolyn ar lwybr sy'n arwain at iechyd gwael fel oedolyn, a risg uwch o glefydau a phroblemau iechyd meddwl.

Yn achos Jacob a Matthew, roeddent mewn amgylchedd camdriniol a chaotig, gan fod yn dyst i gam-drin rhwng eu rhieni ac i gyffuriau'n cael eu cymryd, nid yn unig gan eu rhieni ond gan oedolion eraill hefyd. Roedd gweithwyr proffesiynol yn amlwg o'r farn fod yr amgylchedd yn niweidiol i'w datblygiad, gan fod cais wedi'i wneud am orchymyn gofal. Rhesymol yw dod i'r casgliad y gallai profiadau niweidiol yn ystod plentyndod fod wedi effeithio ar Jacob a Matthew, wrth iddynt fynd o'u plentyndod i'w harddegau hwyr a'u blynyddoedd cynnar fel oedolion.

O'r cofnodion oedd ar gael i'r adolygiad, roedd tystiolaeth bod hyn wedi cael ei glustnodi'n gynharach, ond prin oedd y dystiolaeth o ddull ymwybodol o drawma ar draws cwrs bywyd, yn benodol yn yr achos hwn, yn ystod llencyndod. Roedd yr

[33] O'Neil RS et al, Adverse Childhood Experiences, INTCAR, https://doi.org/10.1016/j.intcar.2021.100062

adolygiad yn cydnabod y gwaith taith bywyd a wnaed gyda Jacob, sy'n cael sylw yn adran 7.2 o'r adroddiad hwn.

## 9.2 Cymorth Cynnar-Pontio i fyd Oedolion

Roedd yr adolygiad yn edrych ar sut y cyflawnodd Gofal Cymdeithasol Plant a Gofal Cymdeithasol Oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot eu cyfrifoldebau dros Jacob a Matthew drwy'r tîm llwybr+. Rôl llwybr+ yw cefnogi plant sy'n derbyn gofal a'r sawl sy'n gadael gofal, o 16 oed hyd at 25 oed. O 16 oed, mae ymarferydd gwaith cymdeithasol yn cael ei neilltuo fel perchennog achos i'r person ifanc, ac wedyn mae'r cyfrifoldeb yn trosglwyddo i Gynghorydd Person Ifanc pan fydd yn cyrraedd 18 oed. Nodwyd yn yr adolygiad, yng Nghastell-nedd Port Talbot byddai'r Cynghorydd Person Ifanc yn cwrdd â'r person ifanc pan oedd yn 15.5 oed, fel bod cyfle cynnar i feithrin perthynas effeithiol. Ymddengys bod hyn yn arfer da.

Yn achosion Jacob a Matthew, roedd y Cynghorydd Person Ifanc wedi'i neilltuo'n gynnar ac wedi cwrdd â nhw yn gynnar. Nodwyd bod y cyfnod cymorth hwn wedi cyd-fynd â phandemig covid yn achos Jacob, a'r holl ansicrwydd a chyfyngiadau oedd ynghlwm wrth hynny. Penderfynodd uwch-reolwyr Gofal Cymdeithasol Plant Castell-nedd Port Talbot hefyd na fyddai gwasanaethau'n cael eu gwrthod yn ystod cyfnodau'r cyfyngiadau i unrhyw berson ifanc oedd mewn cyswllt â'r hyn a elwir nawr yn llwybr+. Er bod hyn yn effeithio ar lwyth gwaith staff, mae'n cael ei gydnabod fel arfer da.

Mae angen asesiadau chwe misol fel rhan o'r broses llwybr+. Yn achosion y brodyr, mae'r cofnodion Gofal Cymdeithasol Plant yn dangos y cydymffurfiwyd â hyn. Er i'r cyfarfodydd gael eu cynnal a'u cofnodi'n briodol, presenoldeb cyfyngedig oedd gan asiantaethau partner a phrin oedd y wybodaeth a ddarparwyd gan rai o'r asiantaethau oedd yn gweithio gyda Jacob, h.y. dim asesiadau iechyd meddwl nac adborth o sesiynau therapi a chwnsela. Efallai i hwn fod yn gyfle a gollwyd, gan fod achlysuron pryd gallai timau iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Heddlu De Cymru fod wedi gallu darparu gwybodaeth berthnasol.

Nododd y panel y barnwyd, unwaith oedd Matthew a Jacob yn oedolion yn gyfreithiol, fod galluedd gan y ddau, ac yn absenoldeb unrhyw bryderon diogelu penodol, y brodyr oedd yn pennu pa asiantaethau oedd yn rhan o'u hasesiadau llwybr+ a'u cyfarfodydd llwybr+ dilynol. Ar ôl troi'n 18 oed, mae'n iawn mai'r oedolyn ddylai lywio'i gynllun llwybr+ ond, yn achos Jacob, gallai hyn fod wedi cuddio anghenion gofal a chymorth, ac, o bosibl, materion diogelu. A allai fod angen mwy o synergedd rhwng y tîm llwybr+ a'r ymateb sy'n cael ei ysgogi'n amlach ar draws gofal cymdeithasol oedolion ar gyfer y rheiny ag anghenion gofal a chymorth? Nododd yr adolygiad fod Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot ar hyn o bryd yn adolygu ei ymateb i bobl ifanc yn eu llencyndod, gan gynnwys diogelu trosiannol.

Mae gwaith hanes bywyd yn golygu adrodd hanes bywyd plentyn i alluogi'r plentyn i ddeall ei orffennol. Dylai'r holl blant sy'n derbyn gofal gael cyfle i gyfrannu at gofnod hanes bywyd sy'n ddisgrifiad realistig a gonest o'u hamgylchiadau, eu teulu, eu hunaniaeth a dealltwriaeth briodol i'r oedran o'u taith i ofal a thrwy ofal. Gellir dechrau'r gwaith hwn o oedran ifanc, mewn ffordd sy'n briodol i oedran, gan ystyried lefel datblygiad emosiynol. Y gweithiwr cymdeithasol a ddyrannwyd i'r plentyn fyddai'n gyfrifol yn gyffredinol am gydlynu gwaith hanes bywyd.

Yn achos Jacob, gwnaed y cais cychwynnol am ddechrau gwaith hanes bywyd gan y tîm plant sy'n derbyn gofal ym mis Rhagfyr 2014 pan oedd Jacob yn 12 oed. Ni ddechreuwyd ar y gwaith hwn nes Gorffennaf 2018, ychydig cyn i Jacob droi'n 16 oed. Mae'r gweithiwr cymdeithasol a arweiniodd ar y gwaith hwn wedi gadael yr awdurdod ac nid oedd llawer o wybodaeth yn y cofnodion am achos yr oedi hwn. Hefyd prin oedd y wybodaeth yn y cofnodion am y trafodaethau fu yn ystod y gwaith hwn a sut oedd eraill yn rhan o'r broses, gan gynnwys addysg, gofalwyr maeth ac aelodau o'r teulu. Nododd yr adolygiad fod yr asesiad llwybr ar gyfer Jacob, a gafodd ei gwblhau ar 22 Awst 2020, yn cofnodi bod '*ymwybyddiaeth gan Jacob o hanes ei fywyd gan fod gwaith hanes bywyd wedi'i gwblhau gydag ef ac mae ganddo lyfr hanes bywyd.*' (Cyfieithiad)

Dechreuodd cwmpas yr adolygiad ar ôl i Matthew adael yr ysgol ond mae'n amlwg bod ymddygiad a pherfformiad Jacob yn yr

ysgol wedi dirywio yn 2017. Roedd hyn yn cyd-daro â defnydd ymddangosiadol Jacob o sylweddau anghyfreithlon, alcohol, a'r adeg pan ddaeth ei leoliad maeth hirdymor i ben.

Rhoddodd y panel ystyriaeth i effaith bosibl dull cosbol y gofalwyr maeth bryd hynny mewn ymateb i ddefnydd Jacob o alcohol a sylweddau anghyfreithlon. Gallai'r adwaith i ddefnydd cynnar Jacob o alcohol a'i gamddefnydd o sylweddau awgrymu anoddefgarwch o ymddygiad o'r fath yn hytrach na mabwysiadu dull mwy cefnogol ac ymwybodol o drawma. Gallai hyn ddangos barn gan y gofalwyr maeth sydd wedi'i ffurfio trwy brofiadau bywyd am y rhai sy'n camddefnyddio sylweddau/alcohol. Efallai fod angen sicrhau bod y cefndir a'r profiadau y mae gofalwyr maeth yn dod â nhw i'r rôl yn cael eu hystyried mewn sesiynau goruchwylio gyda'r tîm maethu, gan roi hyfforddiant i ofalwyr maeth o ran darparu ymateb ymwybodol o drawma mewn amgylchiadau o'r fath.

Roedd yn amlwg i'r panel fod cefnogaeth sylweddol i Jacob yn ystod y cyfnod hwn gan Gofal Cymdeithasol Plant Castell-nedd Port Talbot. Roedd hyn yn cynnwys ymweliadau cartref, gwyliau seibiant byr ac atgyfeiriad atal i Gyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot. Penodwyd gweithiwr achos Cyfiawnder Ieuenctid, cynhaliwyd ymarfer sgrinio byr a chytunwyd ar gynllun ymyrraeth gyda Jacob a'r gofalwyr maeth. Nodwyd bod y sgrinio yn gyfyngedig iawn ac nad oedd y cynllun ymyrraeth wedi'i nodi'n glir. Caeodd Cyfiawnder Ieuenctid ei ffeil mewn perthynas â Jacob ym mis Gorffennaf 2017. Daliodd Gofal Cymdeithasol Plant Castell-nedd Port Talbot ati i ddarparu cymorth ychwanegol, ond parhau wnaeth y pryderon am ymddygiad Jacob ac roedd camddefnyddio sylweddau yn bryder penodol.

Er bod ymddygiad Jacob wedi parhau i waethygu, penderfynwyd ar ddiwedd 2017 i barhau â'i gyswllt dan oruchwyliaeth gyda'i fam. Ymddengys nad oedd gan Matthew unrhyw broblemau gyda'i fam, a chofnododd adolygiad plentyn sy'n derbyn gofal fwriad i archwilio'r posibilrwydd o gyswllt heb oruchwyliaeth i Jacob gyda hi. Ni wnaed unrhyw gysylltiad gan ymarferwyr rhwng camddefnydd parhaus Jacob o sylweddau a'i gyswllt â'i fam, yr oedd yn hysbys ei bod hi'n ddefnyddiwr cyffuriau

hirdymor. Rhoddir sylw pellach i hyn o dan yr is-bennawd camddefnyddio sylweddau.

Nodwyd hefyd fod Jacob wedi derbyn cefnogaeth sylweddol gan ei weithiwr cymorth Llamau, a oedd, yn ôl y cofnodion oedd ar gael, yn amlwg wedi gweithio'n agos gyda'i Gynghorydd Person Ifanc, i ddarparu ystod o gefnogaeth i Jacob. Mae'r cofnodion hefyd yn awgrymu lefel dda o rannu gwybodaeth rhwng y gweithiwr cymorth Llamau a'r Cynghorydd Person Ifanc.

Er bod cefnogaeth sylweddol i Jacob, roedd ei ymddygiad dal yn heriol yn ystod 2018-2019, fel y dengys y cofnodion. Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth gan Wasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot o sut oedd hyn yn cyferbynnu â'r cynnydd roedd Matthew yn ei wneud. Roedd fel pe bai'n ffynnu yn y brifysgol, a gellid bod wedi ystyried sut y gallai hyn greu deinameg rhwng y brodyr. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot wedi buddsoddi mewn hyfforddiant ar gyfer ymarferwyr sy'n gweithio gyda brodyr a chwiorydd i geisio cynnal perthynas iach rhwng brodyr a chwiorydd. Fodd bynnag mae'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar garfan iau o blant, ac nid yw fel pe bai'n cwmpasu anawsterau a allai godi rhwng brodyr a chwiorydd yn ystod eu llencyndod. Cydnabuwyd hefyd fod y defnydd o gronolegau yn ddefnyddiol wrth ddelio ag achosion cymhleth, ond ni chawsant eu defnyddio ar lefel unigol neu amlasiantaeth. Gall y defnydd o gronolegau arwain at sesiynau goruchwylio mwy gwybodus ac ymyriadau mwy effeithiol o bosibl. Gallai hefyd fod wedi helpu ymarferwyr i gael gwell dealltwriaeth o'r materion hyn.

## 9.3 Camddefnyddio Sylweddau

Mae'n amlwg o gofnodion yr asiantaethau oedd mewn cysylltiad â Matthew a Jacob fod y ddau frawd yn defnyddio sylweddau anghyfreithlon, sef canabis yn bennaf.  Er bod llai o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi yn ymwneud â Matthew a'r camddefnydd o sylweddau, mae'n thema gyffredin o ran Jacob o'i flynyddoedd olaf yn yr ysgol, trwy ei ddyddiau coleg a hyd at farwolaeth Matthew ym mis Medi 2022.  Beth sy'n llai clir yw'r camau a gymerwyd i geisio mynd i'r afael â'r camddefnydd o sylweddau gan Jacob.

Mae cysylltiad cryf rhwng defnyddio canabis yn rheolaidd, yn enwedig canabis cryf, a'r risg o ddatblygu seicosis. Daeth ymchwil i'r defnydd o ganabis a chysylltiadau achosol â datblygiad seicosis[34] i'r casgliad, ar sail gwybodaeth o 11 safle ledled Ewrop, fod pobl a ddefnyddiai canabis bob dydd deirgwaith yn fwy tebygol o gael diagnosis o seicosis am y tro cyntaf. Roedd y gymhareb hon yn cynyddu i bum gwaith yn fwy tebygol mewn achosion lle roedd canabis cryf yn cael ei ddefnyddio.

Cofnodwyd bod Jacob yn camddefnyddio sylweddau yn yr ysgol ac yna yn y coleg. Fel y trafodwyd yn flaenorol, roedd y gofalwyr maeth yn gosbol iawn eu hymagwedd at gamddefnydd ymddangosiadol Jacob o gyffuriau anghyfreithlon, ac, ar adegau, alcohol, yn hytrach na meddu ar ymagwedd sy'n fwy ymwybodol o drawma. Achosodd hyn i'r lleoliad droi'n fwy heriol ac i'r berthynas â'r gofalwyr maeth chwalu.

Mae'r cofnodion yn dangos yn glir bod gwybodaeth am Jacob, ac, ar adegau, Matthew, wedi cael ei rhannu â gweithwyr proffesiynol. Ym mis Mawrth 2019, cofnododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe asesiad iechyd plentyn sy'n derbyn gofal gyda Jacob, lle gwadodd ei fod yn defnyddio canabis mwyach a gwrthod cael ei atgyfeirio at wasanaethau cymorth arbenigol. Yn fuan ar ôl hyn, cafodd Jacob ei arestio am fod ym meddiant cyffuriau yn yr ysgol. Er nad oes gan Gofal Cymdeithasol Plant Castell-nedd Port Talbot gofnod o dderbyn adroddiad Heddlu De Cymru, atgyfeiriwyd Jacob at dîm Cyfiawnder Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot, a gynhaliodd asesiad risg gyda Jacob. Aseswyd mai isel oedd y risg y byddai'n achosi niwed difrifol i eraill, ond bod risg ganolig y byddai'n aildroseddu. Ymddangosodd gerbron Biwro Ieuenctid Castell-nedd ym mis Gorffennaf y flwyddyn honno, nid oedd canlyniad cyfiawnder troseddol ond mynychodd Jacob sesiwn unwaith yn unig ynghylch ymwybyddiaeth o gyffuriau. Nid oedd cofnod o unrhyw gamau pellach o ran hyn.

[34] **'The contribution of cannabis use to variation in the incidence of psychotic disorder across Europe (EU-GEI; a multicentre case-control study**' by Di Forti et al, the Lancet Psychiatry, DOI:10.1016/S2215-0366(19)30048-3

Trwy gydol misoedd cynnar 2020, cafwyd gwybodaeth sylweddol am ddefnydd Jacob o gyffuriau, sef canabis yn bennaf, ond mewn asesiad iechyd plentyn sy'n derbyn gofal a gynhaliwyd dros y ffôn oherwydd cyfyngiadau covid, gwadodd Jacob ei fod yn defnyddio sylweddau anghyfreithlon. Parhaodd hyn trwy gydol y flwyddyn, ac yn y pen draw cyfaddefodd Jacob ei fod yn defnyddio canabis yn rheolaidd, ond unwaith eto gwrthododd atgyfeiriad i gael cymorth gan WCADA. Ar 5 Tachwedd y flwyddyn honno, nodwyd yng nghofnodion Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe fod Jacob unwaith eto wedi gwrthod atgyfeiriad WCADA i gael cymorth yn ystod ei asesiad iechyd plentyn sy'n derbyn gofal olaf. Gan fod Jacob wedi troi'n 18 oed, nid oedd bellach yn cymhwyso fel plentyn sy'n derbyn gofal felly caewyd ei ffeil plentyn sy'n derbyn gofal.

Yn ddiweddarach y mis hwnnw, ar ôl cael ei dderbyn i adran damweiniau ac achosion brys yr ysbyty yn teimlo'n sâl, roedd cofnodion yr ysbyty yn awgrymu bod Jacob wedi bod yn camddefnyddio cyffuriau. Cafodd ei ryddhau gyda thaflen oedd yn rhoi cyngor a manylion cyswllt ar gyfer WCADA. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod Jacob wedi bod mewn cysylltiad â'r gwasanaethau hyn. Nodwyd yr aed â Jacob, dau ddiwrnod yn ddiweddarach, i'r ysbyty eto ar ôl iddo fynd yn sâl yn ei lety â chymorth. Cyfaddefodd ei fod wedi cymryd amffetamin a Ketamin gan ei fod eisiau gorddosio. Pan gafodd ei ryddhau, casglwyd ef gan ei dad ac ni ddychwelodd i'r llety â chymorth. Ceisiodd y gweithiwr cymorth gysylltu â Jacob dros y ffôn heb lwyddiant a dim ond pan ddywedodd y gweithiwr cymorth y byddai'n riportio bod Jacob ar goll y cysylltodd gan ddefnyddio ffôn ei fam.

Er bod y camddefnydd o gyffuriau gan eu mam, eu tad, a chydnabod eu rhieni wedi cael ei nodi pan oedd y brodyr yn ifanc iawn, ac, yn wir, wedi bod yn rhan o'r penderfyniad a arweiniodd atynt yn dod yn destun gorchmynion gofal, nid oes digon o gydnabyddiaeth o'r risgiau cysylltiedig â chyffuriau oedd yn deillio o gyswllt y brodyr â'u mam a'u tad wrth iddynt agosáu at fod yn oedolion. Ar 14 Chwefror 2022, cyfeiriodd cofnodion Gwasanaethau Cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot at y ffaith bod Jacob, Matthew a'u mam i gyd yn camddefnyddio canabis. Er gwaethaf y risg ymddangosiadol a'r wybodaeth helaeth yn

ymwneud â'r camddefnydd o gyffuriau gan Jacob, ymddengys na fu llawer o gynllunio i fynd i'r afael â'r risg hon heblaw cynnig atgyfeiriad i wasanaethau cymorth cyffuriau, a wrthodwyd gan Jacob bob tro.

Nododd y panel nad oedd unrhyw bwerau cyfreithiol i orfodi cydweithredu â'r gwasanaethau oedd yn cael eu cynnig, ond roedd opsiynau eraill y gellid bod wedi eu harchwilio. Un ystyriaeth o bosibl oedd cynnwys WCADA yn y cyfarfodydd llwybr+, er mwyn creu dull mwy cydgysylltiedig. Gallai hyn fod wedi arwain at y cyfarfod llwybr+ yn datblygu cynllun clir i fynd i'r afael â chamddefnydd Jacob o sylweddau, felly efallai fod hwn yn gyfle a gollwyd.

## 9.4 Iechyd Meddwl

Codwyd nifer o bryderon am iechyd meddwl Jacob, a oedd fel petai wedi dirywio yn y cyfnod cyn marwolaeth Matthew, ac arweiniodd hynny, yn gywir, at atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl. Prin yw'r dystiolaeth bod yr asesiadau iechyd meddwl hynny wedi rhoi adborth i gefnogi unrhyw asesiadau risg ar y cyd neu i gynllunio lliniaru risg. Er bod y cofnodion meddygol yn awgrymu bod ymyriadau arfaethedig yn deillio o'r asesiadau iechyd meddwl, prin iawn oedd y dystiolaeth o unrhyw asesiad o ganlyniadau.

Roedd yr adolygiad yn nodi'r ffaith bod cofnodion asiantaethau unigol yn rhoi safbwyntiau croes o ymwneud Jacob â gwasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig y cyfarfodydd cwnsela a therapi. Roedd yn ymddangos bod Jacob yn dweud wrth ei Gynghorydd Person Ifanc a'i weithiwr cymorth fod yr ymyriadau yn gweithio'n dda, ond roedd y cofnodion iechyd yn dangos lefel sylweddol o 'heb fynychu' a dim neu fawr ddim asesiad o ganlyniadau'r ymyriadau hyn. Gallai hyn adlewyrchu pwysigrwydd dull mwy cydgysylltiedig a darparu adborth i gefnogi gwaith rheoli risg ar draws asiantaethau.

Mae chwilfrydedd proffesiynol yn cael ei gydnabod yn eang fel rhywbeth sy'n helpu ymarferwyr i osgoi gwneud rhagdybiaethau am ffordd o fyw pobl, y penderfyniadau maent yn eu gwneud, a'r risgiau maent yn eu peri iddyn nhw eu hunain ac i eraill. Yn achos Jacob, ymddengys bod yr asesiadau a gynhaliwyd yn

derbyn gwybodaeth gan Jacob heb fod rhyw lawer o dystiolaeth o chwilfrydedd proffesiynol dilynol i ddeall yn well y risgiau roedd Jacob yn eu peri iddo ef ei hun ac i eraill.

Tynnir sylw at enghraifft o hyn yn Awst 2022, pan gafodd Jacob ei dderbyn i'r ysbyty ar ôl cael argyfwng iechyd meddwl sylweddol ac ar ôl hunan-niweidio. Nid oedd cofnodion asesu Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cynnwys unrhyw archwiliad o natur a chynnwys y rhith-weledigaethau clywedol na'u heffaith ar risg a ffactorau amddiffynnol i leihau'r risg honno. Yn ogystal, ymwelodd Jacob â'i deulu tra'n cael ei gefnogi gan CRHTT, a allai fod wedi sbarduno'r achos o hunan-niweidio bwriadol. Er mai anafiadau ar wyneb y croen oeddent, roedd yr hyn wnaeth yn awgrymu lefel o fyrbwylltra oherwydd diffyg rheolaeth emosiynol[35], a oedd wedi bod yn bresennol yn gynharach yn y dydd pan gysylltodd staff CRHTT â Jacob dros y ffôn. Nid yw'r nodiadau'n nodi yr ymchwiliwyd i'r risg iddo ef ei hun ac i eraill ar y pryd, er gwaethaf y ffaith bod Jacob yn dangos lefelau uchel o ddicter tuag at ei deulu ynghyd â diddordeb rhywiol posibl tu hwnt i'r cyffredin a syniadaeth erlid. Prin yw'r dystiolaeth yn y nodiadau asesu bod y materion hyn wedi cael eu harchwilio mewn unrhyw ddyfnder na bod unrhyw liniaru risg wedi cael ei ystyried.

Er bod prif breswylfa Jacob yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, arhosai gydag aelodau o'i deulu'n rheolaidd, yn bennaf yng nghyfeiriad ei fam, yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Er nad yw Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cofnodi unrhyw gyswllt â Matthew, cafodd Jacob gysylltiad â meddyg teulu ar gwpl o achlysuron yn 2022 ac yna'r tîm Argyfwng pan ddioddefodd argyfwng iechyd meddwl ym mis Ebrill 2022. Arweiniodd y cyswllt â'r meddyg teulu ym mis Ebrill 2022 at atgyfeiriad prydlon at y tîm argyfwng, a welodd Jacob yn ddiweddarach yr un diwrnod. Cynhaliodd y tîm argyfwng asesiad a thrafod cynllun diogelwch gyda Jacob. Roedd hyn yn cynnwys triniaeth gartref gan CRHTT Castell-nedd Port Talbot ar ôl cael cadarnhad o gynlluniau Jacob i ddychwelyd i lety yn yr ardal honno. Er ei bod yn ymddangos bod y penderfyniadau clinigol a'r

[35]Mae diffyg rheolaeth emosiynol yn cael ei nodweddu gan anallu i reoli ac ymateb yn hyblyg i gyflyrau emosiynol, gan arwain at adweithiau emosiynol sy'n wahanol i normau cymdeithasol.

drafodaeth gyda Jacob ynglŷn â chynllun diogelwch o safon dda, nid oedd unrhyw dystiolaeth o ystyriaethau diogelu, asesiad risg na chynllunio lliniaru risg mewn perthynas â'r risg o niwed i eraill, yn enwedig ei fam.

## 9.5 Goruchwyliaeth gan y Gwasanaeth Prawf

Ar 25 Mai 2022, gofynnwyd am adroddiad cyn y ddedfryd gan Lys Ynadon Abertawe mewn perthynas â dedfrydu Jacob. Roedd y gwrandawiad wedi'i bennu ar gyfer 17 Mehefin 2022. Cwblhawyd yr adroddiad yn brydlon gyda'r ymgysylltu perthnasol, a chefnogwyd argymhellion yr adroddiad gan Jacob ei hun. Cafodd ei ddedfrydu i orchymyn gwasanaeth cymunedol 18 mis, ac felly roedd yn destun goruchwyliaeth gan y gwasanaeth prawf.

Mae'r adolygiad wedi cadarnhau bod yr holl wiriadau priodol, gan gynnwys gwiriadau cam-drin domestig, wedi'u cynnal fel rhan o'r gwaith casglu gwybodaeth i'r adroddiad cyn y ddedfryd, yn unol ag arfer da.

Ar 15 Gorffennaf 2022, paratôdd y gwasanaeth prawf gynllun dedfryd cychwynnol. Roedd hyn yn cynnwys asesiad risg o'r niwed ac o droseddu pellach, a asesodd fod Jacob, yn seiliedig ar y wybodaeth oedd ar gael, mewn risg ganolig yn y ddau gategori. Sail yr asesiad risg ganolig oedd ei lesiant presennol, ei angen am fewnbwn gan y gwasanaethau iechyd meddwl, a'r anhawster roedd yn ei gael i reoli gwrthdaro mewn ffordd gymdeithasol. Nid oedd y gwasanaeth prawf yn ymwybodol o'r bygythiadau a wnaed yn ystod yr argyfwng iechyd meddwl gafodd Jacob ym mis Ebrill 2022, na'r bygythiadau i ladd aelodau o'i deulu ym mis Mehefin y flwyddyn honno.

Er bod disgwyl i asesiad risg gael ei adolygu pan fydd amgylchiadau'n newid, a fyddai hefyd yn gyfle i ailasesu'r cynllun rheoli risg, ni chafwyd adolygiad o'r asesiad risg mewn perthynas â Jacob rhwng yr asesiad cychwynnol a marwolaeth Matthew ddechrau mis Medi 2022. Wrth i Jacob symud rhwng ardal Abertawe a Dyfed-Powys, byddai wedi bod yn arfer da o dan y polisi trosglwyddo presennol i gynnal adolygiad o'r asesiad risg. Yn ystod adolygiad o'r fath, mae angen gwiriadau cam-drin domestig a diogelu i lywio'r cynllun rheoli risg. Gan nad oedd

unrhyw adolygiad, ac felly dim gwiriadau cam-drin domestig wedi'u cynnal, nid oedd yr ymarferydd prawf yn ymwybodol o'r digwyddiad ym mis Mehefin 2022 (y diwrnod ar ôl ei ddedfryd llys), lle gwnaeth Jacob fygythiadau i ladd a chynnau tân bwriadol tuag at ei fam a'i frawd. Byddai gwybod am y wybodaeth hon wedi newid yr asesiad risg yn sylweddol, gan gychwyn camau lliniaru risg a chynllunio diogelu.

Er bod achos Jacob wedi'i neilltuo i ddechrau i swyddog prawf cymwysedig, ailddyrannwyd ei achos i swyddog gwasanaeth prawf heb resymeg glir dros y penderfyniad hwn i dystiolaethu ei fod yn addas. Ni chafodd cymhlethdodau llawn yr achos hwn eu hystyried yn llawn oherwydd nid oedd y wybodaeth lawn ar gael. Swyddog prawf yw rhywun sydd wedi ennill cymhwyster penodol ac sydd â phrofiad o weithio gydag unigolion sydd ag anghenion, amgylchiadau a risgiau cymhleth. Bydd gan y swyddog sgiliau a phrofiad ar lefel uwch o ran asesu risg a datblygu cynlluniau rheoli risg. Bydd swyddog gwasanaeth prawf wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol i'w alluogi i asesu a rheoli unigolion â risg isel-canolig o niwed difrifol. Byddai'n llai profiadol mewn asesu a rheoli unigolion sydd ag anghenion cymhleth. Bydd wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol o ran cam-drin domestig a diogelu.

Ar ddechrau'r gorchymyn gwasanaeth cymunedol, roedd diffyg eglurder ynghylch cyfeiriad bwriadedig Jacob, ac felly pa swyddfa gwasanaeth prawf fyddai â chyfrifoldeb goruchwyliol dros Jacob. Mae'n arfer da cadarnhau cyfeiriad unigolyn yn y cam dedfrydu er mwyn osgoi oedi ac er mwyn sicrhau eglurder ar y dechrau ynghylch pa ardal awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr achos. Nododd yr adolygiad fod y gwasanaeth prawf bellach wedi cyflwyno polisi trosglwyddo lle caiff achosion eu holrhain pan fo symud ardal yn digwydd. Bydd y broses newydd yn tynnu sylw at achosion perthnasol ac yn sicrhau bod gan uwch-reolwyr oruchwyliaeth a'u bod yn gallu ymyrryd lle na dderbynnir achos yn yr ardal dderbyn o fewn 20 diwrnod gwaith.

Mae'n amlwg hefyd, er mai dim ond am gyfnod byr yr oedd Jacob o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf cyn cyflawni'r lladdiad, fe gollodd nifer o apwyntiadau, gan gynnwys yr apwyntiadau i gymryd rhan yn ei gynllun dedfrydu cychwynnol a'i

holl apwyntiadau gwaith di-dâl.  Dechreuwyd camau gorfodi ond ni arweiniodd hyn at gymryd camau torri amodau. Cafodd Jacob ei wahardd dros dro rhag apwyntiadau gwaith di-dâl pellach, sy'n unol â'r polisi ar gyfer rhai sy'n colli tri sesiwn gwaith di-dâl.

## 9.6 Nodi ac Atgyfeirio Cam-drin Domestig

Roedd yr adolygiad wedi ystyried hyfforddiant cam-drin domestig yn elfen allweddol o alluogi ymarferwyr rheng flaen i nodi'r risg o gam-drin domestig ymhlith defnyddwyr gwasanaeth. Roedd yn amlwg bod gan bob un o'r asiantaethau oedd yn rhan o'r adolygiad hwn bolisïau, a'u bod yn darparu hyfforddiant i staff yn ymwneud â cham-drin domestig. Nodwyd nad oedd lefel yr hyfforddiant cam-drin domestig yr oedd staff wedi'i dderbyn yn gyson ar draws y system.

Er bod asiantaethau wedi adrodd i Jacob ddweud nifer o weithiau ei fod yn cael meddyliau am niweidio aelodau o'r teulu, yn enwedig yn ystod y chwe mis cyn y lladdiad, prin oedd yr atgyfeiriadau, os o gwbl, a godai bryderon am gam-drin domestig. Mae hyn yn cynnwys digwyddiadau ym mis Ebrill, mis Mai a dechrau mis Mehefin pan oedd iechyd meddwl Jacob yn dirywio. Disgrifiodd deimladau o ddicter a ffieidd-dod tuag at ei deulu, a siaradodd am gael meddyliau am ladd pobl a meddyliau gor-rywiol am ei fam. Er bod gwybodaeth wedi cael ei rhannu i ryw raddau rhwng asiantaethau, nid oedd hyn yn gyson ac nid oedd unrhyw dystiolaeth o nodi'r bygythiad o  gam-drin domestig. Yn bennaf, ceisiodd asiantaethau ddelio â materion a godwyd ar wahân yn hytrach nag mewn modd cydgysylltiedig, heb fod un sefydliad yn cymryd perchnogaeth dros reoli'r risg o niwed a berai Jacob i eraill yn ei deulu, neu'n wir iddo ef ei hun.

Ystyriodd y panel hefyd y mater o gam-drin domestig rhwng brodyr a chwiorydd, ac a fyddai gan ymarferwyr rheng flaen y sgiliau a'r wybodaeth i nodi bygythiadau o niwed i frodyr a chwiorydd fel cam-drin domestig. Disgrifiodd aelodau'r panel ddealltwriaeth gyffredinol dda o gam-drin domestig ar draws eu timau ymarferwyr rheng flaen, yn enwedig pan oedd yn ymwneud â phartneriaid mewn perthynas bersonol agos. Derbyniwyd yn eang bod llai o ddealltwriaeth o gam-drin domestig sy'n gysylltiedig â brodyr a chwiorydd, sef rhywbeth cymharol brin o ran yr achosion o gam-drin domestig y rhoddir

gwybod amdanynt. Er nad yw hynny wedi'i brofi, mae'n debygol iawn na fyddai ymarferwyr wedi nodi'r risg a berai Jacob i aelodau o'r teulu, yn enwedig ei frawd, fel cam-drin domestig. Efallai fod hyn yn esbonio'r diffyg atgyfeiriadau.

Ar 21 Mehefin, cafodd Heddlu Dyfed-Powys adroddiad fod Jacob yn bygwth lladd ei frawd a'i deulu a llosgi eu tŷ. Tystiodd tad Jacob i hyn. Cafodd Jacob ei arestio a'i gyfweld ond gan nad oedd ei fam a'i frawd am gefnogi erlyniad, ni chymerwyd camau pellach. Cafodd y digwyddiad ei nodi'n gywir fel honiad o gam-drin domestig a chynhaliwyd asesiad risg DASH, gan ystyried bod hwn yn risg safonol. Nodwyd gan yr adolygiad bod asesiad risg DASH yn cofnodi nad oedd unrhyw wybodaeth wedi'i darparu, gan nodi 'gwrthodwyd' ar bwys bob cwestiwn. Nid oes cofnod pa wybodaeth gafodd ei hystyried wrth benderfynu mai risg safonol oedd hon.

Mae asesu'r bygythiadau hyn i ladd aelodau o'r teulu fel risg safonol yn fater sy'n peri pryder i'r adolygiad. Roedd Jacob yn unigolyn â phryderon iechyd meddwl sylweddol, roedd wedi datgelu i nifer o ymarferwyr ei fod yn cael meddyliau am, a/neu ddyheadau i, achosi niwed i aelodau o'r teulu ac i eraill, roedd yn mynegi dicter tuag at ei deulu, ac roedd yn camddefnyddio sylweddau yn rheolaidd. Er bod nifer o elfennau gwrthrychol i'r asesiad risg DASH, mae lle hefyd i farn broffesiynol. Os nad oedd y wybodaeth berthnasol ar gael ar unwaith, gallai rhagor o chwilfrydedd proffesiynol fod wedi sicrhau bod y wybodaeth oedd ar gael yn cael ei defnyddio i gael gwell dealltwriaeth o'r risg roedd Jacob yn ei chyflwyno. Mae'n debygol y byddai penderfynwr â dealltwriaeth o'r holl wybodaeth oedd ar gael ym meddiant partneriaid diogelu wedi asesu Jacob fel un oedd yn peri risg uchel o niwed i aelodau ei deulu. Byddai hyn wedi arwain at roi ystyriaeth i Jacob mewn cyfarfod cynhadledd amlasiantaeth asesu risg (MARAC), gan sicrhau bod gwybodaeth briodol yn cael ei rhannu rhwng asiantaethau perthnasol a bod asesiad risg a chynllunio rheoli risg mwy effeithiol yn digwydd. Roedd yr adolygiad o'r farn bod hwn yn gyfle pwysig a gollwyd i roi ymateb traws-asiantaeth ar waith er mwyn lliniaru'r risg o niwed i eraill yn well.

Er bod gwybodaeth yn ymwneud â'r digwyddiad hwn wedi'i throsglwyddo i Heddlu De Cymru at ddibenion diogelu, yn amlwg, roedd dioddefwyr tebygol y cam-drin domestig yn byw yn ardal blismona Dyfed-Powys. Fel y disgrifiwyd yn flaenorol yn yr adroddiad hwn, nid oedd asiantaethau allweddol eraill, yn benodol y gwasanaeth prawf, yn ymwybodol o'r digwyddiad hwn, a chafodd hyn effaith sylweddol ar eu hasesiad risg ar gyfer goruchwyliaeth Jacob.

## 9.7 Rhannu Gwybodaeth

Roedd rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau i gael dealltwriaeth fwy cyflawn o anghenion gofal a chymorth Jacob a'r risgiau yr oedd yn eu peri, i eraill ac iddo'i hun, yn faterion allweddol drwy gydol yr adolygiad.

Er bod cyfarfodydd asesu llwybr+ wedi'u cynnal yn briodol, awgrymai cofnodion Gofal Cymdeithasol Plant nad oedd llawer o wybodaeth wedi'i darparu gan rai o'r asiantaethau a weithiai gyda Jacob i gefnogi'r broses. Mae'n bosibl gallai'r timau heddlu ac iechyd fod wedi darparu gwybodaeth berthnasol. Gallai hyn fod wedi cynnwys asesiadau iechyd meddwl ac adborth o sesiynau therapi a chwnsela. Roedd ymgysylltiad Jacob â'r ymyriadau cwnsela a therapi yn anghyson, ond eto roedd asiantaethau'n derbyn gair Jacob am y sesiynau heb ei herio, gan nad oedd rhannu gwybodaeth yn digwydd rhwng asiantaethau.

Roedd llawer iawn o wybodaeth yn ymwneud â chamddefnydd Jacob o sylweddau yn hanner cyntaf 2020, ond prin oedd y dystiolaeth o'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n effeithiol rhwng asiantaethau neu o unrhyw gynllunio rheoli risg ar draws asiantaethau. Cofnododd yr asesiad iechyd plentyn sy'n derbyn gofal a gwblhawyd yn y cyfnod hwnnw fod Jacob yn gwadu defnyddio sylweddau ac wedi gwrthod cynnig atgyfeiriad i WCADA. Nid oedd unrhyw gofnod o wybodaeth yn cael ei darparu gan asiantaethau partner nac o herio ymwadiadau Jacob.

Codwyd nifer o bryderon am iechyd meddwl dirywiol Jacob yn y misoedd cyn marwolaeth Matthew, ac arweiniodd y pryderon hyn, yn gywir, at atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl.

Fodd bynnag, ychydig iawn o dystiolaeth o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau oedd yng nghofnodion asiantaethau unigol. Nododd yr adolygiad yn benodol nad oedd unrhyw adborth i gefnogi unrhyw asesiadau risg ar y cyd neu i gynllunio lliniaru. Oherwydd y diffyg rhannu gwybodaeth am ganlyniadau'r asesiadau a'r ymyriadau, roedd modd i Jacob gamarwain ei Gynghorydd Person Ifanc a'i weithiwr cymorth trwy eu cael i gredu bod yr ymyriadau hyn yn gweithio'n dda. Mewn gwirionedd fodd bynnag, cyfyngedig ar y gorau oedd yr ymgysylltu a wnâi Jacob.

Cafodd y diffyg rhannu gwybodaeth effaith ar yr asesiad risg a gynhaliwyd gan y gwasanaeth prawf ym mis Gorffennaf 2022, fel rhan o'i gynllun dedfryd gychwynnol. Er bod yr angen i'r gwasanaeth prawf geisio gwybodaeth gan asiantaethau partner yn rhagweithiol wedi'i gynnwys o dan adran 9.5 o'r adroddiad hwn, mae'n bwysig cofio bod asiantaethau eraill yn dal gwybodaeth a fyddai, pe bai'r gwasanaeth prawf yn ymwybodol ohoni, wedi arwain at newid ei asesiad risg ganolig i un risg uchel. Byddai'r adolygiad yn nodi'n benodol y bygythiadau a wnaed gan Jacob yn ystod ei argyfwng iechyd meddwl ym mis Ebrill 2022, a'r bygythiadau i ladd aelodau o'i deulu ym Mehefin yr un flwyddyn, a wnaed tra bo Jacob dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf.

Er bod digwyddiadau yn Ebrill, Mai a dechrau Mehefin pryd roedd iechyd meddwl Jacob yn dirywio lle mynegodd deimladau o ddicter tuag at ei deulu, meddyliau am ladd pobl a meddyliau gor-rywiol am ei fam, y digwyddiad ar 21 Mehefin 2022 efallai sy'n amlygu'r effaith gafodd y diffyg rhannu gwybodaeth ar allu asiantaethau i nodi a lliniaru'r risg a berai Jacob. Gwnaeth Jacob fygythiad clir i ladd aelodau o'i deulu ac i losgi eu tŷ; bygythiad y rhoddodd ei dad wybod amdano i Heddlu Dyfed-Powys ar ôl ei glywed yn ei wneud. Nid oedd y sawl oedd yn gwneud penderfyniadau gyda Heddlu Dyfed-Powys yn ymwybodol o wybodaeth berthnasol yn ymwneud â digwyddiadau blaenorol pan wnaethant asesu'r risg a berai Jacob, a daethant i'r penderfyniad nad oedd y trothwy ar gyfer MARAC wedi'i gyrraedd. Ni chafodd gwybodaeth ei rhannu'n rhagweithiol gydag asiantaethau partner, er bod Jacob o dan oruchwyliaeth y gwasanaeth prawf. Er i'r adolygiad nodi pryderon am y broses o

wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r asesiad risg DASH a'r penderfyniad i beidio â chynnal MARAC, mae'r rhain yn cael sylw dan adran 9.6 o'r adroddiad hwn. Mae'r adolygiad yn adlewyrchu ar y ffaith bod hwn yn gyfle a gollwyd i ddod ag asiantaethau at ei gilydd i rannu gwybodaeth yn effeithiol, asesu risg a rhoi cynllun lliniaru risg cydgysylltiedig, traws-asiantaeth ar waith.

Yn achos Jacob, drwy rannu gwybodaeth yn well, byddai'r gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn ymwybodol o'r rhyngweithio rhwng Jacob a'r heddlu, y gwasanaeth prawf a'r gwasanaethau iechyd meddwl. Byddai'r gwasanaeth prawf yn ymwybodol o'r materion cam-drin domestig, gan gynnwys y bygythiadau i ladd ym Mehefin 2022, a byddai gan yr heddlu fwy o fanylion a allai fod wedi gwella eu dealltwriaeth o'r risg a berai Jacob. Fel y nododd y panel yn gywir, pe bai'r holl ryngweithio fu rhwng gwasanaethau a Jacob wedi bod yn weladwy ar y pryd, gallai hyn fod wedi ysgogi chwilfrydedd proffesiynol a chasglu gwybodaeth sylweddol i gefnogi'r asesu risg a'r penderfyniadau gan ymarferwyr rheng flaen.

Yn ogystal ag ystyried heriau rhannu gwybodaeth rhwng yr asiantaethau a weithiai i gefnogi Matthew a Jacob, a rheoli'r risgiau a berai Jacob, mae hefyd yn bwysig ystyried mentrau cyfredol a allai wneud rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau yn fwy effeithiol.

Mae'r traciwr diogelu amlasiantaeth (MAST) yn blatfform gwybodaeth sy'n galluogi asiantaethau partner i rannu data cryno yn ddiogel, wedi'i ategu gan strwythur rheoli gwybodaeth y cytunwyd arno. Mae pob partner diogelu yn darparu data cryno yn unig (dim data achos). Defnyddir y wybodaeth wedyn i gefnogi gweithgareddau diogelu ar lefel dactegol ac i hyrwyddo chwilfrydedd proffesiynol. Gellid ei defnyddio hefyd at ddibenion eraill fel adrodd, dadansoddi a chynllunio strategol.

Nododd y panel, ar ôl cwblhau'r cam prawf cysyniad yn llwyddiannus, fod disgwyl i MAST gael ei ddefnyddio 'yn fyw' yng ngwanwyn 2024.

## 10. Casgliadau ac Argymhellion

10.1 Roedd Matthew a Jacob ill dau yn agored i brofiadau niweidiol sylweddol yn ystod plentyndod pan oeddent yn ifanc iawn. Roedd hyn yn cynnwys amgylchedd camdriniol a chaotig, bod yn dyst i gam-drin rhwng eu rhieni a chamddefnyddio cyffuriau, nid yn unig gan eu rhieni ond gan oedolion eraill, gan arwain at letya'r ddau fachgen dan orchymyn gofal. Mae effaith y digwyddiadau hyn a allai fod yn drawmatig ym mywyd plentyn yn cael ei chydnabod yn eang mewn ymchwil ddiweddar. Roedd tystiolaeth bod hyn wedi cael ei nodi ar y pryd ond nid oedd unrhyw dystiolaeth bod ymyrraeth gynnar wedi'i hystyried mewn perthynas â'r naill blentyn neu'r llall. Nododd yr adolygiad y gwaith mwy ymwybodol o drawma yn ddiweddarach.

10.2 Mae gwaith hanes bywyd gyda phlant sy'n cael eu lletya yn cael ei ystyried yn arfer da a gwnaethpwyd y gwaith hwn yn achos Jacob. Yn ymarferol, gall y gwaith hwn gael ei ddechrau gyda phlant yn ifanc, mewn modd sy'n briodol i'w hoedran. Nodwyd, yn achos Jacob, er iddi gael ei nodi i ddechrau y byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn 2014, pan oedd Jacob yn 12 oed, bod y cofnodion yn awgrymu na chafodd y gwaith ei ddechrau tan ryw bedair blynedd yn ddiweddarach yn 2018. Roedd y cofnodion yn darparu gwybodaeth gyfyngedig am y gwaith a wnaed neu pwy, os o gwbl, oedd yn rhan o'r gwaith hwn. Byddai arferion da yn awgrymu bod gwaith hanes bywyd, pan gaiff ei wneud yn effeithiol, yn fwy na rhannu hanes y plentyn ag ef, ond yn hytrach yn gyfle i gymodi perthnasoedd, ffurfio bondiau dyfnach a chefnogi iachâd. Ni fyddai dechrau gwaith o'r fath gyda phlentyn sydd ar fin bod yn oedolyn a'r broses bontio trwy lencyndod yn cyd-fynd ag arferion gorau. Nodwyd hefyd nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y gwaith hanes bywyd wedi cael ei gyfleu i'r rhwydwaith cymorth ehangach, gan gynnwys asiantaethau partner a allai fod wedi cyfrannu rhywfaint neu pan oedd angen deall yr effaith ar eu rôl.

**Argymhelliad 1**

Dylai Gofal Cymdeithasol Plant Castell-nedd Port Talbot adolygu'r dyluniad, y ddarpariaeth a'r amserlenni ar gyfer gwaith hanes bywyd gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Dechrau'r gwaith mewn modd sy'n briodol i'w hoedran yn iau.
- Pa asiantaethau, neu pwy o'r rhwydwaith cymorth ehangach, ddylai fod yn rhan o'r gwaith hanes bywyd neu gael rhywfaint o fewnbwn.
- Sut mae'r gwaith hanes bywyd yn cael ei rannu â phartneriaid perthnasol neu aelodau'r rhwydwaith cymorth.

10.3 Ystyriodd yr adolygiad sut y cyflawnodd Gofal Cymdeithasol Plant a Gofal Cymdeithasol Oedolion Castell-nedd Port Talbot eu cyfrifoldebau dros Jacob a Matthew drwy'r tîm llwybr+. Nodwyd tystiolaeth glir o arferion da o ran neilltuo'r Cynghorydd Person Ifanc a chwrdd â'r ddau fachgen yn gynnar, gan ddarparu cyfle cynnar i ddechrau meithrin perthynas effeithiol. Nodwyd hefyd bod penderfyniad rheoli wedi'i wneud o fewn Gofal Cymdeithasol Plant na fyddai gwasanaethau'n cael eu gwrthod i unrhyw berson ifanc oedd mewn cyswllt yn ystod cyfnodau cyfyngiadau covid. Roedd hyn wedi cael ei chydnabod yn arfer da gan yr adolygiad hefyd.

10.4 Mae'r cofnodion yn awgrymu bod cyfarfodydd asesu chwe mis llwybr+ ar gyfer y ddau frawd wedi cael eu cynnal yn briodol. Fodd bynnag, nodwyd bod presenoldeb cyfyngedig gan asiantaethau partner ac mai ychydig o wybodaeth a ddarparwyd gan yr asiantaethau hynny oedd yn gweithio gyda Jacob. Cydnabyddir, ar ôl iddynt gyrraedd deunaw oed, ac felly pan oeddent yn oedolion yn gyfreithiol, fod y brodyr wedi gallu nodi pa asiantaethau oedd yn ymwneud â'u cyfarfodydd asesu llwybr+. Fodd bynnag roedd cyfleoedd, cyn i Jacob gyrraedd yr oedran hwn ac ar ôl hynny, lle gellid bod wedi ystyried cynnwys gwasanaethau arbenigol o ran cyffuriau ac alcohol i geisio annog Jacob i ymgysylltu mewn perthynas â'i gamddefnydd o gyffuriau. Cafodd gallu'r oedolyn ifanc i 'lywio' cynllun y llwybr ei gefnogi, a hynny'n gywir. O ganlyniad, roedd cofnodion y cyfarfodydd hyn yn bwysig o ran nodi elfennau eraill o'r hyn oedd yn digwydd ym mywyd y person ifanc. Yn amlwg, mae gan y rhai sy'n gadael gofal hawl i breifatrwydd, ond byddai unrhyw bryderon diogelu yn bwysicach na'r hawl honno. Gallai'r asesiadau iechyd meddwl a'r adborth o'r sesiynau therapi a chwnsela fod wedi ychwanegu gwerth at yr asesiadau hyn. Byddai'r heddlu hefyd wedi meddu

ar wybodaeth a allai fod wedi cynorthwyo'r rhai oedd yn gweithio gyda Jacob. Efallai y bydd angen mwy o synergedd rhwng y tîm llwybr+ a'r ymateb sy'n cael ei ysgogi'n amlach ar draws gofal cymdeithasol oedolion o ran gofal a chymorth.

10.5 Nododd y panel yr heriau yn ymwneud â phresenoldeb ymarferwyr mewn cyfarfodydd llwybr+ a sut roeddent yn cael eu cofnodi. Roedd aelodau'r panel yn teimlo bod rhannu gwybodaeth yn dda rhwng asiantaethau, y cymorth a ddarperir 'ar lawr gwlad' i'r oedolyn ifanc, a chadw cofnodion da i ddangos hyn, yn bwysig. Nodwyd bod Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot yn adolygu ei ymateb i'r llencyndod ar hyn o bryd, gan gynnwys diogelu wrth bontio.

**Argymhelliad 2**

Fel rhan o'i adolygiad parhaus, dylai Gofal Cymdeithasol Plant Castell-nedd Port Talbot ystyried sut y gellir annog partneriaid ehangach i gyfrannu at asesiadau llwybr+ i alluogi dealltwriaeth fwy cyfannol o'r materion y mae'r person ifanc yn eu hwynebu ac ymateb mwy effeithiol i ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth yn ystod llencyndod a phontio i fyd oedolion.

10.6 Mae cwmpas yr adolygiad yn dechrau ar ôl i Matthew adael yr ysgol ond mae'n amlwg iawn bod ymddygiad a pherfformiad Jacob yn yr ysgol wedi dirywio yn 2017, a oedd yn cyd-fynd â'i ddefnydd ymddangosiadol o sylweddau anghyfreithlon a'i leoliad maeth hirdymor yn chwalu. Ystyriodd y panel ymateb y gofalwr maeth i ddefnydd cynnar Jacob o alcohol a'i gamddefnydd o gyffuriau a oedd yn cael eu trin mewn modd cosbol iawn yn ôl pob golwg. Gallai hyn awgrymu anoddefgarwch o ymddygiad o'r fath yn hytrach na defnyddio dull mwy cefnogol ac ymwybodol o drawma. Roedd y panel yn teimlo y gallai hyn fod wedi dangos barn y gofalwyr maeth a ffurfiwyd trwy brofiadau bywyd am y rhai sy'n camddefnyddio sylweddau neu alcohol. Gallai hyn nodi'r angen i sicrhau bod gofalwyr maeth yn cael hyfforddiant mewn darparu ymateb ymwybodol o drawma i faterion o'r fath a bod barn ar y pwnc hwn yn cael ei hystyried yn ystod sesiynau goruchwylio.

### Argymhelliad 3

Dylai Gofal Cymdeithasol Plant Castell-nedd Port Talbot sicrhau bod y cefndir a'r profiadau y mae gofalwyr yn eu cynnig i'r rôl yn cael eu rhannu a'u hystyried yn ystod sesiynau goruchwylio a bod pob gofalwr maeth yn cael hyfforddiant i'w alluogi i fod yn ymwybodol o drawma ac ymateb i drawma.

10.7 Mae'n amlwg o'r cofnodion a ddarparwyd ar gyfer yr adolygiad, bod y ddau frawd yn defnyddio sylweddau anghyfreithlon, yn enwedig canabis. Er bod llai o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi yn ymwneud â Matthew, mae'n thema gyffredin o ran Jacob o'r blynyddoedd olaf yn yr ysgol hyd at farwolaeth Matthew yn 2022.

10.8 Roedd cyfnod yr adolygiad hefyd yn cyd-daro â'r adeg pan oedd Matthew a Jacob yn cael cysylltiad â'u mam ac wedyn â'u tad. Er bod y camddefnydd o gyffuriau gan eu rhieni a chydnabod eu rhieni pan oedd Matthew a Jacob yn iau yn un o'r prif resymau pam roeddent yn destun gorchmynion gofal, nid oedd digon o gydnabyddiaeth o'r risgiau cysylltiedig â chyffuriau oedd yn deillio o gyswllt y brodyr â'u teulu wrth iddynt agosáu at fod yn oedolion. Er gwaethaf y risg ymddangosiadol a'r wybodaeth helaeth yn ymwneud â'r camddefnydd o gyffuriau gan Jacob, ac yn wir gan aelodau eraill o'r teulu, nid oedd llawer o dystiolaeth o gynllunio i fynd i'r afael â'r risg heblaw cynnig atgyfeiriad i Jacob at wasanaethau cyffuriau ac alcohol a wrthodwyd gan Jacob bob tro. Mae'n debygol i ddefnyddio cyffuriau gael ei 'normaleiddio' yn achos Jacob, yn enwedig wrth i'w ymgysylltiad â'i deulu gynyddu.

10.9 Nododd y panel nad oes unrhyw bwerau cyfreithiol i orfodi cydweithrediad â'r gwasanaethau a gynigir ond bod opsiynau y gellid bod wedi eu harchwilio ymhellach. Roedd gan Jacob hanes o beidio ag ymgysylltu â gwasanaethau yn dilyn atgyfeiriadau, ond gan mai dim ond gwybodaeth gyfyngedig oedd wedi'i rhannu, efallai nad oedd hyn wedi'i ddeall yn eang. Gallai'r opsiynau fod wedi cynnwys cael y gwasanaethau cyffuriau ac alcohol i fod yn rhan o'r cyfarfodydd llwybr+ i geisio creu dull mwy cydgysylltiedig, gallai'r cyfarfod llwybr+ fod wedi datblygu cynllun clir i fynd i'r afael â chamddefnydd Jacob o gyffuriau, neu gellid bod wedi ystyried defnyddio gweithwyr

allgymorth camddefnyddio sylweddau i geisio meithrin perthynas â Jacob ac annog ymgysylltu.

**Argymhelliad 4**

Os oes gan y defnyddiwr gwasanaeth anghenion lluosog a bod tystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau yn sylweddol, dylai asiantaethau sicrhau bod ymarferwyr rheng flaen yn deall y dylai asesiadau risg fod yn seiliedig ar rannu gwybodaeth yn effeithiol ar draws asiantaethau ac yn destun cynllun lliniaru risg ar y cyd. Bydd hyn yn golygu bod un asiantaeth yn cymryd yr awenau, yn cydlynu'r broses rhannu gwybodaeth, yn cynllunio'r broses lliniaru risg ac yna'n goruchwylio'r gwaith cyflawni.

10.10 Mynegwyd nifer o bryderon am iechyd meddwl Jacob yn ystod y misoedd cyn marwolaeth Matthew ym mis Medi 2022. Ym mhob achos, roedd Jacob wedi gallu cael mynediad at wasanaethau iechyd meddwl yn ddi-oed wedi'r atgyfeiriadau. Fodd bynnag, ymddengys bod yr asesiadau yn derbyn gwybodaeth gan Jacob heb fod rhyw lawer o dystiolaeth o fewn y cofnodion o unrhyw chwilfrydedd proffesiynol i ddeall yn well y risgiau roedd Jacob yn eu peri iddo ef ei hun ac i eraill. Mae'r enghraifft gaiff sylw yn adran 9.4 yr adroddiad hwn yn dilyn hunan-niweidio Jacob ym mis Awst 2022, dim ond mis cyn i Matthew gael ei ladd. Er bod Jacob yn mynegi llawer o ddicter tuag at ei deulu, ynghyd â diddordeb rhywiol posibl tu hwnt i'r cyffredin a syniadaeth erlid, nid oedd y nodiadau asesu yn rhoi llawer o dystiolaeth bod y materion hyn yn cael eu harchwilio'n fanwl neu fod unrhyw fath o fesurau lliniaru risg yn cael eu hystyried.

10.11 Nododd yr adolygiad hefyd, er bod nifer o atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl mewn perthynas â Jacob, nad oes fawr o dystiolaeth o asesu canlyniadau neu fod yr asesiadau hynny wedi darparu adborth i gefnogi unrhyw gynllunio lliniaru risg neu asesiad risg cydgysylltiedig. Nodwyd hefyd fod cofnodion asiantaethau unigol yn rhoi safbwyntiau croes o ymwneud Jacob â gwasanaethau iechyd meddwl, yn enwedig y cyfarfodydd cwnsela a therapi. Dywedodd Jacob wrth ei Gynghorydd Person Ifanc a'i weithiwr cymorth fod yr ymyriadau yn gweithio'n dda ond roedd y cofnodion iechyd yn dangos lefel sylweddol o 'heb fynychu' a dim neu fawr ddim asesiad o unrhyw ganlyniadau. Byddai'r adolygiad yn awgrymu bod hyn yn dangos

pwysigrwydd dull mwy cydgysylltiedig drwy ddarparu adborth i gefnogi gwaith rheoli risg ar draws asiantaethau.

### Argymhelliad 5

Dylai'r byrddau iechyd sicrhau eu hunain bod ymarferwyr iechyd meddwl rheng flaen yn deall yr angen i ddefnyddio chwilfrydedd proffesiynol i edrych ar y risgiau y gallai unigolyn eu peri iddo'i hun ac i eraill.

### Argymhelliad 6

Dylai'r byrddau iechyd sicrhau bod ymarferwyr rheng flaen yn deall yr angen i gadw cofnodion cywir a manwl o asesiadau a bod adborth o'r asesiadau hynny yn cael ei rannu'n briodol i gefnogi'n well gynllunio lliniaru risg ar draws asiantaethau, a lle bo hynny'n briodol, ar draws ffiniau.

10.12 Ym mis Mai 2022, gofynnodd Llys Ynadon Abertawe am adroddiad cyn dedfrydu mewn perthynas â gwrandawiad llys Jacob a oedd i'w gynnal ar 17 Mehefin. Cwblhawyd yr adroddiad yn brydlon gan gynnal yr holl wiriadau perthnasol yn unol â'r arfer gorau. Gan fod Jacob wedi cael ei ddedfrydu i orchymyn gwasanaeth cymunedol 18 mis, roedd Jacob yn destun goruchwyliaeth gan y gwasanaeth prawf.

10.13 Ym mis Gorffennaf 2022, paratôdd y gwasanaeth prawf gynllun dedfryd cychwynnol yn unol â'r polisi a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymarferydd gynnal asesiad o'r risg o niwed a throseddu pellach. Aseswyd bod Jacob yn peri risg ganolig yn y ddau gategori. Dylai'r asesiad hwn o risg o niwed a throseddu pellach fod wedi cynnwys cynnal gwiriadau cam-drin domestig a diogelu ar draws asiantaethau ond ni ddigwyddodd hynny. Pe bai'r gwiriadau wedi'u cynnal, byddai'r gwasanaeth prawf wedi bod yn ymwybodol o'r digwyddiad ar 21 Mehefin 2022 pan wnaeth Jacob fygythiadau i ladd a chynnau tân bwriadol tuag at ei frawd a'i fam. Derbyniodd y gwasanaeth prawf y byddai'r wybodaeth hon wedi newid yr asesiad risg yn sylweddol, gan gychwyn cynllunio diogelu a lliniaru risg.

**Argymhelliad 7**

Dylai'r Uned Cyflawni Prawf leol sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu hadolygu mewn perthynas ag unigolion o dan ei goruchwyliaeth, pan fydd amgylchiadau'n newid neu pan fydd achosion yn cael eu hailneilltuo ar draws ffiniau. Bydd hyn yn cynnwys cynnal y gwiriadau cam-drin domestig a diogelu priodol i gefnogi'r broses asesu risg.

10.14 Roedd achos Jacob yn fater cymhleth wrth ystyried y ffaith bod Jacob wedi'i ddedfrydu mewn un ardal ond yn byw mewn ardal arall. Nid oedd y risg yn yr ardal lle roedd yn byw ac nid oedd yn byw yn yr ardal lle roedd y gwaith di-dâl i'w wneud. Yn ystod dyddiau cyntaf y gorchymyn gwasanaeth cymunedol, roedd diffyg eglurder ynghylch pa ranbarth o ran y gwasanaeth prawf fyddai'n gyfrifol am oruchwylio Jacob. Byddai arfer da yn awgrymu y dylid cadarnhau cyfeiriad unigolyn yn y cam dedfrydu i roi eglurder mewn perthynas â'r ardal awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr achos. Fodd bynnag, ni wnaeth hyn ddigwydd pan ddedfrydwyd Jacob. Nododd y panel fod y gwasanaeth prawf bellach wedi cyflwyno polisi trosglwyddo sy'n galluogi achosion i gael eu holrhain wrth symud ar draws ffiniau rhanbarthol. Yn bwysig ddigon, mae hyn yn galluogi uwch-reolwyr i gael goruchwyliaeth glir ar achosion o'r fath a darparu ymyrraeth os nad yw'r achos wedi'i dderbyn yn yr ardal dderbyn o fewn 20 diwrnod gwaith.

10.15 Arweiniodd cymhlethdod yr achos, gan gynnwys y ffaith bod Jacob ei hun yn agored i niwed â phroblemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a bod yn berson sy'n gadael gofal, at neilltuo'r achos i swyddog prawf cymwysedig i ddechrau. Fodd bynnag, cafodd yr achos ei ailneilltuo wedyn i swyddog gwasanaeth prawf heb unrhyw resymeg glir dros y penderfyniad hwn. Er y bydd y swyddog gwasanaeth prawf wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol i reoli achosion o risg isel i risg ganolig, mae gan y swyddogion prawf y sgiliau a'r profiad i reoli achosion sy'n ymwneud ag unigolion ag anghenion cymhleth. Nododd yr adolygiad fod y gwasanaeth prawf yn cydnabod fod hwn yn gamgymeriad.

### Argymhelliad 8

Dylai'r Uned Cyflawni Prawf leol sicrhau ansawdd ei pholisi trosglwyddo newydd ar ôl cyfnod o amser y cytunwyd arno i sicrhau ei hun bod y polisi yn darparu gwasanaeth o'r ansawdd gofynnol a'i fod yn galluogi'r lefel briodol o oruchwyliaeth gan uwch-reolwyr ar achosion cymhleth.

### Argymhelliad 9

Dylai'r Uned Cyflawni Prawf leol adolygu ei harferion neilltuo achosion a chofnodi penderfyniadau cysylltiedig i sicrhau bod achosion cymhleth yn cael eu rheoli gan ymarferwyr sydd â'r lefelau priodol o sgiliau a phrofiad. Dylai penderfyniadau neilltuo gael eu cofnodi'n glir a bod yn archwiliadwy.

10.16 Roedd nodi a chyfeirio pryderon cam-drin domestig yn fater sylweddol yn yr adolygiad hwn. Roedd y panel o'r farn bod hyfforddiant cam-drin domestig yn elfen allweddol i roi'r sgiliau a'r hyder i ymarferwyr rheng flaen nodi'r risg o gam-drin domestig ymhlith defnyddwyr gwasanaeth. Roedd yn amlwg i'r panel bod gan bob un o'r asiantaethau oedd yn rhan o'r adolygiad bolisïau priodol ar waith a'u bod yn darparu hyfforddiant i staff yn ymwneud â cham-drin domestig. Fodd bynnag, nodwyd, er bod hyfforddiant ar gael ym mhob asiantaeth, nad oedd lefel yr hyfforddiant cam-drin domestig yr oedd staff wedi'i dderbyn yn gyson ar draws y system.

### Argymhelliad 10

Dylai'r asiantaethau a nodwyd sicrhau bod ganddynt fesurau ar waith i sicrhau bod ymarferwyr yn cwblhau hyfforddiant cam-drin domestig a diogelu sy'n berthnasol i'w rolau.

10.17 Yn ystod y cyfnod o chwe mis cyn y lladdiad ym mis Medi 2022, gwnaed nifer o ddatgeliadau gan Jacob i ymarferwyr yn ymwneud â meddyliau am achosi niwed i aelodau o'r teulu nad oeddent wedi arwain at wneud atgyfeiriadau cam-drin domestig. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau ym mis Ebrill, mis Mai a dechrau mis Mehefin pan oedd iechyd meddwl Jacob yn dirywio. Disgrifiodd deimladau o ddicter tuag at ei deulu, meddyliau am ladd pobl ac roedd yn cael meddyliau gor-rywiol am ei fam. Er

bod gwybodaeth wedi cael ei rhannu i ryw raddau rhwng asiantaethau, nid oedd hyn yn gyson ac nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y risg o gam-drin domestig wedi'i nodi a bod camau wedi'u cymryd yn dilyn hynny. Ceisiodd asiantaethau ddelio â materion a godwyd ar wahân yn hytrach nag mewn modd cydgysylltiedig a chydlynol ac ni aethpwyd i'r afael â'r risg i eraill, yn enwedig aelodau o'i deulu.

10.18 Bu'r panel hefyd yn ystyried y mater cam-drin domestig oedd yn gysylltiedig â brodyr a chwiorydd ac a fyddai ymarferwyr rheng flaen yn nodi bygythiadau o niwed i frodyr a chwiorydd fel cam-drin domestig. Disgrifiodd yr Adroddiadau Rheoli Unigol, ynghyd â thrafodaethau mewn cyfarfodydd panel, ddealltwriaeth gyffredinol dda o gam-drin domestig ar lefel ymarferydd, ond roedd hyn yn canolbwyntio mewn gwirionedd ar gam-drin domestig rhwng partneriaid mewn perthynas bersonol agos. Cytunodd y panel fod llai o ddealltwriaeth o gam-drin domestig sy'n gysylltiedig â brodyr a chwiorydd sy'n gymharol brin o ran cam-drin domestig a adroddir. Er nad yw hynny wedi'i brofi, barn y panel yw ei bod yn debygol iawn na fyddai ymarferwyr wedi nodi'r risg i aelodau o'r teulu, yn enwedig ei frawd, fel cam-drin domestig, ac o bosibl mae hyn yn egluro'r diffyg atgyfeiriadau.

**Argymhelliad 11**

Dylai'r asiantaethau a nodwyd sicrhau eu hunain bod gan ymarferwyr rheng flaen y sgiliau i nodi'r risg o gam-drin domestig sy'n gysylltiedig â brodyr a chwiorydd a'r hyder a'r wybodaeth i wneud atgyfeiriadau lle bo hynny'n briodol.

10.19 Ar 21 Mehefin 2022, ymchwiliodd Heddlu Dyfed-Powys i honiadau fod Jacob wedi bygwth lladd ei frawd a'i fam, a'i fod hefyd wedi bygwth llosgi eu tŷ. Cafodd y bygythiadau hyn eu riportio i Heddlu Dyfed-Powys gan dad Jacob. Cafodd y digwyddiad ei nodi'n gywir fel un oedd yn gysylltiedig â cham-drin domestig a chwblhawyd asesiad risg DASH, er mai 'gwrthodwyd' sydd wedi'i nodi ar bwys pob cwestiwn. Barnwyd bod lefel y risg yn safonol.

10.20 Roedd asesu bod y risg ar 'lefel safonol' ar gyfer y digwyddiad hwn yn fater o bryder i'r adolygiad hwn. Roedd Jacob yn unigolyn â phryderon iechyd meddwl sylweddol, roedd wedi

datgelu i ymarferwyr yn ddiweddar ei fod yn meddwl am achosi niwed i aelodau o'r teulu, roedd wedi mynegi dicter am ei deulu ac roedd yn hysbys ei fod yn camddefnyddio sylweddau yn rheolaidd. Yn ystod y digwyddiad hwn, roedd yn glir ei fod wedi bygwth lladd ei frawd a'i fam, yn ogystal â bygwth cynnau tân yn fwriadol. Os nad oedd yr holl wybodaeth berthnasol ar gael i'r rhai oedd yn gwneud penderfyniadau, gallai rhagor o chwilfrydedd proffesiynol fod wedi sicrhau bod y wybodaeth oedd ym meddiant partneriaid diogelu wedi dod i law. Gyda dealltwriaeth fwy cyfannol o'r wybodaeth oedd ar gael yn ymwneud â Jacob, credai'r panel y byddai'r risg o niwed i aelodau teulu Jacob, yn benodol Matthew, wedi cael ei hasesu i fod yn uchel a fyddai wedi arwain at ystyried y risg yr oedd Jacob yn ei pheri mewn MARAC. Mae'n rhesymol dod i'r casgliad y byddai hyn wedi arwain at rannu gwybodaeth yn briodol, asesiad risg mwy effeithiol a rhoi cynllun lliniaru risg cytunedig a chydgysylltiedig ar waith. Roedd y panel o'r farn bod hwn yn gyfle sylweddol a gollwyd, lai na thri mis cyn y lladdiad.

### Argymhelliad 12

Dylai Heddlu Dyfed-Powys sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn deall yr angen i gael yr holl wybodaeth berthnasol wrth asesu'r risg o gam-drin domestig a phwysigrwydd defnyddio chwilfrydedd proffesiynol i gyflawni hyn. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach mewn achosion sy'n cynnwys bygwth lladd neu achosi niwed difrifol mewn amgylchiadau a fyddai'n gyfystyr â cham-drin domestig.

10.21 Roedd rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau i gael dealltwriaeth fwy cyflawn o anghenion gofal a chymorth Jacob a'r risgiau yr oedd yn eu peri, i eraill ac iddo'i hun, yn fater allweddol drwy gydol yr adolygiad. Roedd gan ymarferwyr bryderon am gamddefnydd Jacob o sylweddau, problemau iechyd meddwl a'r bygythiadau i achosi niwed i aelodau o'r teulu, ond nid oedd y wybodaeth yn cael ei rhannu bob amser gydag asiantaethau eraill yn effeithiol. Golygai hyn fod asesiadau risg wedi'u cynnal a phenderfyniadau wedi'u gwneud nad oeddent yn seiliedig ar yr holl wybodaeth oedd ar gael.

### Argymhelliad 13

Dylai pob asiantaeth sicrhau bod ganddi'r dulliau priodol ar waith i annog ymarferwyr i rannu neu geisio gwybodaeth i gefnogi asesiadau risg mewn perthynas ag oedolion y mae ganddi bryderon amdanynt, ond nad ydynt yn cyd-fynd â fframweithiau statudol ar gyfer rhannu gwybodaeth megis MAPPA, adran 126 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu ofynion rhannu eraill gan gynnwys MARAC.

## 11. Atodiad 1. Tabl Argymhellion

| Rhif | Argymhelliad. | Thema. | Asiantaeth. |
|---|---|---|---|
| 1 | Dylai Gofal Cymdeithasol Plant Castell-nedd Port Talbot adolygu'r dyluniad, y ddarpariaeth a'r amserlenni ar gyfer gwaith hanes bywyd gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:<br>• Dechrau'r gwaith mewn modd sy'n briodol i'w hoedran yn iau.<br>• Pa asiantaethau, neu pwy o'r rhwydwaith cymorth ehangach, ddylai fod yn rhan o'r gwaith hanes bywyd neu gael rhywfaint o fewnbwn.<br>• Sut mae'r gwaith hanes bywyd yn cael ei gyfleu i bartneriaid perthnasol neu aelodau'r rhwydwaith cymorth. | Profiad niweidiol yn ystod plentyndod. | Gofal Cymdeithasol Plant Castell-nedd Port Talbot. |
| 2 | Fel rhan o'i adolygiad parhaus, dylai Gofal Cymdeithasol Plant Castell-nedd Port Talbot ystyried sut y gellir annog partneriaid ehangach i gyfrannu at asesiadau llwybr+ i alluogi dealltwriaeth fwy cyfannol o'r materion y mae'r person ifanc yn eu hwynebu ac ymateb mwy effeithiol i ddiwallu ei anghenion gofal a chymorth yn ystod llencyndod a phontio i fyd oedolion. | Pontio i fyd oedolion. | Gofal Cymdeithasol Plant Castell-nedd Port Talbot. |
| 3 | Dylai Gofal Cymdeithasol Plant Castell-nedd Port Talbot sicrhau bod y cefndir a'r profiadau y mae gofalwyr yn eu cynnig i'r rôl yn cael eu rhannu a'u hystyried yn ystod sesiynau goruchwylio a bod pob gofalwr maeth yn cael hyfforddiant i'w alluogi i fod yn ymwybodol o drawma ac ymateb i drawma. | Pontio i fyd oedolion. | Gofal Cymdeithasol Plant Castell-nedd Port Talbot. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 4 | Os oes gan y defnyddiwr gwasanaeth anghenion lluosog a bod tystiolaeth o gamddefnyddio sylweddau yn sylweddol, dylai asiantaethau sicrhau bod ymarferwyr rheng flaen yn deall y dylai asesiadau risg fod yn seiliedig ar rannu gwybodaeth yn effeithiol ar draws asiantaethau ac yn destun cynllun lliniaru risg ar y cyd. Bydd hyn yn golygu bod un asiantaeth yn cymryd yr awenau, yn cydlynu'r broses rhannu gwybodaeth, yn cynllunio'r broses lliniaru risg ac yna'n goruchwylio'r gwaith cyflawni. | Camddefnyddio sylweddau. | Ar draws y system. |
| 5 | Dylai'r byrddau iechyd sicrhau eu hunain bod ymarferwyr iechyd meddwl rheng flaen yn deall yr angen i ddefnyddio chwilfrydedd proffesiynol i edrych ar y risgiau y gallai unigolyn eu peri iddo'i hun ac i eraill. | Iechyd meddwl. | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 6 | Dylai'r byrddau iechyd sicrhau bod ymarferwyr rheng flaen yn deall yr angen i gadw cofnodion cywir a manwl o asesiadau a bod adborth o'r asesiadau hynny yn cael ei rannu'n briodol i gefnogi'n well gynllunio lliniaru risg ar draws asiantaethau, a lle bo hynny'n briodol, ar draws ffiniau. | Iechyd meddwl. | Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 7 | Dylai'r Uned Cyflawni Prawf leol sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu hadolygu mewn perthynas ag unigolion o dan ei goruchwyliaeth, pan fydd amgylchiadau'n newid neu pan fydd achosion yn cael eu hailneilltuo ar draws ffiniau. Bydd hyn yn cynnwys cynnal y gwiriadau cam-drin domestig a diogelu priodol i gefnogi'r broses asesu risg. | Goruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf. | Y Gwasanaeth Prawf. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 8 | Dylai'r Uned Cyflawni Prawf leol sicrhau ansawdd ei pholisi trosglwyddo newydd ar ôl cyfnod o amser y cytunwyd arno i sicrhau ei hun bod y polisi yn darparu gwasanaeth o'r ansawdd gofynnol a'i fod yn galluogi'r lefel briodol o oruchwyliaeth gan uwch-reolwyr ar achosion cymhleth. | Goruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf. | Y Gwasanaeth Prawf. |
| 9 | Dylai'r Uned Cyflawni Prawf leol adolygu ei harferion neilltuo achosion a chofnodi penderfyniadau cysylltiedig i sicrhau bod achosion cymhleth yn cael eu rheoli gan ymarferwyr sydd â'r lefelau priodol o sgiliau a phrofiad. Dylai penderfyniadau neilltuo gael eu cofnodi'n glir a bod yn archwiliadwy. | Goruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf. | Y Gwasanaeth Prawf. |
| 10 | Dylai'r asiantaethau a nodwyd sicrhau bod ganddynt fesurau ar waith i sicrhau bod ymarferwyr yn cwblhau hyfforddiant cam-drin domestig a diogelu sy'n berthnasol i'w rolau. | Cam-drin domestig. | Ar draws y system. |
| 11 | Dylai'r asiantaethau a nodwyd sicrhau eu hunain bod gan ymarferwyr rheng flaen y sgiliau i nodi'r risg o gam-drin domestig sy'n gysylltiedig â brodyr a chwiorydd a'r hyder a'r wybodaeth i wneud atgyfeiriadau lle bo hynny'n briodol. | Cam-drin domestig. | Ar draws y system. |
| 12 | Dylai Heddlu Dyfed-Powys sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn deall yr angen i gael yr holl wybodaeth berthnasol wrth asesu'r risg o gam-drin domestig a phwysigrwydd defnyddio chwilfrydedd proffesiynol i gyflawni hyn. Mae hyn hyd yn oed yn bwysicach mewn achosion sy'n cynnwys bygwth lladd neu achosi niwed difrifol mewn amgylchiadau a fyddai'n gyfystyr â cham-drin domestig. | Cam-drin domestig. | Heddlu Dyfed-Powys |
| 13 | Dylai pob asiantaeth sicrhau bod ganddi'r dulliau priodol ar waith i annog ymarferwyr i rannu neu geisio gwybodaeth i gefnogi asesiadau risg mewn perthynas ag oedolion y mae ganddi bryderon amdanynt, ond nad ydynt yn cyd-fynd â fframweithiau statudol ar gyfer rhannu gwybodaeth megis MAPPA, adran 126 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu ofynion rhannu eraill gan gynnwys MARAC. | Rhannu gwybodaeth. | Ar draws y system. |

# 12. Atodiad 2. Cylch Gorchwyl

**1. Cefndir**

1.1 Ar ddyddiad ar ddechrau mis Medi 2022, cafodd swyddogion heddlu eu galw i gyfeiriad yn Rhydaman, Sir Gaerfyrddin. Cafwyd hyd i gorff Matthew yng ngardd y cyfeiriad. Roedd Matthew wedi dioddef sawl clwyf trywanu a chafwyd hyd i gyllell ar y safle. Yn bresennol yn y cyfeiriad roedd mam Matthew, y dioddefwr, a'i frawd Jacob.

1.2 Cafodd Jacob ei arestio am lofruddiaeth ac wedi hynny cafodd ei gyhuddo a'i gadw yn y ddalfa.

1.3 Ym mis Mehefin 2023, ar ôl pledio'n euog o'r blaen i'r drosedd llofruddiaeth, cafodd Jacob ei ddedfrydu i garchar am oes gydag isafswm tariff o 18 mlynedd cyn y gellir ei ystyried ar gyfer parôl.

1.4 Yn unol ag adran 9 o Ddeddf Trais Domestig, Troseddu a Dioddefwyr 2004, cynhaliwyd cyfarfod o gynrychiolwyr o Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Cadeirydd y Bartneriaeth, ar 10 Hydref 2022, a chadarnhaodd fod y meini prawf ar gyfer adolygiad lladdiad domestig wedi'u bodloni.

1.5 Mae'r Swyddfa Gartref wedi cael gwybod.

**2. Diben yr Adolygiad Lladdiad Domestig**

2.1 Pwrpas yr adolygiad oedd;

i. cadarnhau'r ffeithiau a llunio dadansoddiad cynhwysfawr a chytbwys o'r wybodaeth i lywio dysgu sefydliadol a dylanwadu ar newid.

i. gweld pa wersi sydd i'w dysgu o laddiad domestig Matthew o ran sut mae gweithwyr proffesiynol a sefydliadau lleol yn gweithio'n unigol a gyda'i gilydd i ddiogelu dioddefwyr;

ii. nodi'n glir beth yw'r gwersi hynny, o fewn asiantaethau a rhyngddynt, sut ac o fewn pa amserlenni y byddant yn cael eu gweithredu, a beth y mae disgwyl iddo newid o ganlyniad;

iii. defnyddio'r gwersi hyn mewn ymatebion gwasanaethau gan gynnwys newidiadau i lywio polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a lleol fel y bo'n briodol;

iv. atal trais a lladdiadau domestig a gwella ymatebion gwasanaethau i bob dioddefwr cam-drin domestig a'u plant drwy ddatblygu dull amlasiantaeth cydlynol er mwyn sicrhau bod cam-drin domestig yn cael ei adnabod ac yr ymatebir iddo yn effeithiol cyn gynted â phosibl;

vi. ystyried bylchau posibl yn y ddarpariaeth gwasanaethau, a/neu rwystrau posibl i ddefnyddio gwasanaethau;

vi. cyfrannu at well dealltwriaeth o natur trais a cham-drin domestig;

vii. tynnu sylw at arferion da.

**3. Ffocws yr Adolygiad Lladdiad Domestig**

3.1 Bydd yr adolygiad hwn yn canfod a nododd unrhyw asiantaeth neu asiantaethau gam-drin domestig posibl a/neu wirioneddol a allai fod wedi bod yn berthnasol i farwolaeth Matthew.

3.2 Os digwyddodd cam-drin o'r fath ac na chafodd ei nodi, bydd yr adolygiad yn ystyried pam a sut y gellir nodi cam-drin o'r fath mewn achosion yn y dyfodol.

3.3 Os nodwyd cam-drin domestig, bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar a oedd ymateb pob asiantaeth iddo yn unol â'i pholisïau, ei phrotocolau a'i gweithdrefnau ei hun a rhai amlasiantaeth a oedd yn bodoli ar y pryd. Yn benodol, os nodwyd cam-drin domestig, bydd yr adolygiad yn archwilio'r dull a ddefnyddiwyd i asesu risg a'r cynllun gweithredu a roddwyd ar waith i leihau'r risg honno. Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn ystyried deddfwriaeth ac arferion gorau cyfredol. Bydd yr adolygiad yn archwilio sut y cofnodwyd unrhyw batrwm o gam-drin domestig a pha wybodaeth a rannwyd gydag asiantaethau eraill.

**4. Methodoleg yr Adolygiad Lladdiad Domestig**

4.1 Bydd yr adolygiad hwn yn seiliedig ar adroddiadau rheoli annibynnol, a ddarperir gan yr asiantaethau a hysbyswyd neu a gafodd gysylltiad â Matthew neu Jacob mewn amgylchiadau sy'n berthnasol i gam-drin domestig, neu i ffactorau a allai fod wedi cyfrannu at gam-drin domestig, e.e. iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau neu alcohol. Bydd pob adroddiad rheoli annibynnol yn cael ei baratoi gan berson medrus priodol nad yw wedi cael unrhyw gysylltiad uniongyrchol â Matthew neu Jacob, ac nad yw'n rheolwr llinell uniongyrchol unrhyw staff y mae eu camau gweithredu yn destun adolygiad, neu a allai fod yn destun adolygiad, yn yr adroddiad rheoli annibynnol.

4.2 Rhaid cyflwyno adroddiadau rheoli unigol gan ddefnyddio'r templedi cymeradwy sy'n gyfredol ar adeg eu cwblhau.

4.3 Bydd pob adroddiad rheoli unigol yn cynnwys cronoleg, genogram, (os yw'n berthnasol), a dadansoddiad o'r gwasanaeth a ddarparwyd gan yr asiantaeth sy'n ei gyflwyno. Bydd yr adroddiad rheoli unigol yn tynnu sylw at arferion da ac anfoddhaol, a bydd yn gwneud argymhellion ar gyfer yr asiantaeth unigol a, lle bo'n berthnasol, ar gyfer gweithio amlasiantaeth. Bydd yr adroddiad rheoli unigol hefyd yn darparu cyd-destun drwy gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud ag adnoddau, llwyth gwaith, goruchwyliaeth, cymorth a hyfforddiant/profiad y gweithwyr proffesiynol cysylltiedig.

4.4 Rhaid i bob asiantaeth y mae'n ofynnol iddi gwblhau adroddiad rheoli unigol gynnwys yr holl wybodaeth a gadwyd am Matthew neu Jacob o 1 Ionawr 2017 hyd at farwolaeth Matthew ym mis Medi 2022. Os bydd unrhyw wybodaeth am Matthew fel dioddefwr cam-drin domestig neu Jacob fel cyflawnwr cam-drin domestig, neu i'r gwrthwyneb, cyn 1 Ionawr 2017 yn dod i'r amlwg, dylid cynnwys hynny hefyd yn yr adroddiad rheoli unigol.

4.5 Rhaid cynnwys gwybodaeth a gedwir gan asiantaeth y mae'n ofynnol iddi gwblhau adroddiad rheoli unigol, sy'n berthnasol i'r lladdiad, yn llawn. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft: achosion blaenorol o drais (fel dioddefwr neu gyflawnwr), camddefnyddio alcohol neu sylweddau, neu faterion iechyd meddwl sy'n ymwneud â Matthew neu Jacob. Os nad yw'r wybodaeth yn berthnasol i amgylchiadau neu natur y lladdiad, bydd disgrifiad byr ohoni yn ddigonol.

4.6 Dylai unrhyw faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, er enghraifft materion anabledd, diwylliannol a ffydd, hefyd gael eu hystyried gan awdur adroddiad rheoli unigol. Os nad oes unrhyw un o'r materion hyn yn berthnasol, rhaid cynnwys datganiad bod y rhain wedi'u hystyried.

4.7 Pan fydd pob asiantaeth y mae'n ofynnol iddi gyflwyno adroddiad rheoli unigol yn gwneud hynny yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni, bydd yr adroddiadau rheoli unigol yn cael eu hystyried yn un o gyfarfodydd panel yr Adolygiad Lladdiad Domestig a bydd adroddiad trosolwg wedyn yn cael ei ddrafftio gan gadeirydd y panel. Yna bydd yr adroddiad trosolwg drafft yn cael ei ystyried mewn cyfarfod arall o banel adolygu yr Adolygiad Lladdiad Domestig pellach cyn cyflwyno fersiwn derfynol y cytunwyd arni i gadeirydd Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Sir Gaerfyrddin.

4.8 Bydd awdur yr adroddiad yn cynnal ymchwil berthnasol ac yn cynnwys gwersi a ddysgwyd o adolygiadau lladdiad domestig blaenorol lle nodir materion tebyg.

**Ymwneud â'r Teulu**

5.1 Mae ymgysylltu â theulu Matthew yn rhan bwysig o'r adolygiad hwn. Byddant yn cael y cyfle i wneud cyfraniad ystyrlon ac effeithiol i'r broses a lle bo hynny'n briodol, yn cael cymorth arbenigol i'w galluogi i ymgysylltu'n llawn â'r adolygiad.

5.2 Bydd y cadeirydd yn sicrhau bod strategaeth gyfathrebu effeithiol ar waith i roi gwybodaeth i'r teulu, os ydynt yn dymuno hynny, drwy gydol y broses, gan fod yn sensitif i'w dymuniadau, anghenion cymorth ac unrhyw drefniadau presennol ar waith i wneud hyn.

**6. Amserlenni**, **Awdur yr Adroddiad a'r Adroddiad Terfynol**

6.1 Mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn mynnu bod yr adolygiad yn cael ei gwblhau o fewn chwe mis i gyfarfod cyntaf y panel adolygu; ein bwriad yw bodloni'r gofyniad hwn.

6.2 Bydd yr adroddiad yn ddadansoddiad tryloyw, gonest a thrwyadl o'r amgylchiadau er mwyn llywio dysgu a dylanwadu ar newid fel y bo'n briodol.

6.3 Bydd unrhyw bwyntiau dysgu yn cael eu hystyried a'u cytuno gan y panel adolygu cyn eu cynnwys yn yr adroddiad terfynol a'r cynlluniau gweithredu dilynol. Os nodir unrhyw faterion neu bwyntiau dysgu brys y mae angen mynd i afael â hwy, byddant yn cael eu dwyn i sylw Cadeirydd y Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel i gael eu rhannu cyn i'r Swyddfa Gartref gymeradwyo'r adroddiad terfynol.

6.4 Bydd Cadeirydd y Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel yn anfon copi o'r adroddiad terfynol, ynghyd ag unrhyw gynllun gweithredu, i asiantaethau perthnasol ar gyfer sylwadau cyn ei lofnodi a'i gyflwyno i'r Swyddfa Gartref. Yn dilyn cymeradwyaeth y Swyddfa Gartref, bydd Cadeirydd y Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel yn darparu copi o'r adroddiad trosolwg, crynodeb gweithredol ac unrhyw gynllun gweithredu i uwch-reolwr perthnasol pob asiantaeth oedd yn cyfranogi.

6.5 Bydd Cadeirydd y Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel yn anfon copi o'r adroddiad terfynol i bob fforwm/rhanddeiliad perthnasol er mwyn rhannu dysgu a, lle bo'n briodol, dylanwadu ar flaenoriaethau a rhaglenni gwaith.

6.6 Bydd Cadeirydd y Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel yn cyhoeddi'r adroddiad trosolwg a'r crynodeb gweithredol ar wefan y Bartneriaeth.

6.7 Bydd y Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel yn gyfrifol am fonitro'r gwaith o gyflawni unrhyw gynllun gweithredu yn unol â'r canllawiau.

6.8 Yn amodol ar argymhellion y panel adolygu, bydd Cadeirydd y Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel yn cynnal digwyddiad dysgu os yw'n briodol.

**Adolygiadau Cyfochrog**

7.1 Mae'r gwasanaeth prawf wedi cwblhau adolygiad trosedd ddifrifol bellach mewn perthynas â'i oruchwyliaeth ar Jacob.  Bydd arweinydd yr adolygiad yn cysylltu â'r cadeirydd Annibynnol ar gyfer y broses hon ac yn cyfrannu at yr Adolygiad Lladdiad Domestig drwy rannu ei ganfyddiadau.

**Materion Penodol i fynd i'r afael â hwy**

8.1 Materion penodol y bydd pob asiantaeth yn rhoi ystyriaeth iddynt, ac, os yw'n berthnasol, yn mynd i'r afael â nhw yn eu Hadroddiad Rheoli Unigol yw:

- A oedd ymarferwyr yn sensitif i anghenion Matthew neu Jacob, ac a oeddent yn wybodus am arwyddion posibl o gam-drin domestig ac yn ymwybodol o beth i'w wneud os oedd ganddynt bryderon am ddioddefwr neu gyflawnwr? A oedd hi'n rhesymol disgwyl iddynt, o

ystyried lefel eu hyfforddiant a'u gwybodaeth, gyflawni yn unol â'r disgwyliadau hynny?

- A oedd gan yr asiantaeth bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer asesu risg a rheoli risg o ran cam-drin domestig, stelcian ac aflonyddu (DASH) ar gyfer dioddefwyr a chyflawnwyr cam-drin domestig? Os felly, a ddefnyddiwyd yr asesiadau hynny'n gywir yn achos Matthew neu Jacob? A oedd gan yr asiantaeth bolisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer delio â phryderon am gam-drin domestig? A oedd y gweithdrefnau, y polisïau a'r offer asesu hyn yn cael eu derbyn yn broffesiynol fel rhai effeithiol?
- A oedd Matthew neu Jacob yn destun MARAC, (cynhadledd amlasiantaeth asesu risg), neu fforwm amlasiantaeth arall?
- A gydymffurfiodd yr asiantaeth â phrotocolau trais a cham-drin domestig y cytunwyd arnynt ag asiantaethau eraill, gan gynnwys unrhyw brotocolau rhannu gwybodaeth?
- A gollwyd cyfleoedd i ymyrryd? A yw'n ymddangos bod asesiadau a phenderfyniadau wedi'u gwneud mewn ffordd wybodus a phroffesiynol?
- A oedd camau gweithredu neu gynlluniau rheoli risg yn cyd-fynd â'r asesiad a'r penderfyniadau a wnaed? A gafodd gwasanaethau priodol eu cynnig neu eu darparu, neu a gafodd ymholiadau perthnasol eu gwneud yng ngoleuni'r asesiadau, o ystyried yr hyn a oedd yn hysbys neu'r hyn a ddylai fod wedi bod yn hysbys bryd hynny?
- Pryd, ac ym mha ffordd, y cafodd dymuniadau a theimladau'r dioddefwr eu canfod a'u hystyried? A yw'n rhesymol tybio y dylai dymuniadau'r dioddefwr fod wedi bod yn hysbys? A gafodd y dioddefwr wybod am opsiynau/dewisiadau i wneud penderfyniadau gwybodus? A gafodd ei gyfeirio at asiantaethau eraill?
- A oedd unrhyw beth yn hysbys am y cyflawnwr? Er enghraifft, a oeddent yn destun MAPPA (Trefniadau Amlasiantaeth ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd), MATAC (Tasgau a Chydlynu Amlasiantaeth), neu unrhyw raglen arall ar gyfer ymyrryd â chyflawnwyr? A oedd unrhyw waharddiadau neu orchmynion amddiffyn ar waith, neu wedi bod ar waith o'r blaen?
- A oedd y gweithdrefnau'n sensitif i hunaniaeth ethnig, ddiwylliannol, ieithyddol a chrefyddol y dioddefwr, y cyflawnwr a'u teuluoedd? A oedd angen ystyried bod yn agored i niwed neu anabledd? A oedd unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig eraill yn berthnasol yn yr achos hwn?
- A oedd Matthew neu Jacob wedi gwneud datgeliad i unrhyw ymarferwyr neu weithwyr proffesiynol ac os felly, a oedd yr ymateb yn briodol?
- A gafodd y wybodaeth hon ei chofnodi a'i rhannu, lle bo hynny'n briodol?

- A oedd uwch-reolwyr neu asiantaethau/gweithwyr proffesiynol eraill yn cyfranogi ar yr adegau priodol?
- A oedd gan y staff cysylltiedig y sgiliau a'r hyfforddiant angenrheidiol?
- A oes gwersi i'w dysgu o'r achos hwn yn ymwneud â'r ffordd y gweithiodd asiantaeth, neu asiantaethau, i ddiogelu Matthew neu Jacob a hyrwyddo eu lles? A oes goblygiadau o ran ffyrdd o weithio, hyfforddiant, rheoli a goruchwylio, gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill neu ddarparu adnoddau?
- A ymatebodd asiantaethau yn effeithiol i'r camddefnydd o sylweddau gan Jacob a Matthew? A gollwyd cyfleoedd i wneud mwy?
- A oedd Jacob yn ddefnyddiwr gwasanaeth iechyd meddwl ac os felly, a oedd ei anghenion cymorth/triniaeth yn cael eu diwallu'n briodol?
- Pa mor hygyrch oedd y gwasanaethau i Matthew neu Jacob?
- A fu unrhyw waith ailstrwythuro yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu ac os felly, a yw'n debygol o fod wedi cael effaith ar ansawdd y gwasanaeth a ddarparwyd?
- A effeithiodd pandemig covid ar y gwasanaethau a ddarparwyd i Matthew neu Jacob?

**Cyfrinachedd**

9.1 Mae'r holl wybodaeth sy'n cael ei thrafod neu ei rhannu drwy'r Adolygiad Lladdiad Domestig yn **gwbl gyfrinachol** ac ni ddylid ei datgelu i drydydd partïon heb gytundeb ymlaen llaw Cadeirydd y Bartneriaeth Cymunedau Mwy Diogel/Cadeirydd y Panel Adolygiad Lladdiad Domestig —yn unol â'r cytundeb cyfrinachedd y bydd yn ofynnol i aelodau'r panel ac unigolion eraill sy'n cymryd rhan ei lofnodi.

9.2 Dylai'r holl ddogfennau gael eu marcio fel **Cyfrinachol - dim i'w datgelu heb gydsyniad Partneriaeth Cymunedau Mwy Diogel Sir Gaerfyrddin.**

9.3 Gofynnir i bob asiantaeth lynu at eu gweithdrefnau diogelu data eu hunain, sy'n cynnwys diogelwch data electronig.

9.4 Bydd yr adroddiad trosolwg drafft yn parhau i fod yn ddogfen gyfrinachol nes iddo gael ei gymeradwyo i'w gyhoeddi gan Banel Sicrhau Ansawdd y Swyddfa Gartref.